Archwilio Cymru
Audit Wales

# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2023-24

Paratowyd yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024 ar y cyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a Chadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru. Fe'i gosodir gerbron y Senedd yn unol ag Atodlen 2 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 ac mae'n cynnwys materion fel y cyfarwyddir gan Drysorlys EF.

Paratowyd y Cyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024 gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, yn rhinwedd ei swydd o fod yn Swyddog Cyfrifyddu Swyddfa Archwilio Cymru, yn unol ag Atodlen 1 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 ac ar ffurf a gyfarwyddwyd gan Drysorlys EF.

Archwilio Cymru yw'r enw cyfunol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân gyda'u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol. O ganlyniad, yn yr Adroddiad hwn, rydym yn cyfeirio'n benodol at yr Archwilydd Cyffredinol neu Swyddfa Archwilio Cymru mewn adrannau y mae angen manylder cyfreithiol ynddynt.

Os oes angen y cyhoeddiad hwn arnoch mewn fformat a/neu iaith arall, neu os oes gennych unrhyw gwestiynau am ei gynnwys, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion isod.

Archwilio Cymru
1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

Ffôn 02920 320 500
E-bost post@archwilio.cymru
Gwefan www.archwilio.cymru
Twitter @WalesAudit

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to a delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

# Cipolwg ar y flwyddyn

### Ebrill

Cynhaliwyd symposiwm ar gyfer staff, gyda siaradwyr gwadd o gyrff archwiliedig a'r proffesiwn archwilio ehangach, i drafod sut y gallwn gyflawni gwell ansawdd a chael mwy o effaith.

Cynhaliwyd ymgyrchoedd recriwtio helaeth a llwyddiannus ar gyfer swyddi uwch-archwilwyr i lenwi swyddi gwag ar draws ein ffrydiau gwaith archwilio ariannol.





### Mai

Rhannwyd rhaglen tymor canolig mynegol o waith archwilio perfformiad sy'n cyd-fynd â'n harchwiliad blynyddol o gyfrifon dros 800 o gyrff cyhoeddus yng Nghymru.

Darparwyd erthygl nodwedd ar gyfer cylchgrawn Association for Public Service Excellence ar y pum maes sy'n effeithio ar y sector llifogydd a sut mae rheoli'r perygl llifogydd yn gweithio yng Nghymru.

### Mehefin

Cyhoeddwyd adroddiad yn edrych ar a oedd Cymru ar y trywydd iawn i wneud y defnydd gorau o weddill y gronfa Ewropeaidd oedd ar gael.

Mewn partneriaeth â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a Chomisiynydd y Gymraeg, rhannwyd mewnwelediadau o ran sut mae cyrff cyhoeddus yn gweithio i hybu a diogelu diwylliant a threftadaeth Cymru a'r Gymraeg.

Cym

### Gorffennaf

Cynhaliwyd galwad am dystiolaeth ar gyfer astudiaeth yn edrych a yw Llywodraeth Cymru yn gwneud defnydd da o'i hadnoddau er mwyn cyflawni ei tharged tai fforddiadwy.

Cwblhawyd adroddiadau lleol a chenedlaethol yn edrych ar yr heriau y mae Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn eu hwynebu wrth fynd ar drywydd ffrydiau incwm newydd.





### Awst

Postiwyd pennod podlediad yn edrych ar gydnerthedd cymunedol, rhai o'r ffactorau sy'n achosi tlodi yng Nghymru, a'r gwerth y mae mentrau cymdeithasol yn eu darparu.

Amlygwyd pryderon mawr ynghylch gweithredu'r system newydd ar gyfer sicrhau Diogelwch Adeiladau.

### Medi

Cyhoeddwyd adroddiad briffio ar ddata ynghylch Gweithlu'r GIG i helpu i ddarlunio'r heriau a wynebir, ac offeryn data diweddaredig sy'n dangos tueddiadau yng nghyllid y GIG gan dynnu sylw at bwysau ariannol ehangach.


Rydym yn falch o gael ein henwi yn un o Ddeg Cyflogwr Gorau Working Families 2023



### Hydref

Ysgrifennwyd at Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus y Senedd i nodi canfyddiadau o waith archwilio dilynol ar drefniadau cyflenwi ar gyfer absenoldeb athrawon.

Amlygwyd anghysondebau yn y ffordd y mae tri Awdurdod Tân ac Achub Cymru yn rheoli galwadau diangen.





### Tachwedd

Adroddwyd pryderon sylweddol am drefniadau llywodraethu mewn perthynas ag anghydfod cyflogaeth yn Amgueddfa Cymru.

Darparwyd sylwebaeth ar y cynnydd a wnaed gan y pedwar Cydbwyllgor Corfforaethol o ran cyflawni eu rhwymedigaethau statudol a chryfhau cydweithrediad rhanbarthol.

### Rhagfyr

Cynhaliwyd ymgyrch Defnyddia dy Gymraeg er mwyn hybu cyfleoedd i ddysgu Cymraeg yn y sefydliad.

Cynhaliwyd trafodaeth banel ar hygrededd yn y sector cyhoeddus, a oedd yn rhoi lle amlwg i gyfraniadau gan Swyddfa Archwilydd Cyffredinol Seland Newydd, ICAEW a Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth.




### Ionawr

Doed i'r casgliad y gellid cynyddu'r gwaith adfywio safleoedd tir llwyd yn sylweddol â dull mwy systematig a chydweithredol.

Cyhoeddwyd sawl adroddiad lleol yn edrych ar sut mae Cynghorau yn casglu ac yn defnyddio gwybodaeth am ganlyniadau eu gweithgareddau a safbwyntiau defnyddwyr eu gwasanaethau.





### Chwefror

Galwyd am weledigaeth feiddgar fel y gall gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru ddianc o duedd droellog o ymdrin â heriau wrth iddynt godi gan feddwl am y byrdymor.

Dathlwyd Wythnos Brentisiaethau drwy rannu straeon gan ein prentisiaid presennol, ynghyd â blogiau, tystebau a fideos am ein cynllun prentisiaeth.

### Mawrth

Adroddwyd bod Llywodraeth Cymru wedi gweithio'n dda gyda phartneriaid mewn amgylchiadau anodd i ddarparu ar gyfer Wcreiniaid sy'n ffoi rhag y rhyfel, a'u cefnogi, ond bod gwersi i'w dysgu ar gyfer unrhyw gynlluniau tebyg yn y dyfodol.

Rhannwyd podlediad yn trafod pwysigrwydd strategaeth i weithredu effaith ddigidol, a'r cyfleoedd a'r risgiau a berir gan Ddeallusrwydd Artiffisial.



# Cynnwys a chanllaw i ddarllenwyr

## Adroddiad Perfformiad

Adolygiad o'n gwaith yn 2023-24, gan gynnwys dadansoddiad o'n darpariaeth a'n perfformiad, a'n sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn.yn.

### Golwg gyffredinol ar y perfformiad

Crynodeb o bwy ydym ni, yr hyn a wnawn a'n sefyllfa strategol, ochr yn ochr ag ystyriaethau a gwybodaeth allweddol am sut y gwnaethom berfformio yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.


| | |
|---|---|
| Pwy ydym ni a'r hyn yr ydym yn ei wneud | 8 |
| Ein gweledigaeth strategol a'n meysydd pwyslais | 10 |
| Datganiadau gan yr Archwilydd Cyffredinol a Chadeirydd y Bwrdd ar ein perfformiad yn 2023-24 | 11 |
| Dangosyddion perfformiad allweddol | 15 |


### Dadansoddi perfformiad

Asesiad o'r graddau y cyflawnwyd y blaenoriaethau a'r rhaglenni gwaith a nodir yn ein Cynllun Blynyddol 2023-24.


| | |
|---|---|
| Sylwadau ynghylch cyflawni ein rhaglenni gwaith archwilio | 20 |
| Y cynnydd a wnaed yn ein meysydd pwyslais ar gyfer gwella busnes | 26 |
| Enghreifftiau o astudiaethau achos o brosiectau effeithiol | 36 |
| Crynodeb o'n defnydd o adnoddau yn ystod y cyfnod adrodd | 39 |


## Adroddiad Atebolrwydd

Datganiadau ac adroddiadau allweddol sy'n ein galluogi i fodloni gofynion atebolrwydd a dangos cydymffurfiaeth â llywodraethu corfforaethol da.

### Adroddiad llywodraethu corfforaethol

Esboniad o gyfansoddiad a threfniadaeth ein strwythurau llywodraethu a sut y maent yn ein cefnogi i gyflawni ein hamcanion.


| | |
|---|---|
| Adroddiad y Cyfarwyddwyr | 51 |
| Datganiad o gyfrifoldebau y Swyddog Cyfrifyddu | 53 |
| Datganiad llywodraethu | 54 |

**Adroddiad taliadau cydnabyddiaeth staff**

Ein polisi cydnabyddiaeth ariannol, manylion am daliadau cydnabyddiaeth a buddiannau pensiwn aelodau'r Bwrdd, ei bwyllgorau a'r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol, ein datgeliad cyflog teg, ac adroddiad ynghylch ein staffio.

Adroddiad taliadau cydnabyddiaeth 70
Adroddiad staff 78

**Alldro adnoddau ac adroddiad yr archwilydd**

Ein crynodeb o alldro adnoddau, golwg gyffredinol o dueddiadau yn ein gwariant hirdymor, ac adroddiad yr archwilydd annibynnol, gan gynnwys ei farn ar y datganiadau ariannol, rheoleidd-dra a materion eraill.

Crynodeb o alldro adnoddau a nodiadau cysylltiedig 83
Adroddiad yr archwilydd annibynnol i'r Senedd 87

## Datganiadau Ariannol

Datganiadau ariannol Swyddfa Archwilio Cymru, ochr yn ochr â nodiadau ategol ac esboniadol.

Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr 95
Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol 96
Datganiad Llifoedd Arian Parod 98
Datganiad o'r Newidiadau mewn Ecwiti Trethdalwyr 100
Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol 101
Rhestr termau 122

## Atodiadau

1 Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ynghylch Datgelu Gwybodaeth 125
2 Parodrwydd i dderbyn risg 126

# Adroddiad Perfformiad

Adolygiad o'n gwaith yn 2023-24, gan gynnwys dadansoddiad o'n darpariaeth a'n perfformiad, a'n sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn.

Adrian Crompton

Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r Swyddog Cyfrifyddu

5 Awst 2024

01

# Golwg gyffredinol ar berfformiad

## Pwy ydym ni a'r hyn yr ydym yn ei wneud

1 Archwilydd Cyffredinol Cymru yw'r archwilydd allanol statudol ar gyfer y sector cyhoeddus yng Nghymru. Yr Archwilydd Cyffredinol sy'n gyfrifol am archwilio mwyafrif yr arian cyhoeddus a warir yng Nghymru.

2 Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn darparu adnoddau, megis staff, er mwyn arfer swyddogaethau yr Archwilydd Cyffredinol, ac mae'n monitro ac yn cynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Ar hyn o bryd, mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cyflogi oddeutu 290 o aelodau staff.

3 Gyda'n gilydd, fel Archwilio Cymru, rydym yn archwilio oddeutu £27 biliwn o incwm a gwariant.

### Ein diben yw:

- Rhoi sicrwydd i bobl bod arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n dda
- Esbonio sut mae'r arian hwnnw'n cael ei wario
- Ysbrydoli'r sector cyhoeddus i wella

### Rydym yn ymgymryd â gwaith archwilio lleol a chenedlaethol ar draws amrywiaeth eang o gyrff cyhoeddus

4 Mae ein Cynllun Blynyddol diweddaraf yn rhoi mwy o fanylion am yr amrywiaeth o gyrff yr ydym yn eu harchwilio a sut yr ydym yn dilyn y bunt gyhoeddus yng Nghymru. Mae ein gwaith yn cefnogi gwaith y Senedd, a chynrychiolwyr a etholwyd yn lleol, o graffu'n effeithiol ar arian cyhoeddus.

5 Mae ein rhaglenni gwaith arfaethedig yn cadw rhywfaint o hyblygrwydd er mwyn ymateb i amgylchiadau a blaenoriaethau sy'n newid, a materion newydd sy'n peri pryder cyhoeddus neu seneddol.

6 Rydym yn nodi arferion da ar draws ehangder llawn ein gwaith archwilio ac yn lledaenu hyn drwy amrywiaeth o gyfryngau, gan gynnwys adroddiadau, blogiau, podlediadau a seminarau a gweminarau dysgu ar y cyd.

## Ein gwaith craidd

Gwneud gwaith archwilio lleol mewn dros 800 o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys:
- Archwiliadau o gyfrifon
- Gwaith archwilio perfformiad lleol
- Archwiliadau'r egwyddor datblygu cynaliadwy

Cyflwyno rhaglen o astudiaethau cenedlaethol

Ardystio cynlluniau grant gwerth bron i £1.5 biliwn

Cefnogi gwaith craffu effeithiol gan gynnwys gwaith pwyllgorau'r Senedd

Rhannu arferion da a'r hyn rydym yn ei ddysgu drwy archwilio i gefnogi'r gwasanaethau cyhoeddus a ddarperir

Hwyluso'r gwaith o ganfod twyll a gwall drwy'r Fenter Twyll Genedlaethol

Cymeradwyo tua £2 biliwn o daliadau allan o Gronfa Gyfunol Cymru bob mis

## Rydym yn gweithio'n annibynnol ar y llywodraeth

7 Yr Archwilydd Cyffredinol a'n Bwrdd sy'n gyfrifol am bennu a goruchwylio cyfeiriad strategol y sefydliad.

8 Mae'r Bwrdd yn dwyn yr Archwilydd Cyffredinol i gyfrif yn ei swyddogaeth fel Prif Weithredwr Swyddfa Archwilio Cymru ac yn ei gefnogi i gyflawni ei swyddogaeth fel Swyddog Cyfrifyddu. Fel Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Prif Weithredwr yn atebol yn bersonol i Bwyllgor Cyllid y Senedd ar faterion megis cydymffurfio â Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru.

9 Mae ein Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol yn cynghori'r Archwilydd Cyffredinol, gan gynnwys yn rhinwedd ei swydd fel Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

10 Mae ein Cynllun Cyhoeddiadau yn cynnwys diagram sy'n dangos ein strwythur sefydliadol. Ceir gwybodaeth fanylach am ein trefniadau llywodraethu yn adran Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon.

# Ein gweledigaeth strategol a'n meysydd pwyslais

## Ein gweledigaeth yw cynyddu ein heffaith drwy:

- Manteisio'n llawn ar ein safbwynt, ein harbenigedd a'n dyfnder unigryw ar fewnwelediad
- Cryfhau ein safle fel llais awdurdodol, dibynadwy ac annibynnol
- Cynyddu ein hamlygrwydd, dylanwad, a pherthnasedd
- Bod yn sefydliad sy'n esiampl ar gyfer y sector cyhoeddus yng Nghymru a thu hwnt

11 Yn ein Strategaeth ar gyfer 2022 i 2027, rydym wedi nodi tri maes pwyslais lle byddwn yn blaenoriaethu camau er mwyn helpu Archwilio Cymru i gyflawni ei weledigaeth gyffredinol.

## Ein meysydd pwyslais

- Rhaglen archwilio strategol, ddeinamig o ansawdd uchel
- Dull wedi'i dargedu ac sy'n cael effaith ar gyfathrebu a dylanwadu
- Diwylliant a model gweithredu sy'n ein galluogi i ffynnu

12 Mae ein Cynllun Blynyddol diweddaraf yn rhoi rhagor o fanylion am:

a yr hyn yr ydym yn ei ystyried yn elfennau pwysig o'n hamgylchedd gweithredu cyfredol, gan gynnwys amrywiaeth o ffactorau a all ddylanwadu ar o broses o gyflawni ein gwaith i raddau amrywiol.

b meysydd allweddol lle gall risgiau godi a bygwth cyflawni ein gwaith yn llwyddiannus.

c sut yr ydym yn mesur ac yn adrodd ar ein perfformiad.

13 Ceir rhagor o wybodaeth am ein proffil risg yn ystod 2023-24 a sut y cafodd y risgiau hynny eu newid a'u lliniaru yn adran Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol yr Adroddiad hwn a thrwy ein cofnodion Bwrdd cyhoeddedig.

# Datganiad gan yr Archwilydd Cyffredinol am ein perfformiad yn 2023-24

Rydym yn falch o gyflwyno ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon ar gyfer 2023-24.

We are pleased to present our Annual Report and Accounts for 2023-24.

Ochr yn ochr â'n datganiadau ariannol ac atebolrwydd, mae'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon hyn yn rhoi crynodeb o'r cynnydd a wnaed gennym wrth gyflawni'r rhaglenni gwaith archwilio a nodwyd yn ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2023-24. Mae'n bleser gennyf gyflwyno detholiad o astudiaethau achos yn yr adroddiad hwn i roi blas ar y gwaith a wnaed gennym eleni a'r effaith y mae'r gwaith hwnnw wedi'i chael.

Fel yr adlewyrchwyd yn fy sylwebaeth O ymdrin â heriau wrth iddynt godi i ddiogelu at y dyfodol ym mis Chwefror 2024, mae gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn wynebu pwysau enfawr yn ariannol, o ran galw ac o ran y gweithlu. Er bod yn rhaid i gyrff cyhoeddus wneud eu penderfyniadau eu hunain am y ffordd y maent yn mynd i'r afael â'r heriau hynny, mae gwaith archwilio cyhoeddus annibynnol yn darparu rhybudd cynnar o broblemau sy'n dod i'r amlwg, yn tynnu sylw at gyfleoedd i wella gwerth am arian, ac yn cefnogi llywodraethu da.

Mae maes mwyaf ein gwaith yn cynnwys archwilio cyfrifon dros 800 o gyrff cyhoeddus ledled Cymru. Mae'r gwaith hwn yn hanfodol wrth ddarparu asesiad annibynnol parhaus i'r Senedd, cyrff archwiliedig a'r cyhoedd ehangach o gadernid a rheolaeth ariannol ar draws y sector cyhoeddus.

Fodd bynnag, rwy'n cydnabod bod ein hamserlen archwilio cyfrifon yn 2023-24 ar ei hôl hi o gymharu â lle yr hoffem fod, yn enwedig yn y sector llywodraeth leol. Mae hynny oherwydd sawl ffactor – nid lleiaf etifeddiaeth barhaus pandemig COVID, prinder gweithwyr cyllid proffesiynol ym mhob rhan o'r diwydiant a'r angen i weithio drwy rai materion archwilio anodd. Bydd yn cymryd nifer o flynyddoedd i sicrhau bod y rhaglen waith fawr honno yn mynd yn ôl i amserlenni mwy traddodiadol, ond fel y nodwyd yn ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2024-25, a gyhoeddwyd yn ddiweddar, rydym wedi ymrwymo i wneud hynny gyda chefnogaeth ein cyrff archwiliedig.

Mae pwysau o ran adnoddau ac etifeddiaeth y pandemig wedi effeithio ar y gwaith o gyflawni ein rhaglenni archwilio perfformiad cenedlaethol a lleol hefyd. Yma hefyd, rydym yn anelu at adfer y sefyllfa o ran yr ôl-groniad sydd wedi cronni dros y blynyddoedd diwethaf. Er gwaethaf yr heriau hynny, yn 2023-24 gwnaethom barhau i gyflawni rhaglen eang ac amrywiol o waith archwilio perfformiad ledled Cymru sydd wedi caniatáu i mi gyflawni fy rhwymedigaethau statudol a thaflu goleuni ar heriau llywodraethu a pherfformiad sylweddol o fewn rhai o'r cyrff a archwilir gennym.

Yn ystod y flwyddyn, rhoddwyd dulliau archwilio newydd ar waith yn seiliedig ar arferion gorau a safonau rhyngwladol diwygiedig. Er mai dyma'r tro cyntaf i ni gymhwyso'r dulliau hyn, a oedd yn sylfaenol wahanol, cyflawnwyd y safonau ansawdd yr oeddem yn dymuno eu cyflawni yn gyffredinol mewn asesiadau allanol, annibynnol. Roedd hyn yn gyflawniad arbennig ac yn dyst i falchder ac arbenigedd staff ym mhob rhan o Archwilio Cymru. Gwnaethom hefyd barhau i gynyddu effaith ein gwaith a chyrraedd cynulleidfaoedd newydd drwy ddefnyddio offer data, adroddiadau rhyngweithiol, ffeithluniau, gweminarau, a blogiau, gan gynyddu ein hymgysylltiad ar-lein drwy ein gwefan a sianeli cymdeithasol ac yn y cyfryngau.

Rwy'n ddiolchgar iawn i holl staff Archwilio Cymru am eu proffesiynoldeb, eu gwaith caled a'u hymroddiad i wasanaeth cyhoeddus drwy gydol y 12 mis diwethaf. Hebddyn nhw, ni fyddai dim o hyn yn bosibl.

Hoffwn hefyd ddiolch i Kathryn Chamberlain am ei chyfraniad gwerthfawr fel Cadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru yn ystod 2023-24, ac edrychaf ymlaen at weithio'n agos gyda'n Cadeirydd newydd, Dr Ian Rees, wrth i ni symud y sefydliad yn ei flaen.



**Adrian Crompton**
Archwilydd Cyffredinol
Cymru

# Datganiad gan y Cadeirydd am ein perfformiad yn 2023-24

Yn gyntaf, hoffwn ddiolch i bawb yn Archwilio Cymru am eu cefnogaeth garedig wrth i mi ddechrau yn fy swydd fel Cadeirydd y Bwrdd. Hoffwn hefyd achub ar y cyfle i groesawu dau aelod anweithredol newydd o'r Bwrdd, Richard Thurston, a Mike Norman, a ddechreuodd yn eu rolau ddechrau mis Mehefin.

O'm mhrofiadau fel aelod o'r Bwrdd a Chadeirydd ein Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg dros y flwyddyn ddiwethaf, roedd hi'n gyfnod o newid a her sylweddol yn Archwilio Cymru, fel y nodir yn glir yn ein crynodeb o ddangosyddion perfformiad allweddol sy'n dilyn y datganiad hwn, ac yn y sylwebaeth gan Adrian ar gyflawni ein gwaith archwilio.

Ddechrau'r flwyddyn, roeddem wedi dechrau setlo i mewn i'n swyddfa newydd yng Nghaerdydd – swyddfa lai, fwy modern â chyfleusterau gwell, gyda chostau rhedeg sylweddol is, perfformiad amgylcheddol gwell a chysylltiadau gwell o ran trafnidiaeth gyhoeddus. Yn ddiweddarach yn y flwyddyn, gwnaethom hefyd symud ein swyddfa yng ngogledd Cymru i safle llai o faint a rennir, unwaith eto gyda mynediad, cyfleusterau ac elfennau amgylcheddol gwell. Cyfnod o darfu a newid sylweddol i'r staff o ran eu hamgylchedd gwaith o ddydd i ddydd, ond cam pwysig o ran lleihau ein costau a chefnogi'r cydbwysedd gorau posibl rhwng gweithio yn y swyddfa a gweithio gartref.

Ym mis Tachwedd 2023, wrth gyflwyno ein Hamcangyfrif a'n Hadroddiad Interim blynyddol i Bwyllgor Cyllid y Senedd, amlygwyd pwysigrwydd cynnal system archwilio cyhoeddus o ansawdd uchel sydd ag adnoddau priodol yng Nghymru. Rydym yn gwerthfawrogi'n fawr y gefnogaeth a roddodd y Pwyllgor i'n cais am ragor o fuddsoddiad hanfodol i recriwtio, hyfforddi a datblygu ein staff proffesiynol cymwysedig, er mwyn helpu i sicrhau ein bod yn gynaliadwy yn y tymor hwy ac yn parhau i ddarparu gwasanaeth sy'n bodloni disgwyliadau'r Senedd.

Fodd bynnag, rydym yn parhau i fod yn ymwybodol iawn o'r cyfrifoldeb sydd gennym i rannau eraill o'r sector cyhoeddus i reoli ein costau gweithredu ein hunain a'r ffioedd a godir gennym, ar yr amod nad yw hynny'n peri risg i ansawdd gwaith archwilio a'r sicrwydd y gallwn ei roi. Yn ystod 2023-24, cyflawnwyd y targedau arbedion uchelgeisiol a bennwyd gennym, a thrwy ymgymryd ag ymarfer adolygu cynaliadwyedd ariannol trylwyr, nodwyd rhai cyfleoedd i gyflawni arbedion effeithlonrwydd pellach yn y dyfodol.

Ym mis Tachwedd 2023, cynhaliwyd arolwg staff ar ei newydd wedd i feithrin dealltwriaeth o'r newydd o brofiad cyflogeion yn Archwilio Cymru. Roedd canlyniadau'r arolwg hwnnw yn galonogol, gyda'n sgôr mynegai ymgysylltu gyffredinol yn cynyddu i'n lefel darged. Lle nododd canlyniadau'r arolwg fod lle i wella, rydym wedi ymateb yn unol â hynny, er enghraifft, trwy weithgarwch datblygu arweinwyr a hyfforddi rheolwyr gwell, a chynllun newydd ar gyfer y gweithlu. Yn gyffredinol, er gwaethaf y pwysau a'r heriau parhaus, mae gennym sefydliad cryf i adeiladu arno a hoffwn dalu teyrnged i staff Swyddfa Archwilio Cymru am eu holl waith caled a'u hymroddiad drwy gydol y flwyddyn.



**Dr Ian Rees**
Cadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru

# Dangosyddion perfformiad allweddol

14 Roedd ein Cynllun Blynyddol 2023-24 yn cynnwys fframwaith o ddangosyddion perfformiad allweddol a thargedau cysylltiedig.

15 Yn ein Hadroddiad Interim, gwnaethom ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf yng nghanol y flwyddyn ar y cynnydd a wnaed yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill a 30 Medi 2023 tuag at gyflawni'r targedau hyn.

16 Dengys yr arddangosyn canlynol y sefyllfa ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2023-24. Nid yw'r data dangosyddion perfformiad allweddol wedi cael ei archwilio. Yn yr arddangosyn, mae rhai rhifau wedi eu talgrynnu i'w gwneud yn haws eu darllen a'u cymharu, ac mae'r dangosyddion perfformiad allweddol yn gydnaws â'r meysydd pwyslais strategol y maent yn ymwneud â nhw. Yn gyffredinol, yn 2023-24, gwnaethom gyflawni neu roeddem yn agos at gyflawni ein targedau ar gyfer 10 o'r 18 dangosydd perfformiad allweddol.

## Y sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn ar gyfer ein dangosyddion perfformiad allweddol yn 2023-24

### Rhaglen archwilio strategol, ddeinamig, o ansawdd uchel

| Rhif | Dangosydd | Disgrifiad[1] | Targed 2023-24 | Perfformiad 2022-23 | Perfformiad 2023-24 |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Terfynau amser statudol | Y gyfran o gynhyrchion archwilio a gyflawnir o'u cymharu â'r terfyn amser statudol y cytunwyd arno. | 100% | 84% | 85%[2] |

● Achieved or close to achieving our target ● Improvement required ● Significant improvement required

1 Mae'r disgrifiadau ar gyfer dangosyddion perfformiad allweddol 1 a 3 ychydig yn wahanol i'r hyn a gyhoeddwyd yn ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2023-24 i roi mwy o eglurder i'r darllenydd ar yr hyn sy'n cael ei fesur.

2 Mae dangosydd perfformiad allweddol 1 yn canolbwyntio ar ein gwaith archwilio cyfrifon. Mae'r perfformiad yn adlewyrchu'r heriau ehangach sy'n ein hwynebu o ran adnoddau, gan arwain at oedi sy'n effeithio ar y gwaith o archwilio cyfrifon rhai cyrff llywodraeth leol.

| Rhif | Dangosydd | Disgrifiad[1] | Targed 2023-24 | Perfformiad 2022-23 | Perfformiad 2023-24 |
|---|---|---|---|---|---|
| 2 | Yn brydlon | Y gyfran o gynhyrchion archwilio allweddol eraill a gyflawnir yn unol â'r amserlen arfaethedig ar gyfer sicrhau adroddiadau amserol ac effeithiol. | 90% | 82% | 76%[3] |
| 3 | Ansawdd | Nifer yr archwiliadau a adolygwyd a ddarperir yn unol â safonau ansawdd y Cyngor Adrodd Ariannol. | Mae'r holl archwiliadau a samplwyd yn y ddau gategori ansawdd archwilio uchaf. | 6 allan o 7 | 7 allan o 7 |
| 4 | Hygrededd[4] | Cyfran y rhanddeiliaid sy'n ein hystyried yn adroddwr annibynnol ac awdurdodol ar lywodraeth a stiwardiaeth arian ac asedau cyhoeddus. | O leiaf 90% | 85% | 92% |
| 5 | Darparu mewnwelediad | Cyfran y rhanddeiliaid a ddywedodd eu bod, drwy ein gwaith, wedi cael mewnwelediad defnyddiol na fyddent wedi ei gael fel arall. | O leiaf 80% | 71% | 64% |

● Cyflawni ein targed,neu'n agos at wneud hynny ● Angen gwelliant ● Angen gwelliant sylweddol

3 Mae dangosydd perfformiad allweddol 3 yn canolbwyntio ar rai o elfennau allweddol ein rhaglenni archwilio perfformiad cenedlaethol a lleol. Mae'r perfformiad yn ystod 2023-24 yn adlewyrchu'r heriau sy'n wynebu'r rhaglenni hyn o ran adnoddau a chyflawniad, fel y disgrifir yn adran Dadansoddi Perfformiad yr Adroddiad hwn.

4 Fel y nodir yn fanylach yn adran Dadansoddi Perfformiad yr Adroddiad hwn, mae data perfformiad 2023-24 ar gyfer dangosyddion perfformiad allweddol 4-6 yn dod o arolwg byr â chynulleidfa gulach na'r un a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2024, i ategu ymarfer ymchwil rhanddeiliaid annibynnol ehangach o 2023. Rydym yn bwriadu ymgymryd ag ymarfer ymchwil annibynnol mwy cynhwysfawr unwaith eto ar ddechrau 2025.

| Rhif | Dangosydd | Disgrifiad[1] | Targed 2023-24 | Perfformiad 2022-23 | Perfformiad 2023-24 |
|---|---|---|---|---|---|
| 6 | Sbarduno gwelliant | Cyfran y rhanddeiliaid sy'n credu bod ein gwaith wedi arwain at welliannau i'r ddarpariaeth o wasanaethau cyhoeddus. | O leiaf 80% | 81% | 76% |
| 7 | Yr arbedion a nodwyd | Gwerth arbedion posibl, enillion cynhyrchiant a buddion ariannol eraill a nodwyd trwy ein gwaith. | O leiaf £30 miliwn yn ystod 2023-2026 | £32 miliwn rhwng 2020 a 2023 | £700,000[5] |

**Dull cyfathrebu a dylanwadu sydd wedi'i dargedu ac yn cael effaith sylweddol**

| Rhif | Dangosydd | Disgrifiad | Targed 2023-24 | Perfformiad 2022-23 | Perfformiad 2023-24 |
|---|---|---|---|---|---|
| 8 | Digwyddiadau arferion da | Cyfran y rhanddeiliaid sy'n graddio ein digwyddiadau arferion da yn ddefnyddiol neu'n ddefnyddiol iawn. | O leiaf 90% | 100% | 100% |
| 9 | Ymweliadau â'n gwefan | Nifer yr ymweliadau â'n gwefan pan fo o leiaf un weithred yn cael ei chyflawni, e.e., lawrlwytho adroddiad, clicio ar fideo. | 35,000 bob blwyddyn | 44,900 | 59,100 |

● Cyflawni ein targed,neu'n agos at wneud hynny ● Angen gwelliant ● Angen gwelliant sylweddol

5 Er mai dim ond swm bach yr ydym wedi ei adrodd ar ddiwedd blwyddyn gyntaf y cyfnod o dair blynedd a gwmpesir gan y dangosydd perfformiad allweddol hwn, mae sawl darn o waith archwilio ar y gweill y rhagwelwn y byddant yn nodi arbedion posibl sylweddol, enillion cynhyrchiant a buddion ariannol eraill yn ystod 2024-25. Bydd hyn yn cynnwys adrodd canlyniadau o gylch diweddaraf y Fenter Twyll Genedlaethol.

| Rhif | Dangosydd | Disgrifiad | Targed 2023-24 | Perfformiad 2022-23 | Perfformiad 2023-24 |
|---|---|---|---|---|---|
| 10 | Cyfryngau cymdeithasol | Nifer yr ymgysylltiadau ar gyfryngau cymdeithasol, h.y., ymgysylltu â'n negeseuon trwy eu hoffi, trwy wneud sylw arnynt, neu drwy eu rhannu. | 3,000 pob blwyddyn | 4,200 | 4,000 |
| 11 | Rhannu dysg am archwilio | Nifer yr achosion lle byddwn yn cyflwyno dysg am archwilio i weithgorau polisïau allweddol neu mewn digwyddiadau perthnasol a gynhelir yn allanol. | 50 pob blwyddyn | 65 | 45[6] |

**Model diwylliant a gweithredu sy'n ein galluogi i ffynnu**

| Rhif | Dangosydd | Disgrifiad | Targed 2023-24 | Perfformiad 2022-23 | Perfformiad 2023-24 |
|---|---|---|---|---|---|
| 12 | Ymgysylltu â chyflogeion | Canran cadarnhaol sgôr mynegai ymgysylltu arolwg staff blynyddol. | O leiaf y sgôr meincnod canolrifol ar gyfer Arolwg Pobl diweddaraf y Gwasanaeth Sifil | 60% | 64%[7] |
| 13 | Trosiant[8] | Cyfran y cyflogeion sy'n gadael Archwilio Cymru yn wirfoddol fesul blwyddyn. | Rhwng 5% a 10% | 10.1% | 12.3% |

Cyflawni ein targed,neu'n agos at wneud hynny · Angen gwelliant · Angen gwelliant sylweddol

6 Nid yw'r ffigur hwn yn cynnwys mynd i gyfarfodydd yn rhan o'n busnes archwilio arferol. Pan rydym wedi mynychu grwpiau penodol yn rheolaidd mewn cysylltiad ag un pwnc, rydym wedi cyfrif y rhain gyda'i gilydd fel un digwyddiad.

7 64% oedd meincnod Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil ym mis Hydref 2023.

8 Yn 2023-24, ar ôl cynnal ein harolwg staff blynyddol am sawl blwyddyn gan ddefnyddio holiadur craidd Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil, gwnaethom gynnal arolwg ymgysylltu adnewyddedig gan ddefnyddio holiadur thematig newydd. O ganlyniad, nid ydym yn gallu adrodd ar ein perfformiad mwyach o'i gymharu â sgoriau profiad cyflogeion thematig Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil. Yn ein Cynllun Blynyddol 2024-25, gan ystyried y risgiau allweddol sy'n wynebu'r sefydliad ar hyn o bryd, gwnaethom ddisodli'r dangosydd perfformiad allweddol hwn â dangosydd a tharged newydd ar drosiant cyflogeion. Yn yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon hyn, rydym felly wedi darparu data sylfaenol ar gyfer 2022-23 a 2023-24 ar gyfer y dangosydd perfformiad allweddol strategol newydd.

| Rhif | Dangosydd | Disgrifiad | Targed 2023-24 | Perfformiad 2022-23 | Perfformiad 2023-24 |
|---|---|---|---|---|---|
| 14 | Absenoldeb oherwydd salwch | Diwrnodau gwaith a gollwyd ar gyfartaledd fesul aelod o staff bob flwyddyn. | Llai na chwe diwrnod | 6.6 diwrnod | 7.1 diwrnod |
| 15 | Mantol ariannol | Amrywiant y tanwariant net ar incwm a gwariant o'i chymharu â'r hyn a nodir yn ein Hamcangyfrif ar gyfer y flwyddyn gyfredol | Llai na 2% o'r gyllideb gwariant gros | 0.8% | 1.1% |
| 16 | Arbedion o ran costau ac effeithlonrwydd | Gwerth yr arbedion o ran costau ac effeithlonrwydd a nodwyd ym mhob rhan o'r busnes. | £1.4 miliwn | £1.5 miliwn | £1.8 miliwn |
| 17 | Allyriadau nwyon tŷ gwydr | Cyfanswm yr allyriadau sy'n cyfateb â CO2 . | Gostyngiad o 20% ar linell sylfaen 2019-20 sydd wedi ei hail-gyfrifo | 290 tunnell | 280 tunnell |
| 18 | Y gyfradd lwyddiant ar gyfer hyfforddeion | Cyfran yr hyfforddeion sy'n llwyddo y tro cyntaf yn eu harholiadau Proffesiynol lefel uwch â Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr. | O leiaf 90% | 68% | 82% |

● Cyflawni ein targed,neu'n agos at wneud hynny ● Angen gwelliant ● Angen gwelliant sylweddol

# Dadansoddi perfformiad

17 Mae’r adran hon yn nodi golwg fanylach ar berfformiad Archwilio Cymru yn 2023-24. Mae’n darparu:

a sylwadau ynghylch cyflawni ein rhaglenni gwaith archwilio.

b manylion am y cynnydd a wnaed yn y meysydd pwyslais a nodir yn ein Cynllun Blynyddol.

c enghreifftiau o astudiaethau achos o brosiectau sy’n enwedig o effeithiol.

ch crynodeb o’n defnydd o adnoddau yn y cyfnod adrodd, sy’n gweithredu fel ein Hadroddiad Cynaliadwyedd.

## Sylwadau ynghylch cyflawni ein rhaglenni gwaith archwilio

18 Mae ein busnes craidd yn cynnal rhaglen eang o waith archwilio i gyflawni pwerau a dyletswyddau statudol yr Archwilydd Cyffredinol.

19 Trwy gydol 2023-24, gwnaethom ymgymryd â gwaith archwilio lleol a chenedlaethol ar draws amrywiaeth eang o gyrff cyhoeddus.

### Elfennau allweddol o'n gwaith archwilio

- Rhoi barn ynghylch a yw cyfrifon y sector cyhoeddus wedi'u paratoi'n briodol a rhoi darlun cywir a theg o'r sefyllfa ariannol
- Ystyried a yw arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio at ddibenion cymeradwy
- Archwilio pa mor ddarbodus, effeithlon ac effeithiol y mae cyrff cyhoeddus wedi defnyddio eu hadnoddau (gwerth am arian)
- Dod i gasgliadau ynghylch a yw cyrff cyhoeddus wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau gwerth am arian wrth arfer eu swyddogaethau
- Ystyried a yw busnes cyhoeddus yn cael ei gynnal mewn ffordd sy'n bodloni disgwyliadau a safonau penodol
- Cynnal archwiliadau egwyddor datblygu cynaliadwy

## Gwaith archwilio lleol

20 Mae maes mwyaf ein gwaith lleol yn cynnwys archwilio cyfrifon dros 800 o gyrff cyhoeddus ledled Cymru. Mae ein harchwiliad o waith cyfrifon yn darparu asesiad annibynnol ac arbenigol parhaus i'r Senedd, cyrff archwiliedig a'r cyhoedd ehangach ynghylch cadernid a rheolaeth ariannol ar draws y sector cyhoeddus.

21 Dirywiodd amseroldeb ein darpariaeth o'r gwaith hwn drwy gyfnod pandemig COVID. Bydd yn cymryd sawl blwyddyn i ddod â'n rhaglen waith fawr yn ôl at yr amserlenni a oedd yn bodoli cyn y pandemig, ond rydym yn benderfynol o wneud hynny.

22 Yn ystod y cyfnod adrodd, cwblhawyd ein harchwiliadau o gyfrifon 2022-23 cyrff y GIG a'r llywodraeth ganolog i raddau helaeth yn unol â'n cynllun cyflawni. Fodd bynnag, effeithiodd heriau parhaus gydag adnoddau, ochr yn ochr â materion ag ansawdd rhai setiau cyfrifon, ar yr amserlen ar gyfer cyflawni ein gwaith cyfrifon mewn llywodraeth leol.

23 Yn ystod 2024-25, ein nod yw parhau â'r cynnydd a wnaed i ddod â'r dyddiadau cau ar gyfer adrodd ein gwaith archwilio cyfrifon ymlaen. Yn y tymor hwy, ein targed yw, erbyn archwiliadau o gyfrifon 2025-26, y byddwn wedi mynd yn ôl i amserlenni mwy traddodiadol, sef 15 Mehefin ar gyfer sector y GIG a 30 Medi ar gyfer y sector llywodraeth leol.

24 Oherwydd bod y pwrs cyhoeddus mor dynn, mae hefyd yn bwysicach nag erioed sicrhau gwerth am arian o bob punt o arian cyhoeddus sy'n cael ei gwario. Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom barhau i lunio ein gwaith archwilio perfformiad lleol i fynd i'r afael â'r heriau datblygol sy'n wynebu ein cyrff archwiliedig, a phan fo hynny'n berthnasol ac ymarferol, helpu i gyflawni dyletswyddau archwilio datblygu cynaliadwy yr Archwilydd Cyffredinol[9].

25 Eleni, ochr yn ochr â'n hasesiadau sicrwydd blynyddol, ein hasesiadau risg a'n hasesiadau strwythuredig, roedd ein rhaglen yn cynnwys:

- a gweithio ar arbedion ariannol a chynllunio'r gweithlu yng nghyrff y GIG.
- b parhad ein gwaith ar ofal heb ei drefnu ar draws gofal iechyd a chymdeithasol, gan edrych ar drefniadau rhyddhau cleifion o ysbytai.
- c gweithio ar y defnydd o wybodaeth am berfformiad a strategaeth ddigidol mewn llywodraeth leol.
- ch dechrau asesiadau cynaliadwyedd ariannol cynghorau sy'n ymdrin â'r argyfwng costau byw.
- d gwaith dilynol i roi mewnwelediad i'r heriau llywodraethu penodol ar effeithiolrwydd y bwrdd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, ac ar drefniadau cynllunio yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

26 Fodd bynnag, mae etifeddiaeth y pandemig, trosiant ac absenoldeb staff, a'n heriau adnoddau ehangach wedi effeithio ar y broses o gyflawni rhywfaint o'n gwaith archwilio perfformiad, yn lleol ac yn genedlaethol. Mae hyn wedi cynnwys rhywfaint o flaenoriaethu o ran adnoddau staff archwilio perfformiad i gefnogi gwaith archwilio cyfrifon. Rydym yn bwriadu adfer y sefyllfa o ran ein hôl-groniad yn ystod y ddwy flynedd nesaf. Ar gyfer ein rhaglenni archwilio lleol, rydym eisiau symud i sefyllfa, yn y pen draw, lle y caiff gwaith ei gwblhau o fewn tri mis i ddiwedd y flwyddyn y mae'r cynllun archwilio lleol yn ymwneud â hi.

9 O dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Gan gynnwys archwiliadau sy'n edrych ar gymhwyso egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu amcanion llesiant neu wrth gymryd camau i gyflawni'r amcanion hynny.

27 Ceir rhestr gynhwysfawr o'r cyrff cyhoeddus a archwilir gennym a'r mathau o waith archwilio lleol a wneir yn y cyrff hynny yn ein Cynllun Blynyddol a gyhoeddwyd yn ddiweddar.

## Astudiaethau cenedlaethol

28 Mae blaenraglen ddangosol yr Archwilydd Cyffredinol o astudiaethau cenedlaethol ar gyfer 2023-2026 yn canolbwyntio ar bedair prif thema:

a mynd i'r afael ag anghydraddoldeb

b ymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur

c cadernid gwasanaethau a'r gallu i'w defnyddio

ch gwasanaethau cyhoeddus a reolir yn dda

29 Gan ymgorffori rhan fawr o'r rhaglen honno, mae'r tabl isod yn rhestru 16 o allbynnau adroddiad cenedlaethol o'r gwahanol fathau a gyflawnwyd gennym yn 2023-24. Mae ein Ciplun o'r Flwyddyn ar flaen yr Adroddiad hwn yn cynnwys nifer o'r allbynnau hyn.

**Allbynnau adroddiad cenedlaethol a gwblhawyd yn 2023-24**

| | |
|---|---|
| Gwneud y Mwyaf o Arian yr UE – y Rhaglen Cronfeydd Strwythurol a'r Rhaglen Datblygu Gwledig | 'Craciau yn y Sylfeini' – Diogelwch Adeiladau yng Nghymru |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg – Gwaith Dilynol ar yr Adolygiad ar y Cyd o Drefniadau Llywodraethu Ansawdd | Teclyn Data Cynnydd GIG – hyd at fis Mawrth 2023 |
| Llamu Ymlaen: Gwersi o'n gwaith ar y gweithlu ac asedau (mewn llywodraeth leol) | Dulliau o sicrhau sero net ledled y DU |
| Arallgyfeirio Incwm ar gyfer Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yng Nghymru | Adroddiad Briffio ar Ddata ynghylch Gweithlu'r GIG |
| Trefniadau Cyflenwi ar gyfer Absenoldeb Athrawon – dilyniant 2023 | Diffoddwch y galwadau diangen: Ymatebion yr Awdurdodau Tân ac Achub i Signalau Tân Dieisiau |

| | |
|---|---|
| Trefniadau llywodraethu mewn perthynas ag anghydfod cyflogaeth yn Amgueddfa Cymru | Cyd-bwyllgorau Corfforaethol – sylwebaeth ar eu cynnydd |
| Datblygu cynaliadwy? – gwneud y defnydd gorau o dir llwyd ac adeiladau gwag. | Adroddiad Dilynol ar Effeithiolrwydd – Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| O ymdrin â heriau wrth iddynt godi i ddiogelu at y dyfodol – yr her i wasanaethau cyhoeddus Cymru | Cefnogi Wcreiniaid yng Nghymru |

30 Mae ein Cynllun Blynyddol 2024-25 yn cynnwys manylion am archwiliadau ac astudiaethau a oedd ar y gweill ar 31 Mawrth 2024 ac am waith newydd yr ydym yn bwriadu ei ddechrau yn 2024-25.

## Cefnogi gwaith craffu effeithiol

### Cefnogi gwaith pwyllgorau y Senedd

31 Yn ystod y cyfnod adrodd, parhaodd ein gwaith i chwarae rhan allweddol wrth gefnogi gwaith Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus y Senedd wrth iddo ystyried sut mae adnoddau'n cael eu defnyddio wrth gyflawni swyddogaethau cyhoeddus yng Nghymru. Cefnogodd yr allbynnau o'n gwaith 18 o gyfarfodydd ffurfiol y Pwyllgor. Roedd hyn yn cynnwys y Pwyllgor yn ystyried allbynnau adroddiad amrywiol a gwblhawyd yn ystod y cyfnod adrodd. Rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol a'n staff gyngor a chymorth ychwanegol i'r Pwyllgor yn ôl yr angen hefyd, gan gynnwys paratoi deunydd briffio ar gyfer sesiynau tystiolaeth y Pwyllgor.

32 Gall ein gwaith lywio gwaith pwyllgorau eraill y Senedd hefyd. Yn 2023-24, gwnaethom barhau i ymgysylltu â thimau clercio pwyllgorau eraill y Senedd er mwyn trafod darnau perthnasol o waith ac ymateb i ymgynghoriadau perthnasol. Roedd hyn yn cynnwys:

a darparu cyflwyniad i'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai yn rhan o'i ymchwiliad i wasanaethau hamdden a llyfrgelloedd awdurdodau lleol.

b rhoi tystiolaeth i'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol yn rhan o'i ymchwiliad i wasanaethau tân ac achub.

c briffio'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i gefnogi eu gwaith craffu ar Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

## Cefnogi gwaith y pwyllgorau archwilio a chraffu ar gyrff cyhoeddus

33 Trwy gydol y flwyddyn ddiwethaf, buom yn mynychu cyfarfodydd pwyllgorau archwilio a chraffu ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru, er mwyn darparu sesiynau briffio ac adrodd ar ein gwaith.

34 Hefyd, gwnaethom barhau â'n sesiynau briffio rheolaidd ar faterion sy'n ymwneud ag archwilio i:

a Cadeiryddion Pwyllgor Archwilio y GIG a Chyfarwyddwyr grwpiau Cyllid

b Grŵp Cymdeithas Trysoryddion Cymru llywodraeth leol

c Grŵp Cadeiryddion Pwyllgor Archwilio y Llywodraeth Ganolog

## Cefnogi'r cyhoedd a'u cynrychiolwyr etholedig

35 Rydym ni'n cael gohebiaeth yn rheolaidd gan y cyhoedd, eu cynrychiolwyr etholedig ac eraill sy'n codi pryderon posibl ynghylch defnyddio arian cyhoeddus. Yn ystod 2023-24, cawsom 122 o eitemau gohebiaeth a gwnaethom sicrhau ein bod yn ymateb i'r pryderon hynny mewn modd teg, cymesur a phroffesiynol.

36 Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn Berson Rhagnodedig ar gyfer derbyn datgeliadau oddi wrth chwythwyr chwiban ynghylch cynnal busnes cyhoeddus yn briodol, gwerth am arian, twyll a llygredd mewn cysylltiad â darparu gwasanaethau cyhoeddus. Cynhwysir Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar Ddatgelu Gwybodaeth ar gyfer 2023-24[10] fel Atodiad 1 i'r Adroddiad hwn.

10 Fel sy'n ofynnol yn ôl Rheoliadau Personau Rhagnodedig (Adroddiadau ar Ddatgelu Gwybodaeth) 2017

## Gwaith arferion da

37 Mae pwyslais allweddol ein gwaith arferion da ar hwyluso sgyrsiau rhwng darparwyr gwasanaethau pan fo dysg o'n gwaith archwilio ac o'u profiadau cymharol yn cael ei rhannu. Rydym ni'n dod yn gynyddol â safbwyntiau a phrofiadau defnyddwyr gwasanaethau ac arbenigwyr byd-eang i'r sgyrsiau hyn.

38 Mae digwyddiadau, gweminarau, podlediadau Arferion Da, ac allbynnau eraill a gynhyrchwyd yn ystod y 12 mis diwethaf wedi cynnwys:

a Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu – digwyddiad a gynhelir mewn partneriaeth â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a Chomisiynydd y Gymraeg, gan archwilio sut mae cyrff cyhoeddus yn cyfrannu at gyflawni'r nod llesiant o'r un enw.

b Gyda'n gilydd gallwn – creu'r amodau i rymuso ein cymunedau i ffynnu – gweminar sy'n archwilio sut mae gwasanaethau cyhoeddus yn dod o hyd i ffyrdd gwahanol ac arloesol o gynnal gwasanaethau a grymuso'r gymuned ehangach, gan gynnwys y rhai y mae'r angen mwyaf arnynt.

c Hygrededd yn y sector gyhoeddus – trafodaeth banel ar bwysigrwydd hygrededd yn sefydliadau y sector cyhoeddus, yn rhoi lle amlwg i gyfranwyr o Swyddfa Archwilydd Cyffredinol Seland Newydd, ICAEW a Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth

39 Gellir cael gafael ar yr holl ddeunydd a rannwyd yn 2023-24 drwy adran Arferion Da ein gwefan.

## Ansawdd archwilio

40 Rydym yn cynnal ein gwaith yn unol â Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (yn y DU) a safonau cydnabyddedig eraill.

41 Mae ein Hadroddiad Ansawdd Archwilio diweddaraf yn crynhoi'r cynnydd a wnaed yn ein trefniadau ansawdd archwilio a chanlyniadau gweithgarwch monitro yn 2023.

42 Roedd y datblygiadau o bwys penodol yn y cyfnod adrodd yn cynnwys:

- a Gwreiddio safonau proffesiynol INTOSAI yn ein gwaith archwilio perfformiad.
- b Gwella ein dull o nodi ac ymateb i risgiau yn ein gwaith archwilio cyfrifon, a gefnogir gan lwyfan meddalwedd archwilio newydd.

43 Dechreuodd ein cylch gweithgarwch monitro ansawdd diweddaraf yn gynnar yn 2024 a bydd ein hadroddiad ansawdd archwilio nesaf yn cael ei gyhoeddi yn hydref 2024.

# Y cynnydd a wnaed yn ein meysydd pwyslais ar gyfer gwella busnes

44 Yn ein Strategaeth ar gyfer 2022 i 2027, gwnaethom nodi tri maes pwyslais lle byddwn yn blaenoriaethu camau er mwyn helpu Archwilio Cymru i gyflawni ei weledigaeth gyffredinol.

- Rhaglen archwilio strategol, ddeinamig o ansawdd uchel
- Dull wedi'i dargedu ac sy'n cael effaith ar gyfathrebu a dylanwadu
- Diwylliant a model gweithredu sy'n ein galluogi i ffynnu

45 Yn ein Cynllun Blynyddol 2023-24, gwnaethom ymrwymo i weithredu ar draws 16 blaenoriaeth cynllunio busnes allweddol. Mae'r tablau isod yn rhoi manylion am y cynnydd a wnaed gennym o'i gymharu â'r blaenoriaethau hyn yn y cyfnod adrodd ac maent wedi eu grwpio fesul maes pwyslais strategol y mae'r blaenoriaethau'n berthnasol iddynt. Er mwyn symleiddio ac osgoi dyblygu, pan gynhwysir manylion am y cynnydd a wnaed mewn mannau eraill yn yr Adroddiad hwn, cyfeirir at yr adran briodol.

# Rhaglen archwilio strategol, ddeinamig o ansawdd uchel

| Blaenoriaeth | Cynnydd a wnaed |
| --- | --- |
| Gwreiddio dull newydd o gydymffurfio ag ISA 315[11] y DU i'n gwaith archwilio cyfrifon, a safonau INTOSAI wrth gyflawni ein gwaith archwilio perfformiad. | Fel yr adroddir yn ein Hadroddiad Interim 2023, yn ystod hanner cyntaf y cyfnod adrodd, gwnaethom gwblhau hyfforddiant staff ar lwyfan tystiolaeth archwilio a dull archwilio cyfrifon newydd. Ar ôl hynny gwnaethom gymhwyso ein dull rhaglen archwilio cyfrifon y GIG, y llywodraeth ganolog, a llywodraeth leol 2022-23 newydd.<br><br>Yn ail hanner y flwyddyn, gwnaethom gynnal adolygiad mewnol o'r archwiliadau a gwblhawyd a rhoi sicrwydd i'r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol ar y system rheoli ansawdd sydd ar waith. Gwnaethom ymgysylltu hefyd ag Adran Sicrhau Ansawdd Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr (ICAEW) er mwyn cynnal adolygiad ansawdd annibynnol pellach. Mae canlyniadau'r ddau adolygiad bellach yn helpu i lywio datblygiad pellach ein dull archwilio newydd, ein hoffer a'n hyfforddiant.<br><br>Yn yr un modd, gwreiddiwyd Performance Audit Development Manual wedi'i ddiweddaru yn 2023-24, i gefnogi cydymffurfiaeth â safonau proffesiynol INTOSAI, a gefnogir gan raglen dysgu a datblygu perthnasol. |
| Cyflawni rhaglen gwaith archwilio o ansawdd uchel mwy deinamig sy'n adlewyrchu'r heriau y mae'r sector cyhoeddus yn eu hwynebu yn lleol ac yn genedlaethol. | Fel y nodir yn gynharach yn yr adroddiad hwn, ym mis Mai 2023 gwnaethom gyhoeddi ein blaenraglen ddangosol o astudiaethau cenedlaethol ar gyfer 2023-2026 sy'n canolbwyntio ar bedair prif thema. Lluniwyd y rhaglen waith hon gan y sylwadau a gafwyd wrth ymgysylltu â rhanddeiliaid a'n dadansoddiad yn Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus. Gan adeiladu i raddau helaeth ar y rhaglen hon, mae'r tabl yn adran Sylwebaeth yr Adroddiad hwn yn rhestru 16 o allbynnau adroddiad cenedlaethol o'r gwahanol fathau a gyflawnwyd gennym yn 2023-24.<br><br>Mae ein Cynllun Blynyddol 2024-25 yn cynnwys manylion am archwiliadau ac astudiaethau eraill a oedd ar y gweill ar 31 Mawrth 2024 ac am waith newydd yr ydym yn bwriadu ei ddechrau yn 2024-25. Rydym hefyd yng nghamau olaf y broses o gyhoeddi crynodeb o'r holl waith archwilio sydd ar y gweill ar ein gwefan newydd. |

11 Mae'r Safon Ryngwladol hon ar Archwilio (yn y DU) yn ymdrin â chyfrifoldeb yr archwilydd i nodi ac asesu risgiau o gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol.

| Blaenoriaeth | Cynnydd a wnaed |
|---|---|
| Gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol i nodi a chytuno ar ddyddiadau cau archwilio ar gyfer ein gwaith cyfrifon, a'u dwyn ymlaen, ar gyfer 2023 a'r blynyddoedd i ddod. | Mae adnoddau ein rhaglen archwilio cyfrifon 2022-23 wedi parhau i fod yn flaenoriaeth drwy gydol y cyfnod adrodd ac rydym wedi parhau i archwilio ffyrdd o gynyddu'r capasiti er mwyn helpu i sicrhau bod ein gwaith cyfrifon ar y trywydd iawn ar ôl cyfnod pandemig COVID. Mae hyn wedi cynnwys recriwtio myfyrwyr sydd ar leoliad gwaith a chynnwys staff o bob rhan o'r sefydliad i gefnogi'r gwaith archwilio cyfrifon. Gwnaethom gynnal cynllun peilot goramser llwyddiannus hefyd sydd wedi ei fabwysiadu fel dewis bellach pan fo'r anghenion busnes yn cyfiawnhau hynny.<br><br>O ganlyniad i'r mentrau hyn, yn 2023-24, roeddem yn gallu cyflawni archwiliadau cyfrifon y GIG a'r llywodraeth ganolog yn unol â'r amserlenni y cytunwyd arnynt, ond rydym yn parhau y tu ôl i'r amserlenni delfrydol wrth gyflawni archwiliadau ar gyfer llywodraethau lleol. Rydym yn cydnabod y bydd yn cymryd sawl blwyddyn i ddod â'n rhaglen waith fawr yn ôl at yr amserlenni a oedd yn bodoli cyn y pandemig, ond rydym yn benderfynol o wneud hynny. O ganlyniad, mae dwyn ymlaen y dyddiadau cau ar gyfer adrodd ar ein gwaith archwilio cyfrifon yn cael lle blaenoriaeth allweddol yn ein Cynllun Blynyddol 2024-25. |
| Ymwreiddio ein system cofnodi a rheoli amser (TRM) newydd er mwyn darparu gwell gwybodaeth reoli, sicrhau defnydd mwy effeithlon ac effeithiol o sgiliau staff a chefnogi proffilio incwm mwy cywir. | Cafodd y system TRM newydd ei gwreiddio'n llawn yn 2023-24 er mwyn cefnogi staff archwilio i adrodd ar daflenni amser wythnosol. Gweithiodd ein Tîm Cyllid ac Uned Busnes y Gwasanaethau Archwilio gyda'i gilydd yn agos yn ystod camau olaf y flwyddyn i adolygu'r broses o'r dechrau i'r diwedd er mwyn gwneud gwelliannau eraill a sicrhau bod y system yn cynnwys ymarferoldeb sy'n diwallu anghenion y defnyddwyr yn llawn.<br><br>Ar y cyfan, mae'r system newydd wedi galluogi gwaith monitro ariannol mwy cywir ac amserol, ac mae wedi cefnogi penderfyniadau mwy dibynadwy am adnoddau. Serch hynny, mae cryn dipyn o waith gwella i'w wneud o hyd.<br><br>Mae ein Pennaeth Archwilio Mewnol yn bwriadu cynnal adolygiad o weithrediad y system TRM yn ystod 2024-25, yn rhan o'r rhaglen archwilio fewnol ehangach. |

## Dull wedi'i dargedu ac sy'n cael effaith ar gyfathrebu a dylanwadu

| Blaenoriaeth | Cynnydd a wnaed |
|---|---|
| Gweithredu dull newydd o ymgysylltu â rhanddeiliaid er mwyn casglu sylwadau annibynnol gan ein cyrff archwiliedig. | Rhwng mis Chwefror a mis Mai 2023, cynhaliwyd dau ddarn sylweddol o ymchwil annibynnol â rhanddeiliaid er mwyn mesur ymwybyddiaeth y cyhoedd o Archwilio Cymru a chasglu safbwyntiau ar werth canfyddedig ac effaith ein gwaith.<br><br>Adroddir canfyddiadau yr ymarferion hyn yn ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022-23 ac fe'u defnyddiwyd wedyn i helpu i lunio ein rhaglen gwaith archwilio ac i lywio prosiectau eraill megis y gwaith o adnewyddu ein gwefan.<br><br>Eleni, gwnaethom gynnal arolwg llawer byrrach ym mis Mawrth 2024 gyda chynulleidfa gulach i ategu'r ymchwil hwnnw ac i lywio dangosyddion perfformiad allweddol perthnasol a adroddir mewn mannau eraill yn yr adroddiad hwn. Rydym yn bwriadu cynnal ymarferion annibynnol eto yn gynnar yn 2025. |
| Adnewyddu ein gwefan | Ym mis Chwefror 2024, lansiwyd gwefan Archwilio Cymru ar ei newydd wedd. Cynlluniwyd y wefan newydd er mwyn cryfhau brand Archwilio Cymru, darparu edrychiad a theimlad haws ei ddefnyddio, ac ymgorffori llu o nodweddion newydd, er mwyn gwella hygyrchedd y wefan ymhellach ar gyfer yr holl ddefnyddwyr.<br><br>Mae'r nodweddion newydd hyn yn cynnwys:<br><br>• tudalennau adroddiad archwilio gyda chrynodebau cliriach o gynnwys yr adroddiad, botymau lawrlwytho a dewisiadau ar gyfer rhannu cymdeithasol.<br>• hafan sy'n cynnwys detholiad o'r gwaith sydd ar y gweill – bydd yn cael ei datblygu ymhellach i fod yn olygfa amser real o'n rhaglen waith cyflawn i'r dyfodol yn 2024-25.<br>• gwell nodweddion hygyrchedd, gan gynnwys cynlluniau dewislen a swyddogaethau chwilio.<br><br>Cyflawnwyd y prosiect hwn gan dîm mewnol, yn gyflym ac o dan y gyllideb. |

| Blaenoriaeth | Cynnydd a wnaed |
|---|---|
| Cyflawni rhaglen dreigl rhannu arferion da adnewyddedig, sy'n gydnaws â'n rhaglen archwilio ac a gynlluniwyd o'r cychwyn cyntaf. | Ochr yn ochr â'n rhaglen dangosol cyhoeddedig o astudiaethau cenedlaethol ar gyfer 2023-2026, cyhoeddwyd rhaglen dros dro o ddigwyddiadau arferion da ar gyfer 2023-24 yn gynnar yn y flwyddyn ar ein gwefan.<br><br>Yn ystod y cyfnod adrodd, gweithiodd ein tîm arferion da yn agos ochr yn ochr â thimau archwilio i nodi arferion da wrth iddynt ddod i'r amlwg, gan addasu'r rhaglen yn unol â hynny a phenderfynu ar y dulliau a'r sianeli gorau ar gyfer rhannu'r mewnwelediad hwnnw drwyddynt.<br><br>Darperir disgrifiad o rai o'r prif ddigwyddiadau, gweminarau, podlediadau arferion da a'r allbynnau eraill a gynhyrchwyd yn ystod y 12 mis diwethaf yn adran Sylwebaeth ar gyflawniad ein rhaglenni archwilio o'r Adroddiad hwn.<br><br>Gellir cael gafael ar yr holl ddeunydd a rannwyd yn 2023-24 drwy adran Arferion Da ein gwefan. |
| Gwella ein trefniadau cyfathrebu mewnol gan gynnwys sesiynau aml i ymgysylltu â'r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol, rhannu straeon sy'n canolbwyntio ar ansawdd, effaith a'r rhyngweithiadau a gawn drwy ein gwaith, ac adfywio sianeli cyfathrebu gan gynnwys ein mewnrwyd. | Yn ystod y cyfnod adrodd, cyflwynodd ein Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol a'r Bwrdd gyfres o sioeau teithiol newydd, gan gwmpasu amrywiaeth o faterion gan gynnwys datblygu ein blaenoriaethau Cynllun Blynyddol 2024-25, a chael ein rhaglenni archwilio yn ôl ar y trywydd iawn. Roedd y sesiynau hefyd yn galluogi'r staff i ofyn cwestiynau a chodi unrhyw safbwyntiau neu bryderon gydag uwch-arweinwyr o bob rhan o'r sefydliad.<br><br>Ar ôl cynnal sesiynau gwanwyn a hydref 2023 i ddechrau fel eu bod wedi eu targedu at dimau unigol, mewn ymateb i sylwadau gan staff, roedd sioe deithiol ddilynol gwanwyn 2024 yn cynnwys sesiynau agored i ganiatáu cymysgedd ehangach a oedd yn bresennol ar unrhyw adeg benodol o wahanol rannau o'r sefydliad.<br><br>Hefyd, dilynodd yr uwch-arweinwyr ddull gwahanol o gyfathrebu negeseuon â'r holl staff yn 2023-24. Yn hytrach na phostio negeseuon a blogiau yn uniongyrchol ar hafan y fewnrwyd, anfonwyd negeseuon e-bost at yr holl staff a oedd yn cwmpasu amrywiaeth o bynciau allweddol yn fisol o leiaf, ac roedd cynnwys ychwanegol ar gael ar adran sy'n benodol i'r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol ar wefan y fewnrwyd.<br><br>Yn gynnar ym mis Ebrill 2024, cynhaliwyd y digwyddiad Archwilio Cymru wyneb yn wyneb cyntaf ers 2019, gan ddod â phawb ynghyd i roi cyfarwyddiadau am flaenoriaethau yr Archwilydd Cyffredinol ar gyfer y ddwy flynedd sy'n weddill o'i dymor yn y swyddogaeth. |

# Diwylliant a model gweithredu sy’n ein galluogi i ffynnu

| Blaenoriaeth | Cynnydd a wnaed |
|---|---|
| Cwmpasu ein Hadolygiad Cynaliadwyedd Ariannol a dechrau gweithredu’r newidiadau angenrheidiol er mwyn byw gyda’r hyn sydd gennym yn 2023-24 a’r blynyddoedd i ddod, gan ddangos ein hymrwymiad i werth am arian. | Darperir manylion am y cynnydd a wnaed o’i gymharu â’r flaenoriaeth hon yn adran Crynodeb o’n defnydd o adnoddau yn ystod y cyfnod adrodd (Cyflawni rheolaeth ariannol cadarn ac effeithlonrwydd) o’r Adroddiad hwn. |
| Datblygu ein dull rheoli perfformiad integredig. | Gwnaethom gymryd camau cychwynnol yng nghyfnodau olaf 2023-24 i wella ymhellach ein hadroddiadau ar berfformiad sefydliadol i’r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol, y Bwrdd a’i bwyllgorau. Mae dangosfwrdd rheoli perfformiad mwy integredig a rhyngweithiol yn cael ei ddatblygu, er mwyn llywio’r broses o wneud penderfyniadau corfforaethol yn well.<br><br>Bydd y gwaith hwn yn parhau drwy 2024-25, gyda phwyslais penodol ar ddarparu darlun mwy cynhwysfawr o’r perfformiad mewn un lle ynghylch risgiau strategol, cyllid, cyflawni archwiliadau, dangosyddion perfformiad allweddol, metrigau pobl a blaenoriaethau tymor hwy ar gyfer gwella busnes.<br><br>Er mwyn cynyddu tryloywder, mae’r adroddiad perfformiad integredig sy’n mynd i bob cyfarfod Bwrdd hefyd ar gael ar ein mewnrwyd bellach fel y gael yr holl staff ei weld. |
| Mynd i’r afael â pherfformiad sy’n dirywio o ran ymgysylltu a phrofiad cyflogeion. | Darperir manylion am y cynnydd a wnaed o’i gymharu â’r flaenoriaeth hon yn adran Crynodeb o’n defnydd o adnoddau yn ystod y cyfnod adrodd (Sicrhau ymgysylltiad effeithiol â’r staff) o’r Adroddiad hwn. |

| **Blaenoriaeth** | Cynnydd a wnaed |
| --- | --- |
| Gwella capasiti a gallu ein gweithlu drwy weithredu'r Cynllun Pobl a Datblygu Trefniadaeth a'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol. | Ym mis Gorffennaf 2023, cymeradwyodd y Bwrdd adolygiad o'n Strategaeth Pobl a Datblygu Trefniadaeth, gyda'r nod o'i chysoni ag amserlen gweddill ein strategaeth corfforaethol pum mlynedd trosfwaol.<br>Hefyd, yn ystod y cyfnod adrodd rydym wedi:<br>• Ennill achrediad 'un o Ddeg Cyflogwr Gorau' yn rhestr Working Families 2023, sy'n cydnabod ein cymorth i'r staff yn eu profiadau o waith a bywyd teuluol.<br>• Cyflwyno rhaglen Datblygu Rheolwyr Pobl i bob rheolwr presennol yn y sefydliad.<br>• Gweithredu modiwl cynefino ar-lein newydd i wella effeithlonrwydd y broses a'r profiad i ddechreuwyr newydd.<br>• Cynnal arolwg gwybodaeth, sgiliau a phrofiad ar draws ein staff Gwasanaethau Archwilio er mwyn llywio ein cynllun datblygu gweithlu.<br>• Cwblhau rhaglen hyfforddi rheolwyr recriwtio gyda charfan gyntaf o 15 o reolwyr.<br>• Lansio Rhaglen Arweinyddiaeth Uchelgeisiol a gynhelir ar y cyd ag Audit Scotland. |
| Corffori uchelgeisiau sero net drwy ffyrdd o weithio, cynllun teithio a datblygu ystadau | Darperir manylion am y cynnydd a wnaed o'i gymharu â'r flaenoriaeth hon yn adran Crynodeb o'n defnydd o adnoddau yn ystod y cyfnod adrodd (Lleihau ein heffaith amgylcheddol) o'r Adroddiad hwn. |
| Dychwelyd i weithio wyneb yn wyneb yn rheolaidd, yn rhan o fodel gweithio hybrid, fel bod pob tîm yn Archwilio Cymru yn gwella cynhyrchiant, ansawdd a'r diwylliant sefydliadol. | Yn 2023-24, gwnaethom barhau i weld symudiad ôl-COVID-19 tuag at ddull mwy cytbwys o weithio hybrid, gyda mwy o ddefnydd o swyddfeydd ar gyfer gweithio mewn tîm a chydweithredu gan barhau i ddychwelyd i weithio ar safle y cleient archwilio.<br>Fodd bynnag, er mwyn sicrhau amgylchedd cwbl gynhyrchiol, cydweithredol, a deniadol ar gyfer cyflawni gwaith o ansawdd uchel, rydym wedi ymrwymo yn ein Cynllun Blynyddol 2024-25 i ymgymryd â rhagor o waith yn y 12 mis nesaf i annog rhagor o weithio wyneb yn wyneb yn ein model gweithio hybrid. |

<table>
<tr><th>Blaenoriaeth</th><th>Cynnydd a wnaed</th></tr>
<tr><td>Cyflawni a gwireddu manteision y Strategaeth Llesiant</td><td>Lansiwyd ein Strategaeth Llesiant a'n Cynllun Gweithredu cyntaf ar gyfer Archwilio Cymru ym mis Medi 2022. Yn ystod y cyfnod adrodd, gwnaethom gynnal adolygiad o'r strategaeth wreiddiol, a gafodd ei llywio gan sylwadau gan staff ar eu profiadau. Roedd y sylwadau yn gadarnhaol ar y cyfan mewn cysylltiad â'r ddarpariaeth bresennol ar gyfer cefnogi llesiant y staff, a chynigwyd rhai awgrymiadau defnyddiol ar gyfer gwelliannau ychwanegol.<br><br>Yn ystod y cyfnod adrodd rydym wedi:<br><br>• Rhoi rhagor o bwyslais ar reoli llesiant unigolion yn ein Rhaglen Datblygu Rheolwyr Pobl.<br>• Cyflwyno pecyn cyfathrebu misol gan ein tîm o hyrwyddwyr Llesiant er mwyn sicrhau bod negeseuon cyson yn cael eu rhoi i'r holl gydweithwyr.<br>• Corffori amrywiaeth o weithgareddau a digwyddiadau sy'n canolbwyntio ar lesiant yn ein calendr dysgu a datblygu, sy'n hygyrch i'r holl staff.<br>• Cefnogi Diwrnod Amser i Siarad a Diwrnod Iechyd Meddwl, gan ddarparu llwyfan i annog sgyrsiau am iechyd meddwl a chodi ymwybyddiaeth o'n tudalennau mewnrwyd un pwrpas am lesiant a grŵp o swyddogion cymorth cyntaf iechyd meddwl.<br>• Penodi darparwr Rhaglen Cymorth i Gyflogeion newydd a hyrwyddo manylion y gwasanaethau sydd ar gael i staff.<br>• Ehangu ein proses gynefino ar gyfer dechreuwyr newydd drwy sicrhau ei bod yn cynnwys cwrdd â hyrwyddwr llesiant.</td></tr>
<tr><td>Corffori ffyrdd effeithiol o weithio yn swyddfa newydd Caerdydd sy'n cefnogi cynhyrchiant, ansawdd a diwylliant sefydliadol cydweithredol, ac yn defnyddio dysgu ar draws holl swyddfeydd Archwilio Cymru.</td><td>Yn dilyn y symudiad i'n swyddfeydd newydd yng Nghaerdydd ym mis Mawrth 2023, yn gynnar yn 2023-24, gwahoddwyd yr holl staff i gymryd rhan mewn arolwg dilynol i werthuso pa mor dda yr oedd timau ac unigolion yn cynefino a nodi unrhyw feysydd sy'n peri pryder.<br><br>Ar ôl hynny, cyfunwyd yr hyn a ddysgwyd o'r ymarfer hwn ag ymgysylltu â'r staff yr effeithiwyd arnynt i lywio'n llwyddiannus y broses o adleoli ein swyddfa gogledd Cymru o Abergele i adeiladau llai yn swyddfa Llywodraeth Cymru yng Nghyffordd Llandudno ym mis Medi 2023.<br><br>Mae'r gwersi a ddysgwyd wrth symud y ddwy swyddfa yn helpu i lywio ein gwaith presennol, sef archwilio dewisiadau ar gyfer ein trydydd prif swyddfa yng ngorllewin Cymru.</td></tr>
</table>

# Enghreifftiau o astudiaethau achos o brosiectau effeithiol

46 Yn yr adran hon, rydym yn darparu enghreifftiau o astudiaethau achos o'r gwaith a gyflawnwyd gennym yn ystod 2023-24 a'r effaith y mae'r gwaith hwnnw wedi ei chael. Mae ein henghreifftiau o astudiaethau achos wedi eu grwpio gyda'i gilydd gan ddibynnu ar eu haliniad â'r meysydd pwyslais yn ein strategaeth pum mlynedd.

## Rhaglen archwilio strategol, ddeinamig o ansawdd uchel

**Astudiaeth achos 1: Methiannau llywodraethu yn Amgueddfa Cymru**

Datgelodd ein gwaith archwilio 2021-22 yn Amgueddfa Cymru fethiannau sylweddol mewn trefniadau llywodraethu. Yn ystod yr archwiliad hwnnw, ni chawsom dystiolaeth archwilio ddigonol i ddangos bod y broses o wneud penderfyniadau yn cefnogi taliadau a wnaed i'r Cyn-gyfarwyddwr Cyffredinol o dan delerau cytundeb setlo yn cydymffurfio â chyfreithiau elusennau. Nid oeddem yn gallu cadarnhau ychwaith fod y taliadau a wnaed ac a ddatgelwyd yng Nghyfrifon Blynyddol Amgueddfa Cymru yn cydymffurfio â fframwaith yr awdurdodau sy'n eu llywodraethu. Am y rhesymau hyn, ar 29 Medi 2023, cymhwysodd yr Archwilydd Cyffredinol ei farn archwilio 'rheoleidd-dra' ar Gyfrifon Cyfunol Amgueddfa Cymru ar gyfer 2021-22.

Cyhoeddwyd canfyddiadau o'n gwaith mewn adroddiad er budd y cyhoedd dyddiedig Tachwedd 2023 lle mae'r Archwilydd Cyffredinol yn tynnu tri maes i sylw'r cyhoedd:

- roedd telerau'r cytundeb setlo ar gyfer y Cyn-gyfarwyddwr Cyffredinol yn arwyddocaol ac, ym marn yr Archwilydd Cyffredinol, roeddent yn anarferol, yn ddadleuol ac yn adleisiol. Nid yw Amgueddfa Cymru wedi gallu dangos ei bod wedi gweithredu er ei budd gorau fel elusen na bod y setliad yn golygu gwerth am arian cyhoeddus.
- nid yw'n glir a yw Llywodraeth Cymru wedi cymhwyso'r holl weithdrefnau perthnasol fel y gallai ystyried a chymeradwyo'r cytundeb ei hun.
- roedd cost gyffredinol bosibl y setliad arfaethedig gyda'r Cyn-gyfarwyddwr Cyffredinol, ymddeoliad y Cyn-brif Swyddog Gweithredu oherwydd afiechyd, a'r ffioedd cyfreithiol a chynghorol dilynol yn fwy na £750,000. Gellid bod wedi osgoi rhai o'r costau hyn neu bob un ohonynt.

### Astudiaeth achos 2: Trefniadau llywodraethu yng Nghyngor Wrecsam

Nododd ein gwaith parhaus yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ddiffygion posibl yn y trefniadau llywodraethu ar gyfer gwasanaeth cynllunio y Cyngor, ochr yn ochr â phryderon ynghylch y gwerthoedd a'r ymddygiad a fabwysiadwyd mewn cyfarfodydd cyhoeddus i ystyried Maer y Cyngor a'i Gynllun Datblygu Lleol.

Wrth ddysgu am y materion hyn, ymatebodd ein staff archwilio yn gyflym, gan ddwyn ynghyd dîm o bob rhan o'r sefydliad a oedd â'r sgiliau a'r profiad angenrheidiol i adolygu'r mater datblygol hwn ac i adrodd yn brydlon. Gwnaeth y tîm gynnal cyfweliadau gydag uwch-swyddogion ac Aelodau y Cyngor, asesu cyfarfodydd Pwyllgorau allweddol, ac adolygu dogfennau allweddol – y cyfan o fewn cyfnod byr er mwyn cynyddu effaith y gwaith gymaint â phosibl a dod i gasgliadau yn gyflym.

Nododd ein harchwiliad fod oedi wrth fabwysiadu dogfennau strategol allweddol wedi creu risgiau sylweddol i'r Cyngor. Roedd hyn wedi effeithio ar weithrediad y gwasanaeth cynllunio, ac roedd cysylltiadau rhwng rhai swyddogion ac Aelodau yn cael eu torri. Yn y pen draw, rhwystrwyd gwasanaeth cynllunio y Cyngor rhag cyflawni ei swyddogaeth fel un o'r prif alluogwyr gweithgarwch datblygu. Gwnaethom godi tri argymhelliad allweddol i'r Cyngor eu hystyried.

Denodd ein hadroddiad ddiddordeb sylweddol, gyda'r mater yn cael ei drafod ar draws y Cyngor a'i godi yn ystod Cwestiynau i'r Prif Weinidog yn y Senedd. Adroddwyd arno yn eang hefyd gan gyfryngau ysgrifenedig ac ar-lein.

Mae'r Cyngor wedi casglu cynllun gweithredu er mwyn ymateb i'r argymhellion a godir yn ein hadroddiad. Er bod yr adroddiad hwn yn cael ei gyhoeddi yn ystod cyfnod pan fo tensiwn, rydym wedi cynnal cysylltiadau gwaith cryf gyda'r Cyngor a fydd yn caniatáu inni fonitro ymateb y Cyngor.

### Astudiaeth achos 3: Mynd i'r afael â rhestrau aros orthopedig

Mae ein rhaglen o waith archwilio perfformiad y GIG yn parhau i ganolbwyntio'n gryf ar gynnydd cyrff y GIG o ran mynd i'r afael â rhestrau aros, a dyfodd yn sylweddol yn ystod y pandemig. Rydym yn ystyried hyn yn bwnc pwysig i'w archwilio oherwydd yr her y mae'n ei chyflwyno i gyrff y GIG yn ogystal â'r effaith ar gleifion unigol sy'n wynebu arosiadau hir am driniaeth.

Er mwyn ategu ein hadroddiad cenedlaethol 'Gwasanaethau Orthopedig yng Nghymru – Mynd i'r Afael ag Ôl-groniad y Rhestr Aros, gwnaethom lunio adroddiad ar wahân ar gyfer pob bwrdd iechyd gan ddarparu dadansoddiad ychwanegol ar sefyllfa rhestr aros orthopedig eu sefydliad. Cyflwynodd yr adroddiadau hyn amrywiaeth o ddata cymharol yn amlygu'r heriau penodol ar gyfer pob bwrdd iechyd, gan gynnwys rhagfynegiadau o bryd y bydd rhestrau aros orthopedig ym mhob bwrdd iechyd yn dychwelyd i'r lefelau a fodolai cyn y pandemig.

Roedd yr adroddiadau lleol hefyd yn cynnwys awgrymiadau a chwestiynau i aelodau bwrdd er mwyn helpu i bwysleisio trafodaethau a cheisio sicrwydd bod y camau gwella yn cael yr effaith a ddymunir. Mae ein hadroddiadau lleol, ochr yn ochr â'n sylwebaeth genedlaethol, wedi ategu'r gwaith a wnaed gan raglen genedlaethol Getting It Right First Time ac wedi helpu i sicrhau bod gwaith craffu wedi ei dargedu ar fynd i'r afael â rhestrau aros orthopedig mewn byrddau iechyd yn ystod 2023-24.

### Astudiaeth achos 4: Cefnogi Wcreiniaid yng Nghymru

Erbyn dechrau mis Hydref 2023, yn dilyn ymosodiad Rwsia ar Wcráin ym mis Chwefror 2022, roedd 7,100[12] o Wcreiniaid wedi dod i'r DU i ymuno â gwesteion preifat yng Nghymru (3,900) neu drwy gynllun uwch-noddwr Llywodraeth Cymru (3,200). Roedd ein hadroddiad yn canolbwyntio ar y cynllun uwch-noddwr, ond buom hefyd yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr yn y Swyddfa Archwilio Genedlaethol a oedd yn archwilio Cynllun Cartrefi i Wcráin Llywodraeth y DU.

Mae ein hadroddiad yn gadarnhaol ar y cyfan ynghylch sut y bu Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid eraill yn y sector cyhoeddus a phartneriaid trydydd sector i groesawu, darparu llety a chefnogi Wcreiniaid sy'n cyrraedd ac yn aros yng Nghymru. Mae'n cydnabod cyd-destun ehangach argyfwng rhyngwladol hylifol a gwasanaethau cyhoeddus sydd eisoes dan bwysau. Wedi dweud hynny, mae gwersi pwysig i'w dysgu, er enghraifft ynghylch amcangyfrifon cynnar o niferoedd y rhai sy'n cyrraedd a'r costau tebygol.

Roeddem ni'n dymuno clywed lleisiau yr Wcreiniaid eu hunain. Gwnaethom gynhyrchu galwad agored am dystiolaeth yn Wcreineg a Rwseg. Rydym yn ddiolchgar iawn i gyrff y sector gwirfoddol a rannodd hyn â'r Wcrainiaid y maent yn eu cefnogi.

Er nad yw o reidrwydd yn cynrychioli profiadau yr holl Wcrainiaid, gwnaethom ddefnyddio'r lleisiau hyn i driongli ein canfyddiadau ac i atgyfnerthu negeseuon yn ein hadroddiad. Roedd rhai yn gadarnhaol iawn am y croeso a gawsant gan gymunedau a'r cymorth a gynigir. Nododd rhai brofiadau llai cadarnhaol, yn enwedig o ran cael gofal iechyd a symud ymlaen o'u llety cychwynnol. Gwnaethom gyhoeddi crynodeb o'n canfyddiadau a'n hargymhellion mewn Wcreineg a Rwseg.

12 Caiff ffigurau eu talgrynnu i'r 100 agosaf.

## Dull wedi'i dargedu ac sy'n cael effaith ar gyfathrebu a dylanwadu

**Astudiaeth achos 5: Llywodraethu a rheoli ariannol cynghorau lleol – rhannu'r hyn a ddysgir**

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae Archwilio Cymru wedi tynnu sylw at wendidau systemig o ran llywodraethu a rheoli ariannol ar draws cynghorau cymuned a thref (cynghorau lleol) yng Nghymru. Cyrff cymharol fach yw cynghorau lleol ac fe'u gwasanaethir yn aml gan un swyddog cyflogedig – y clerc. Mewn llawer o achosion, nid oes gan y clercod gymwysterau proffesiynol cydnabyddedig a rhaid iddynt lywio amrywiaeth eang o gyfrifoldebau drostynt eu hunain. Mae cyrff cynrychioliadol y sector (Un Llais Cymru a Chymdeithas Clercod Cynghorau Lleol) yn eu cynorthwyo yn hyn o beth, ac mae Archwilio Cymru yn gweithio'n agos gyda'r cyrff cynrychioliadol i rannu'r gwersi a ddysgir o'n gwaith archwilio.

Mae ein hadroddiadau cenedlaethol ar Lywodraethu a Rheoli Ariannol yn crynhoi materion cyffredin a nodir gan ein gwaith archwilio, gan gynnwys materion a gwmpesir yn adroddiadau er budd y cyhoedd yr Archwilydd Cyffredinol. Mae staff Archwilio Cymru yn mynd i gynadleddau Un Llais Cymru a Chymdeithas Clercod Cynghorau Lleol a chyfarfodydd pwyllgorau lleol i gyflwyno ein canfyddiadau yn fanylach. Rydym yn esbonio sut mae materion wedi codi a'r camau y gall clercod a chynghorwyr eu cymryd i leihau'r risg y bydd materion tebyg yn codi yn eu cynghorau.

Gwnaethom gefnogi Un Llais Cymru, Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol a Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r Pecyn Cymorth Cyllid a Llywodraethu ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref hefyd, gan ddarparu sylwebaeth o safbwynt archwilio o'r heriau sy'n wynebu cynghorau sy'n ceisio gwella eu trefniadau llywodraethu.

**Astudiaeth achos 6: Defnyddio gwaith dilynol i olrhain gwelliannau a dangos effaith ein gwaith GIG**

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae ein gwaith archwilio perfformiad wedi taflu goleuni ar fethiannau llywodraethu sylweddol mewn rhai byrddau iechyd. Tynnodd ein Hadolygiad o drefniadau llywodraethu ansawdd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg yn 2019, a gynhaliwyd ar y cyd ag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, sylw at fethiannau difrifol yn y trefniadau a oedd gan y Bwrdd Iechyd ar waith i wybod a oedd ei wasanaethau'n ddiogel ac o ansawdd da.

Yn fwy diweddar, tynnodd ein hadroddiad 2023 er budd y cyhoedd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr sylw at doriad mewn perthnasau gwaith yn y bwrdd a'r tîm gweithredol a oedd yn arwain at arweinyddiaeth sefydliadol camweithredol ac yn peryglu'n sylfaenol allu'r bwrdd i fynd i'r afael â'r heriau yr oedd y sefydliad yn eu hwynebu.

Yn sgil cyhoeddi'r ddau adolygiad hyn, gwnaethom ymgymryd â gwaith dilynol trylwyr a chynnar wedi ei dargedu er mwyn asesu i ba raddau yr ymdriniwyd â'r pryderon a nodid gennym. Mae'r gwaith dilynol hwnnw wedi gallu tynnu sylw at welliannau nodedig mewn ymateb i'r materion a nodwyd gennym a'r argymhellion a wnaethom.

Er mai'r sefydliadau eu hunain sy'n bennaf gyfrifol am sicrhau'r gwelliannau hynny, mae ein gwaith dilynol wedi gallu rhoi sicrwydd i gynulleidfa ehangach bod y camau cywir mewn ymateb i'n canfyddiadau wedi eu cymryd, ac yn cael eu cymryd. Mae hefyd wedi helpu i ddangos gwerth ac effaith y gwaith gwreiddiol wrth ddatgelu'r methiannau llywodraethu, a thynnu sylw at yr hyn sydd angen ei wneud i fynd i'r afael â'r pryderon.

## Diwylliant a model gweithredu sy'n ein galluogi i ffynnu

**Astudiaeth achos 7: Lansio llwyfan archwilio cyfrifon digidol newydd er mwyn cefnogi ansawdd archwilio**

Er mwyn i'n gwaith archwilio fod o'r safonau ansawdd uchaf, rhaid iddo ganolbwyntio yn y meysydd cywir – bod yn effeithlon, yn fodern ac yn gost-effeithiol, a gwneud y gorau o dechnolegau sy'n dod i'r amlwg.

Yn rhan o'r uchelgais hwnnw, gwnaethom lansio llwyfan pwrpasol digidol newydd yn 2023 i gefnogi ein gwaith archwilio cyfrifon 2022-23. Mae'r llwyfan yn arwain timau archwilio wrth iddynt gyflawni eu gwaith. Mae'n storio tystiolaeth archwilio yn ddiogel, ac yn caniatáu'r gwaith hwnnw i gael ei oruchwylio a'i adolygu.

Adeiladwyd y llwyfan o amgylch anghenion ein timau archwilio ac fe'i cynlluniwyd i gefnogi ein gofynion ansawdd archwilio. Disodlodd becyn oddi ar y silff a oedd ar ddiwedd ei oes yr oedd y gallu i'w addasu ymhellach yn gyfyngedig.

Adeiladwyd ein platfform newydd gan ddefnyddio technoleg safon diwydiant Microsoft 365 y gellir ei ffurfweddu ac sy'n fforddiadwy. Mae'r dull hwn yn caniatáu inni gorffori ymarferoldeb digidol newydd yn gynyddol o amgylch y llwyfan mewn ymateb i'n hanghenion archwilio sy'n datblygu. Mae'r llwyfan hefyd yn rhan o gyfres o offer a chynhyrchion sy'n datblygu sy'n cynnwys apiau dadansoddi data sy'n gallu dadansoddi a delweddu cyfeintiau mawr o ddata, a phorth diogel sy'n caniatáu i'n cyrff archwiliedig rannu tystiolaeth â ni ac ymateb yn effeithiol i ymholiadau archwilio.

Bydd ein buddsoddiad parhaus yn y technolegau archwilio arloesol hyn yn ein galluogi i gyflawni ansawdd archwilio yn well ac yn cefnogi ein hymgyrch i fod yn fwy effeithlon ac i gael gwell mewnwelediad o'r wybodaeth bresennol.

**Astudiaeth achos 8: Gwella ein cyfathrebu mewnol**

Yn gynnar yn 2023-24, gwnaethom lansio Prosiect Hwb â diben deuol o adolygu ein llwyfannau digidol mewnol, gan ddatblygu'r gallu i ddylunio gwasanaethau yn y sefydliad.

Y pwyslais cychwynnol oedd edrych ar effeithiolrwydd ein sianeli cyfathrebu mewnol yn dilyn sylwadau gan staff yn dweud bod y trefniadau cyffredinol yn teimlo'n dameidiog ac yn anhrefnus, a bod annibendod negeseuon e-bost cyson, negeseuon gwib a thwf yn y sianeli digidol a ddefnyddir yn gwanhau negeseuon allweddol.

Aeth ein tîm cyfathrebu i'r afael â'r her gan ddefnyddio egwyddorion dylunio gwasanaethau craidd, gyda'r nod o ddatblygu ateb o amgylch anghenion y defnyddwyr a'u cynnwys nhw drwy gydol y broses.

Cyflawnwyd yr ateb – mewnrwyd Archwilio Cymru newydd a ddyluniwyd yn fewnol gan ddefnyddio llwyfan Sharepoint – yn gyflym ac o fewn y gyllideb, gan ddod â manteision busnes sylweddol. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Gwell cynhyrchiant drwy bensaernïaeth gwybodaeth newydd, ymarferoldeb chwilio gwell a mynediad cyflym at dasgau aml.
- Gwell ymgysylltiad â chyflogeion drwy uno ein cyfathrebiadau drwy un llwyfan.

Bu sylwadau y staff yn gadarnhaol, ac mae tîm y prosiect wedi gallu cymhwyso ei brofiad dylunio gwasanaeth i brosiectau sefydliadol allweddol eraill, gan sicrhau bod anghenion y defnyddwyr yn parhau i fod ar flaen y gad o ran datblygiadau yn y dyfodol.

> **Yn lân ac yn ddiaddurn, gyda chynllun a phrofiad defnyddiwr da.**

# Crynodeb o'n defnydd o adnoddau yn ystod y cyfnod adrodd

47 Rydym wedi ymrwymo'n llwyr i ymgorffori'r egwyddor o ddatblygu cynaliadwy[13] yn y ffordd yr ydym yn cynnal ein busnes, ac yn y ffordd yr ydym yn darparu adnoddau ar gyfer ein gwaith archwilio. Yn yr adran hon, rydym yn darparu rhywfaint o sylwebaeth lefel uchel ynghylch sut y gwnaethom reoli ein defnydd o adnoddau yn 2023-24.

48 Er nad yw'r Archwilydd Cyffredinol na Swyddfa Archwilio Cymru yn gyrff cyhoeddus rhestredig at ddibenion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, rydym yn dal yn ceisio gwneud y cyfraniad mwyaf posibl tuag at gyflawni nodau llesiant Cymru.

## Cyflawni rheolaeth ariannol cadarn ac effeithlonrwydd

49 Nodir y blaenoriaethau allweddol ar gyfer ein defnydd o adnoddau yn 2023-24 yn Amcangyfrif a Gwybodaeth Ategol, a ystyriwyd ac a gymeradwywyd gan Bwyllgor Cyllid y Senedd ym mis Tachwedd 2022.

50 Daeth oddeutu dwy ran o dair o'n cyllid yn 2023-24 o ffioedd a godir ar gyrff a archwilir yn unol â Chynllun ffioedd a gymeradwyir gan y Senedd. Roedd y rhan fwyaf o'r gweddill yn cynnwys cyllid cymeradwy o Gronfa Gyfunol Cymru, yr oedd ein defnydd ohono yn destun gwaith craffu rheolaidd gan y Bwrdd yn ystod y flwyddyn.

51 Yn unol â'n gweledigaeth strategol i fod yn sefydliad enghreifftiol, rydym yn parhau i archwilio meysydd ar gyfer arbedion ac effeithlonrwydd ar draws Archwilio Cymru. Yn 2023-24, gwnaethom ragori ar ein targed arbedion ar gyfer y flwyddyn gan gyflawni arbedion o bron i £1.8 miliwn o'i gymharu â'r £1.5 miliwn a ragwelir yn yr Amcangyfrif.

52 Roedd ein tanwariant refeniw net am y flwyddyn, sef £269,000, yn 1.1% o'n cyllideb gwariant gros, o fewn ein targed dangosydd perfformiad allweddol, sef amrywiad o 2%.

53 Gwelsom gynnydd sylweddol yng ngwerth incwm gohiriedig a symiau derbyniadwy drwy fasnach ar ein mantolen yn gysylltiedig â'r ôl-groniad o waith archwilio. Byddem yn disgwyl i'r balansau hyn ostwng yn ystod 2024-25 wrth i ni fynd i'r afael â'r ôl-groniad.

54 Rydym wedi cyflawni'r arbedion ar Lwfans Teithio a ragwelir yn ein Hamcangyfrif Atodol ar gyfer 2021-22. Ynghyd ag arbedion eraill ar deithio a chynhaliaeth, bu gostyngiad o dros £700,000 yng nghyfanswm ein gwariant ar deithiau staff o'i gymharu â 2019-20.

13 Fe'i diffinnir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 fel ymddwyn 'mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb gyfaddawdu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain'.

55 Rydym hefyd yn cyflawni arbedion bob blwyddyn drwy symud swyddfeydd yng Nghaerdydd a gogledd Cymru ac yn 2024-25 byddwn yn adolygu ein darpariaeth swyddfa yn y gorllewin.

56 Nododd ein grŵp Adolygu Cynaliadwyedd Ariannol arbedion parhaus o dros £250,000 ar gyllidebau nad ydynt yn ymwneud â chyflog yn 2023-24 ac mae ganddo gylch gwaith i nodi arbedion ychwanegol ar gyfer 2024-25 a'r blynyddoedd i ddod er mwyn sicrhau bod Archwilio Cymru yn parhau i fod yn gynaliadwy yn ariannol yn y dyfodol.

57 Gwnaethom fuddsoddi £254,000 o gyllid cyfalaf yn y meysydd canlynol:

- a £104,000 mewn offer TG newydd er mwyn caniatáu i'n staff weithio mor effeithlon â phosibl, o bell ac yn y swyddfa.
- b £86,000 mewn gwelliannau i'n systemau gwybodaeth rheoli.
- c £42,000 er mwyn symud ein swyddfa yn y gogledd a gwelliannau i'n swyddfeydd yng Nghaerdydd ac Abertawe.
- ch £22,000 ar gyfer gwelliannau i'n gwefan

## Sicrhau ymgysylltiad effeithiol â'r staff

58 Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom ddefnyddio amrywiaeth o sianeli cyfryngau a chyfathrebu i ymgysylltu â'n cyflogeion, gan ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf hanfodol a gwybodaeth am gael gafael ar adnoddau a chymorth, a chasglu sylwadau am eu profiadau.

59 Bob blwyddyn, mae'n ofynnol i'r holl staff gwblhau ffurflen annibyniaeth flynyddol, lle maent yn cytuno i gydymffurfio â gofynion ein Cod Ymddygiad, ein Cod Ymarfer Archwilio a'r Polisi Diogelwch Gwybodaeth. Yn rhan o'r broses hon, tynnir sylw at amrywiaeth o ddogfennau perthnasol, gan gynnwys ein Canllawiau Gwyngalchu Arian a'n Strategaeth Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd.

60 Ym mis Tachwedd 2023, gwnaethom gynnal arolwg ymgysylltu â'r holl staff er mwyn cadw golwg ar brofiad y cyflogeion a nodi lle yr oedd angen inni wella. Ar ôl sawl blwyddyn o seilio ein harolwg ar yr holiadur craidd a ddefnyddir yn Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil, gwnaethom gymhwyso dull newydd yn 2023, gan gadw ein gallu i feincnodi ein hunain o'n cymharu â mynegai ymgysylltu Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil.

61 Cwblhaodd 82% o'r staff yr holiadur newydd, a oedd yn ymdrin ag amrywiaeth o themâu, o arweinyddiaeth a diwylliant y sefydliad i'r ffordd y mae timau unigol yn gweithredu. Roeddem yn falch o weld ein sgôr mynegai ymgysylltu cyffredinol yn codi o 60% i 64%, yr un gwerth â meincnod Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil.

62 Yn gyffredinol, dywedodd y staff eu bod yn gallu taro cydbwysedd da rhwng bywyd a gwaith, fod ganddynt yr offer i fwrw ymlaen â'u gwaith yn effeithiol, fod ganddynt amcanion gwaith clir a bod eu rheolwr yn eu hysgogi. O'u cymharu â'n canlyniadau blynyddoedd blaenorol, roedd canfyddiadau y staff ar ddarpariaeth dysgu a chyfleoedd datblygu Archwilio Cymru wedi gwella hefyd.

63 Fodd bynnag, nid oedd canlyniadau ein harolwg cyn gryfed yn y meysydd canlynol, sy'n parhau i lywio ein blaenoriaethau cynllunio yn y dyfodol:

a corffori hyder mewn uwch-arweinyddiaeth a'r weledigaeth strategol

b dyrannu a rheoli adnoddau

c cydnabod a rheoli perfformiad.

## Hybu iechyd a llesiant

64 Rydym yn annog ffordd iach o fyw a chydbwysedd da rhwng bywyd a gwaith ymhlith ein staff. Rydym hefyd yn dymuno i'n staff deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi'n llawn pan fyddant yn profi anawsterau, p'un a yw hynny'n effeithio ar eu gallu i ymgymryd â'u swyddogaeth ai peidio.

65 Mae ein polisïau a'n canllawiau rheoli llesiant a phresenoldeb cynhwysfawr yn sicrhau bod unrhyw faterion iechyd a llesiant sy'n ymwneud â'r staff yn cael eu nodi a'u rheoli mewn modd rhagweithiol a sensitif. Ceir rhagor o wybodaeth am ein data absenoldeb oherwydd salwch ar gyfer y cyfnod adrodd yn yr adran Adroddiad Staff.

66 Trwy gydol 2023-24, roedd ein rhwydwaith o hyrwyddwyr llesiant a rhaglen cymorth i gyflogeion 24/7 yn rhoi'r gallu i'r staff gael gafael ar gyngor cyfrinachol a chymorth emosiynol ar amrywiaeth o faterion. Gwnaethom ddarparu cyfres o fentrau i hybu iechyd a llesiant yn y gwaith hefyd. Ceir rhagor o fanylion yn adran Meysydd pwyslais ar gyfer gwella busnes yr Adroddiad hwn.

## Gwerthfawrogi cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

67 Mae'r Archwilydd Cyffredinol mewn sefyllfa gref i nodi cyfleoedd i helpu i hybu cydraddoldeb a chynhwysiant yn y broses o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Wrth adrodd ar gyrff cyhoeddus, mae'n gallu annog newidiadau buddiol.

68 Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi ymrwymo i ddarparu amgylchedd gwaith sy'n gwerthfawrogi amrywiaeth pawb, sef ein staff ein hunain a'r rhai y deuwn i gysylltiad â nhw yn ein gwaith. Rydym yn llwyr gefnogi hawliau pobl i gael eu trin ag urddas a pharch.

69 Yn Archwilio Cymru, mae'n ofynnol inni ddilyn y fframwaith diogelu rhag gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth a dyletswyddau cydraddoldeb y sector cyhoeddus a gyflwynwyd gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Rydym hefyd yn ymwybodol o'r angen i leihau anghydraddoldeb o ran canlyniadau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol, a bod gennym gyfrifoldeb i gynnal yr hawliau a nodir yn Neddf Hawliau Dynol 1998.

70 Mae ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2022-2026 yn nodi ein hamcanion cydraddoldeb cyfredol, a ddatblygwyd yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus. Cynhaliwyd amrywiaeth o weithgareddau drwy gydol 2023-24 i gefnogi'r broses o gyflawni'r amcanion hyn.

71 Mae ein Hadroddiad Cydraddoldeb diweddaraf yn crynhoi'r cynnydd a wnaed tuag at gyflawni ein hamcanion cydraddoldeb yn 2022-23 ac mae'n dod gydag offeryn data rhyngweithiol sy'n cyflwyno ein data amrywiaeth gweithlu a bylchau cyflog. Bydd ein hadroddiad cynnydd ar gyfer 2023-24 yn cael ei gyhoeddi yn ddiweddarach yn 2024.

## Hybu'r defnydd o'r Gymraeg

72 Rydym yn ymfalchïo mewn darparu gwasanaeth archwilio dwyieithog ac rydym wedi ymrwymo i weithredu a chynnal Safonau'r Gymraeg, a welwn fel lefel sylfaenol ar gyfer gwasanaeth dwyieithog, yn hytrach na tharged. Mae ein dogfennau cyhoeddus ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, mae gennym wefan gwbl ddwyieithog, a thrwy gydol 2023-24, gwnaethom gyfathrebu â'r cyhoedd, cyrff archwiliedig, a'r cyfryngau yn y ddwy iaith.

73 Yn ystod 2023-24, gwnaethom gynnal sawl menter i hybu'r Gymraeg, yn fewnol a gyda phartneriaid. Ym mis Mai 2023, gwnaethom gynnal digwyddiad mewn partneriaeth â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a Chomisiynydd y Gymraeg, gan archwilio sut mae cyrff cyhoeddus yn cyfrannu at gyflawni nod llesiant 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'. Yn fewnol, gwnaethom hyrwyddo Diwrnod Shwmae Su'mae ac ym mis Rhagfyr 2023 gwnaethom gymryd rhan yn ymgyrch Defnyddia dy Gymraeg Comisiynydd y Gymraeg.

74 Mae ein Hysbysiadau Cydymffurfio i'w gweld ar ein gwefan ac, ym mis Hydref 2023, gwnaethom gyhoeddi ein Hadroddiad Iaith Gymraeg blynyddol diweddaraf.

## Cefnogi gwaith cymunedol ac elusennol

75 Rydym yn cydnabod y manteision y gall gwaith cymunedol ac elusennol gan staff eu cynnig i'r gymuned ehangach ac rydym yn cymeradwyo ein staff am eu hymdrechion unigol. Gall staff gymhwyso'r sgiliau y maent wedi eu datblygu yn y gweithle a gallant ddatblygu sgiliau newydd, gan wella eu morâl, eu hiechyd corfforol a'u cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith.

76 Yn amodol ar ofynion gweithredol, rydym yn cefnogi cyflogeion sy'n dymuno ymgymryd â gweithgareddau cymunedol neu elusennol megis gwaith gofal cymunedol, cymryd rhan mewn prosiectau cadwraeth a gweinyddu digwyddiadau cyhoeddus.

77 Yn ystod y cyfnod adrodd, cynhaliodd ein staff nifer o ddigwyddiadau codi arian a rhoi rhoddion, gan gynnwys gwerthu cacennau a'n cyngerdd carolau blynyddol sy'n cefnogi oedolion ag anawsterau dysgu.

## Lleihau ein heffaith amgylcheddol

78 Mae Archwilio Cymru yn cydnabod yr angen i leihau ein heffaith ar yr amgylchedd ac i chwarae ein rhan wrth fynd i'r afael â bygythiad newid yn yr hinsawdd a'r bygythiadau y mae gweithgareddau dynol yn eu peri i fywyd gwyllt a chynefinoedd naturiol.

79 Yn 202324, gwnaethom gynnal ein hachrediad Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd ar Lefel 5 (y lefel uchaf), sy'n dangos ein hymrwymiad parhaus i reoli amgylcheddol effeithiol. Cwblhawyd archwiliad allanol diweddaraf y Ddraig Werdd ym mis Mehefin 2023.

80 Rydym wedi cyhoeddi offeryn data rhyngweithiol sy'n caniatáu i'r darllenydd archwilio sut yr ydym wedi cyflawni yn ystod y blynyddoedd diwethaf o ran allyriadau nwyon tŷ gwydr, defnydd o adnoddau cyfyngedig, a rheoli gwastraff, o gymharu â'n mesurau cynaliadwyedd amgylcheddol. Llywiwyd y broses o baratoi'r offeryn hwn gan guidance for public bodies on sustainability reporting Trysorlys EF a Canllaw sector cyhoeddus ar gyfer adrodd ar garbon sero-net.

81 Trwy gydol y cyfnod adrodd, gyda mewnbwn gan Weithgor Lleihau Carbon mewnol a rhwydweithio allanol, gwnaethom barhau â'n gwaith o gynllunio ar gyfer sut y byddwn yn cyfrannu at gyflawni nodau carbon sero net tymor hwy Cymru. Roedd hyn yn cynnwys mireinio ein prosesau adrodd, cyhoeddi Cynllun Teithio Cynaliadwy newydd, a datblygu Cynllun Lleihau Carbon trosfwaol.

82 Hefyd, rydym wedi ymrwymo i geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth cyn belled ag y bo'n gyson â'n swyddogaethau. Ym mis Awst 2023, gwnaethom gyhoeddi Cynllun Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau ar gyfer Archwilio Cymru 2023-2027 sy'n nodi pedwar amcan penodol i'n helpu i gyflawni'r Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau yn well yn ystod y tair blynedd nesaf.

83 Mae'r adrannau isod yn rhoi rhagor o fanylion am y cynnydd yr ydym wedi ei wneud yn ystod y flwyddyn ddiwethaf o ran lleihau ein heffaith amgylcheddol mewn meysydd allweddol.

## Teithiau busnes

84 Mae Archwilio Cymru yn gweithredu model gweithio hybrid lle mae'r staff yn cael eu hannog i wneud yr hyn a ganlyn:

a gwneud penderfyniadau gwybodus ynghylch lle maent yn gweithio, gan ddewis yr amgylchedd gwaith mwyaf addas i gyflawni canlyniadau llwyddiannus a rhoi anghenion cyflawni y tîm yn gyntaf; a

b sicrhau cydbwysedd rhwng manteision cydweithredu yn y swyddfa a hyblygrwydd gweithio gartref.

85 Mae mabwysiadu ffyrdd mwy clyfar a hyblyg o weithio, gyda chymorth ein TG a'n llwyfannau digidol, yn lleihau'r angen i staff deithio a'n hôl troed amgylcheddol cyffredinol.

86 Fodd bynnag, mae rhywfaint o deithio busnes yn hanfodol o hyd, fel ein bod yn cyflawni ein swyddogaethau archwilio a swyddogaethau eraill yn effeithiol. Mae ein Llawlyfr Teithio a Threuliau yn seiliedig ar set o egwyddorion teithio cynaliadwy er mwyn llywio penderfyniadau sy'n gysylltiedig â theithiau busnes. Ym mis Hydref 2023, gwnaethom gyhoeddi Cynllun Teithio Cynaliadwy newydd er mwyn helpu i leihau effeithiau amgylcheddol ac ariannol teithio busnes a chymudo, ac annog lefelau uwch o weithgarwch corfforol er budd iechyd a llesiant.

87 Trwy gydol y cyfnod adrodd, cynigiwyd cyfle i'r holl staff gymryd rhan mewn cynllun beicio i'r gwaith a chynllun aberthu cyflog i lesio er mwyn annog pobl i ddefnyddio cerbydau trydan a hybrid, ochr yn ochr â chael eu cyfeirio at gymhellion ac adnoddau eraill i hybu teithio llesol.

88 Er mwyn adrodd yn fwy cywir am ein hôl troed carbon ac ystyried y camau y mae angen inni eu cymryd yn y dyfodol, gwnaethom gynnal ein hail arolwg blynyddol ym mis Chwefror 2024 i gasglu gwybodaeth ychwanegol am batrymau, anghenion a dewisiadau teithio y staff presennol.

### Ein hegwyddorion teithio busnes cynaliadwy

- Dylid ystyried dewisiadau eraill i deithio, megis galwad fideo, cyn cytuno i gwrdd yn y cnawd
- Dylai cyn lleied o gyflogai â phosibl deithio
- Dylid defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus pan fo hynny'n bosibl
- Rydym yn annog rhannu car pan nad yw trafnidiaeth gyhoeddus yn ddewis ymarferol
- Dylai unigolion geisio'r dewis mwyaf cynaliadwy posibl, gan bwyso a mesur yr holl ystyriaethau perthnasol megis iechyd a diogelwch, llesiant a gwerth am arian.

### Ystad

89 Ym mis Mawrth 2023, adleoliwyd ein pencadlys yng Nghaerdydd i adeiladau llai, mwy modern, sydd â pherfformiad amgylcheddol llawer gwell, ac sy'n agos at ddwy brif orsaf drenau a llwybrau beicio a cherdded di-draffig. Er mwyn cefnogi dewisiadau teithio a chymudo mwy cynaliadwy, mae'r swyddfa yn cynnwys pwyntiau gwefru cerbydau trydan, cawodydd a mannau newid.

90 Ar ôl hyn, ym mis Medi 2023, gwnaethom symud ein swyddfa yng ngogledd Cymru i safleoedd llai a rennir sydd ag ôl-troed a chyfleusterau amgylcheddol gwell hefyd, ac sy'n agos at y brif orsaf drenau a phwyntiau gwefru cerbydau trydan. Hefyd, yn ystod 2023-24, gwnaethom ddechrau adolygu dewisiadau ar gyfer ein swyddfa sy'n weddill yn y gorllewin.

91 Gellir gweld effaith uniongyrchol y symudiadau hyn drwy ostyngiad o 46% yn yr allyriadau carbon a briodolir i'r defnydd o ynni ar draws ein hystâd o'u cymharu â 2022-23. Hefyd, yn y ddau adleoliad ystâd, gwnaethom ddewis ailddefnyddio ein holl ddodrefn a'n hoffer dros ben yn hytrach na'u rhoi yn y ffrwd wastraff. Rhoddwyd eitemau i dros 15 o sefydliadau elusennol, a gynhelir gan y gymuned, a sector cyhoeddus, sy'n cefnogi'r gymuned leol.

92 Ym mis Ebrill 2024, cyflwynodd Llywodraeth Cymru reoliadau newydd sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob gweithle wahanu deunyddiau y gellir eu hailgylchu. Wrth baratoi i weithredu'r rheoliadau newydd, lleolwyd biniau ailgylchu newydd yn ein swyddfeydd ym mis Mawrth 2024 er mwyn dal y ffrydiau gwastraff ar wahân sydd eu hangen a gwella ymhellach ein prosesau casglu a gwahanu gwastraff.

93 Trwy gydol y cyfnod adrodd, rydym wedi defnyddio cynlluniau ailddefnyddio yn rhagweithiol i leihau ein defnydd o adnoddau cyfyngedig a chyfran ein gwastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi. Mae ein defnydd o blastig defnydd sengl ar gyfer defnyddwyr yn isel iawn hefyd, ac ar gyfer llawer o'r nwyddau a ddanfonwyd inni yn 2023-24, gwnaethom ddewis peidio â defnyddio deunyddiau pacio o gwbl.

94 Mae ein holl staff yn defnyddio gliniaduron a ffonau clyfar sy'n lleihau'r angen i argraffu papurau cyfarfod.

**Caffael**

95 Trwy gydol y cyfnod adrodd, mae ein gweithgareddau caffael wedi dilyn hierarchaeth sy'n blaenoriaethu osgoi, ailddefnyddio, adnewyddu ac ailgylchu cyn prynu nwyddau newydd. Mae hyn yn cynnwys cymhwyso'r dull gweithredu i'n prosiectau symud swyddfa ac yn rhan o ddull 'economi gylchol' ar gyfer prynu cyflenwadau ac offer. Os prynu yw'r dewis ymarferol, ein llwybr caffael cynaliadwy a ffefrir yw drwy fframweithiau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU sy'n dilyn Safonau Prynu y Llywodraeth.

96 Yn benodol mewn cysylltiad â chaffael offer TG, rydym yn blaenoriaethu effeithlonrwydd ynni ac ailddefnyddio dyfeisiau, ochr yn ochr ag anghenion y defnyddwyr.

# Adroddiad Atebolrwydd

Datganiadau ac adroddiadau allweddol sy'n ein galluogi i fodloni gofynion atebolrwydd a dangos cydymffurfiaeth â llywodraethu corfforaethol da.

**Adrian Crompton**
Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r Swyddog Cyfrifyddu

5 Awst 2024

02

# Adroddiad llywodraethu corfforaethol

## Adroddiad y Cyfarwyddwyr

### Ein Bwrdd



**Adrian Crompton**
Archwilydd Cyffredinol Cymru



**Alison Gerrard**
Aelod anweithredol



**Anne Beegan**
Aelod etholedig sy'n gyflogai



**Chris Bolton**
Aelod etholedig sy'n gyflogai



**Darren Griffiths**
Aelod a benodwyd sy'n gyflogai



**David Francis**
Aelod anweithredol



**Ian Rees**
Cadeirydd anweithredol y Bwrdd



**Mike Norman**
Aelod anweithredol



**Richard Thurston**
Aelod anweithredol y Bwrdd

## Ein Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol



**Adrian Crompton**
Archwilydd Cyffredinol Cymru a Phrif Weithredwr



**Anne-Louise Clark**
Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu a Newid



**Ann-Marie Harkin**
Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Archwilio



**Kevin Thomas**
Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol

97 Mae'r arddangosion yn yr adran hon yn dangos cyfansoddiad y Bwrdd a'r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol ar 12 Mehefin 2024. I gael rhestr lawn o unigolion a fu'n aelodau o'r Bwrdd a'i bwyllgorau yn ystod 2023-24, gweler y Tabl Presenoldeb yn y Datganiad Llywodraethu.

## Cofrestr buddiannau

98 Rhaid i aelodau'r Bwrdd a'r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol ddarparu manylion unrhyw gyfarwyddiaethau cwmni a buddiannau sylweddol eraill a allai wrthdaro â'u cyfrifoldebau a chyflwyno risgiau i annibyniaeth yr Archwilydd Cyffredinol. Gellir gweld cofrestrau buddiannau ar gyfer aelodau unigol o'r Bwrdd a'r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol gan ddefnyddio'r dolenni 'Darllenwch Mwy' ar dudalen Pwy yw pwy ein gwefan.

## Archwilydd Swyddfa Archwilio Cymru

99 Penodwyd RSM UK Audit LLP yn archwilydd allanol i Swyddfa Archwilio Cymru gan Bwyllgor Cyllid y Senedd ers 1 Mawrth 2015, yn fwyaf diweddar am gyfnod o 48 mis yn dechrau ar 1 Tachwedd 2022.

100 Yn ogystal â'u gwaith o lunio barn ar y datganiadau ariannol a rheoleidd-dra, gallai'r archwilydd gynnal archwiliadau i ddarbodusrwydd, effeithlonrwydd, ac effeithiolrwydd yr Archwilydd Cyffredinol neu Swyddfa Archwilio Cymru wrth iddynt ddefnyddio adnoddau i gyflawni eu swyddogaethau a gosod adroddiad sy'n cynnwys canlyniadau unrhyw archwiliadau o'r fath gerbron y Senedd.

101 Datgelir manylion cost gwasanaethau archwilio allanol yn y Nodiadau i'r datganiadau ariannol.

# Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

102 O dan o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, Archwilydd Cyffredinol Cymru yw Swyddog Cyfrifyddu Swyddfa Archwilio Cymru ac ar gyfer pob blwyddyn ariannol, mae'n rhaid iddo:

a cadw cyfrifon priodol a chofnodion priodol mewn cysylltiad â nhw, a

b llunio datganiad o gyfrifon.

103 Paratoir y cyfrifon ar sail croniadau ac mae'n rhaid iddynt roi darlun cywir a theg o sefyllfa Swyddfa Archwilio Cymru a'i hincwm a'i gwariant, Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, a llifoedd arian parod ar gyfer y flwyddyn ariannol.

104 Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth, ac yn benodol, mae'n rhaid iddo:

a cadw at y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddir gan Drysorlys EF, gan gynnwys y gofynion cyfrifo a datgelu perthnasol, a chymhwyso polisïau cyfrifo addas yn gyson;

b gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon ar sail resymol;

c datgan a ddilynwyd safonau cyfrifyddu cymwys fel y'u nodir yn Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth a datgelu ac esbonio unrhyw wyriadau perthnasol yn y cyfrifon; a

d paratoi'r cyfrifon ar sail busnes gweithredol.

105 Nodir cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys cyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra'r arian cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn atebol amdano, am gadw cofnodion cywir ac am ddiogelu asedau Swyddfa Archwilio Cymru, yn Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru. Disgrifir cyfrifoldebau ychwanegol yn y Memorandwm ar gyfer Swyddog Cyfrifyddu Swyddfa Archwilio Cymru, a gyhoeddwyd gan y Senedd.

106 Yn rhinwedd fy swydd o fod yn Swyddog Cyfrifyddu, rwyf yn cadarnhau:

a bod yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon hyn ar y cyfan yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy a chymeraf gyfrifoldeb personol am yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon a'r dyfarniadau sydd eu hangen i benderfynu eu bod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

b fy mod wedi cymryd yr holl gamau y dylwn fod wedi eu cymryd i wneud fy hun yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i ddangos bod archwilwyr Swyddfa Archwilio Cymru yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

c hyd y gwn i, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr Swyddfa Archwilio Cymru yn ymwybodol ohoni.

# Datganiad Llywodraethu

107 Mae'r datganiad hwn yn nodi strwythur rheoli Swyddfa Archwilio Cymru ac yn rhoi cyfrif o'r gwaith rheoli risgiau a llywodraethu corfforaethol. Mae'r systemau a'r fframwaith yn y datganiad hwn wedi bod ar waith yn ystod y flwyddyn a adolygir a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad blynyddol a'r cyfrifon.

108 Gan fy mod yn Swyddog Cyfrifyddu Swyddfa Archwilio Cymru, mae'n rhaid imi geisio sicrhau:

a y cynhelir system rheolaeth fewnol gadarn yn Swyddfa Archwilio Cymru, gan gynnwys proses archwilio mewnol cadarn, er mwyn cefnogi'r gwaith o arfer swyddogaethau statudol yn briodol; a

b bod rheolaeth cyfleoedd a risgiau Swyddfa Archwilio Cymru yn cyflawni'r cydbwysedd cywir sy'n gymesur â busnes yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru.

## Llywodraethu corfforaethol

### Y fframwaith llywodraethu

109 Crynhoir fframwaith llywodraethu Swyddfa Archwilio Cymru, gan gynnwys gwybodaeth am gwmpas gwaith y Bwrdd a gwaith ei bwyllgorau, yn yr arddangosyn drosodd.

110 Mae ein Bwrdd o naw aelod yn cynnwys mwyafrif o bum aelod anweithredol (gan gynnwys y Cadeirydd), yr Archwilydd Cyffredinol, aelod sy'n gyflogai a benodwyd ar argymhelliad yr Archwilydd Cyffredinol a dau aelod etholedig sy'n gyflogeion. Mae'r Bwrdd yn cwrdd yn ffurfiol o leiaf chwe gwaith fesul blwyddyn.

111 Ceir Uwch-gyfarwyddwr Annibynnol ac mae ei gyfrifoldebau'n cynnwys: dirprwyo ar ran y Cadeirydd pan nad yw'n gallu gweithredu; arfarnu perfformiad y Cadeirydd; derbyn datgeliadau oddi wrth chwythwyr chwiban y tu allan i'r gadwyn rheoli llinell arferol; a goruchwylio'r broses o ethol aelodau sy'n gyflogeion i'r Bwrdd.

112 Rheolir y berthynas rhwng Swyddfa Archwilio Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol gan God Ymarfer a gymeradwyir gan y Senedd ac a adolygir o bryd i'w gilydd.

113 Mae'r Bwrdd wedi sefydlu dau bwyllgor sy'n gweithredu mewn swyddogaeth ymgynghorol:

a mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn cynnwys dau aelod anweithredol o'r Bwrdd, aelod etholedig o'r Bwrdd sy'n gyflogai ac aelod allanol annibynnol.

b mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Adnoddau Dynol yn cynnwys tri aelod anweithredol o'r Bwrdd ac aelod etholedig o'r Bwrdd sy'n gyflogai.

## Pwyllgor Cyllid y Senedd

Yn craffu ar ddefnydd adnoddau Swyddfa Archwilio Cymru, yn argymell penodiad yr Archwilydd Cyffredinol ac aelodau anweithredol o Swyddfa Archwilio Cymru, ac yn gyfrifol am benodi archwilydd allanol Swyddfa Archwilio Cymru.

## Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru

Yn monitro’r broses o arfer swyddogaethau’r Archwilydd Cyffredinol.
Yn cynghori’r Archwilydd Cyffredinol.
Yn cyflogi staff ac yn darparu adnoddau fel bod modd arfer swyddogaethau’r Archwilydd Cyffredinol.
Yn codi tâl am waith sydd wedi’i wneud gan yr Archwilydd Cyffredinol.
Yn cydweithio â’r Archwilydd Cyffredinol i amcangyfrif incwm a threuliau, y cynllun ffioedd, y cynllun blynyddol, adroddiad/adroddiadau interim ac adroddiad blynyddol.

## Pwyllgor Taliadau Cydnabyddiaeth ac Adnoddau Dynol

Yn cynghori’r Bwrdd trwy herio a chraffu ar dri maes cyffredinol o’r gwaith rheoli a datblygu adnoddau dynol:

a llywodraethu;
b perfformiad; a
c pholisi a thaliadau cydnabyddiaeth.

## Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

Yn cynghori’r Bwrdd trwy:
a adolygu pa mor gynhwysfawr a dibynadwy yw ffynonellau sicrwydd corfforaethol;
b adolygu uniondeb yr adroddiad blynyddol a chyfrifon; a
c chyflwyno barn ar y cymorth sydd ar gael fel bod y Bwrdd a’r Swyddog Cyfrifyddu yn gallu cyflawni eu dyletswyddau perthnasol.

## Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol

Yn cyfarwyddo ac yn goruchwylio gweithrediad yr amcanion strategol a’r rhaglenni gwaith a ddisgrifir yng Nghynllun Blynyddol Archwilio Cymru.

Yn gweithredu fel bwrdd rhaglen rheoli newid, gan osod cyfeiriad y rhaglen a darparu adnoddau ar gyfer ei gweithredu.

114 Nid yw aelodau'r Bwrdd sy'n gyflogeion yn aelodau o'r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol nac yn cymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau ar lefel uwch ac eithrio yn rhinwedd swyddogaeth y Bwrdd. Mae'r Bwrdd yn fodlon nad oes unrhyw wrthdaro buddiannau yn aelodaeth eu pwyllgor a, phan fo gwrthdaro'n codi, y byddant yn cael eu rheoli a'u lliniaru'n effeithiol.

115 Rwyf yn cadeirio Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol er mwyn cyfarwyddo, goruchwylio a monitro'r gwaith o weithredu'r blaenoriaethau a nodir yn ein Cynllun Blynyddol. Mae'n cyfarfod o leiaf unwaith y mis ac mae'n fy nghynnwys i a thri Chyfarwyddwr Gweithredol. Mae aelodau Panel Staff hefyd yn dod i gyfarfodydd y Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol ar sail gylchdroadol er mwyn dod â phersbectif cyflogeion i'r trafodaethau.

116 Mae Ysgrifennydd Bwrdd yn cefnogi'r Bwrdd a'i bwyllgorau. Mae gan y Bwrdd flaenraglen fusnes sy'n helpu i lywio agendâu ac sydd wedi ei gynllunio â'r nod o sicrhau bod busnes yn cael ei gynnal mor effeithlon ac effeithiol â phosibl.

117 Ceir rhagor o wybodaeth am aelodaeth y Bwrdd a'r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol yn Adroddiad y Cyfarwyddwyr.

## Presenoldeb yng nghyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgorau 2023-24

Tabl yn dangos nifer y cyfarfodydd Bwrdd a phwyllgorau a gynhaliwyd yn 2023-24 a nifer yr aelodau a oedd yn bresennol (a nifer yr aelodau o'r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol nad ydynt yn aelodau o'r Bwrdd a oedd yn bresennol).

| | Y Bwrdd | Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg | Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Adnoddau Dynol | Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol |
|---|---|---|---|---|
| Nifer y cyfarfodydd a gynhaliwyd | 6 | 4 | 5 | 28 |
| **Aelodau'r Bwrdd a'i bwyllgorau** | | | | |
| Adam Marshall[14] | 2 | | 2 | |
| Adrian Crompton15 | 6 | 4 | 5 | 25 |
| Alison Gerrard, Cadeirydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Adnoddau Dynol | 6 | | 5 | |
| Andrew Clark, Aelod Annibynnol y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg[16] | 1 | 4 | | |
| Anne Beegan | 6 | 4 | | |
| Chris Bolton[17] | 3 | 1 | 1 | |
| Darren Griffiths[18] | 5 | | 2 | |
| David Francis, Uwch-gyfarwyddwr Annibynnol | 6 | 4 | | |
| Elinor Gwynn | 6 | | 5 | |
| Dr Ian Rees, Cyn-gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg | 6 | 4 | | |

14 Ymddiswyddodd Adam Marshall o'i swydd fel aelod etholedig o'r Bwrdd sy'n gyflogai ar 31 Awst 2023.

15 Bu Adrian Crompton yn bresennol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Adnoddau Dynol yn rhinwedd ei swydd o fod y Prif Weithredwr ac yn Swyddog Cyfrifyddu.

16 Daeth Andrew Clark i un cyfarfod Bwrdd gan weithredu fel arsylwr.

17 Penodwyd Chris Bolton yn aelod etholedig o'r Bwrdd sy'n gyflogai ar 18 Hydref 2023. Daeth i un cyfarfod Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ac un cyfarfod Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Adnoddau Dynol gan weithredu fel arsylwr.

18 Yn dilyn newid yn yr aelodaeth ar 26 Medi 2023, daeth Darren Griffiths i gyfarfodydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Adnoddau Dynol gan weithredu fel aelod o'r pwyllgor.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dr Kathryn Chamberlain, Cyn-gadeirydd y Bwrdd[19] | 6 | 2 | 5 | |

| | Y Bwrdd | Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg | Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Adnoddau Dynol | Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol |
|---|---|---|---|---|
| Nifer y cyfarfodydd a gynhaliwyd | 6 | 4 | 5 | 28 |
| **Aelodau o’r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol (nad ydynt yn aelodau o’r Bwrdd)[20]** | | | | |
| Anne-Louise Clark | 5 | 4 | 1 | 24 |
| Ann-Marie Harkin | 6 | 2 | 1 | 26 |
| Kevin Thomas | 6 | 4 | 5 | 24 |

### Cyfrif llywodraethu corfforaethol

118 Mae’r Bwrdd yn cael sicrwydd bod ei amcanion yn cael eu cyflawni drwy:

a adroddiadau rheoli mewnol, adroddiadau perfformiad a chyfarwyddiadau amserol

b adroddiadau mewnol annibynnol, gan gynnwys adroddiadau archwilio mewnol ac adroddiadau’r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a’r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Adnoddau Dynol

c adroddiadau archwilio allanol

19 Cafodd Kathryn Chamberlain ei phenodi gan y Senedd yn Gadeirydd Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru am gyfnod o bedair blynedd o 16 Mawrth 2023. Ar 15 Ebrill 2024, rhoddodd Pwyllgor Cyllid y Senedd wybod iddi ei fod yn ystyried ei bod wedi’i hanghymhwyso rhag bod yn aelod ac yn gadeirydd y Bwrdd, yn weithredol o 1 Ionawr 2024, a hynny am ei bod yn ymgymryd â rôl arall yr oedd y Pwyllgor yn ystyried ei fod yn ei hanghymhwyso o dan baragraff 26 o Atodlen 1 i Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013. Yn ystod y flwyddyn, mynychodd Kathryn Chamberlain gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a dau gyfarfod y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Adnoddau Dynol gan weithredu fel arsylwr yn rhinwedd ei swydd o fod yn aelod anweithredol ac yn Gadeirydd y Bwrdd. Ar gyfer gweddill y cyfarfodydd Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Adnoddau Dynol, yn dilyn newid yn yr aelodaeth ar 26 Medi 2023, roedd yn bresennol gan weithredu fel aelod o’r pwyllgor.

20 Roedd y Cyfarwyddwyr Gweithredol yn bresennol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a chyfarfodydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Adnoddau Dynol fel y bo’n briodol er mwyn rhoi cyfarwyddiadau, cymryd rhan mewn trafodaethau neu dderbyn eu cyngor. Mae ganddynt wahoddiad sefydlog i ddod i gyfarfodydd y Bwrdd.

119 Mae'r Bwrdd yn fodlon bod lefel y sicrwydd a geisir ac a ddarperir yn gymesur â'r lefelau cysylltiedig o risg a aseswyd. Mae'r Bwrdd hefyd yn fodlon ag ansawdd yr wybodaeth y mae'n ei chael, er ei fod o'r farn bod lle i wella pwyslais a fformat rhywfaint o'r gwaith adrodd perfformiad. Mae aelodau anweithredol o'r Bwrdd a Chyfarwyddwyr Gweithredol yn cyfarfod yn rheolaidd i sicrhau bod gwaith y Bwrdd, ei Bwyllgorau a'r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol yn gydnaws.

120 Mae gan y Bwrdd God Ymddygiad y mae Ysgrifennydd y Bwrdd yn cadw cofrestrau buddiannau aelodau o dano a adolygir yn flynyddol ac a diwedderir yn ystod y flwyddyn er mwyn casglu unrhyw newidiadau a hysbysir gan aelodau.

121 Mae gan Gadeirydd y Bwrdd a chadeiryddion ei bwyllgorau hawl mynediad, a gallant roi gwybod i Gadeirydd Pwyllgor Cyllid y Senedd yn uniongyrchol am unrhyw faterion sy'n peri pryder.

122 Mae gan y Pennaeth Archwilio Mewnol a'r Archwilydd Allanol fynediad agored a chyfrinachol at Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Hefyd, mae'r Pwyllgor yn cynnal sesiwn breifat gyda'r archwilwyr mewnol ac allanol cyn pob cyfarfod pwyllgor.

123 Yn wirfoddol, mae Swyddfa Archwilio Cymru yn asesu ei threfniadau o'u cymharu â gofynion Code of Good Practice for Corporate Governance in central government departments. Mae'r Bwrdd yn fodlon ei fod yn cydymffurfio â'r gofynion hynny i'r graddau y maent yn berthnasol ac yn ymarferol o ystyried yr angen i gadw annibyniaeth yr Archwilydd Cyffredinol. Nid yw'r trefniadau yn cydymffurfio â holl ofynion y Cod am y rhesymau a ganlyn:

a nid yw Swyddfa Archwilio Cymru yn adran weinidogol, ac nid yw'n adrodd i weinidogion neu eu swyddogion ychwaith nac yn cael cyfarwyddiadau oddi wrth weinidogion neu eu swyddogion.

b mae swyddogaeth a chyfrifoldebau'r Bwrdd a'i aelodaeth wedi eu pennu mewn statud.

124 Hefyd, nid yw'r Bwrdd wedi sefydlu pwyllgor enwebiadau, ond y Bwrdd a'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Adnoddau Dynol sy'n ymgymryd â'r swyddogaethau a ddisgrifir yn y Cod.

### Adolygiad perfformiad ac effeithiolrwydd y Bwrdd

125 Cynhaliodd y Bwrdd hunanasesiad o'i effeithiolrwydd yn 2023-24 yn unol â'r arferion da a nodir yn y Cod Llywodraethu Corfforaethol. Ystyriodd y Bwrdd y canlyniadau ym mis Rhagfyr 2023. Daeth yr asesiad i'r casgliad, yn gyffredinol, fod y Bwrdd yn gweithredu'n effeithiol gyda rhai meysydd i'w gwella a nodwyd. Datblygodd y Bwrdd gynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r meysydd allweddol a nodwyd yr oedd angen eu gwella a chytunodd i gomisiynu gwerthusiad annibynnol o'i effeithiolrwydd yn 2025-26.

126 Yn rhan o'u gofynion adrodd blynyddol, mae pwyllgorau'r Bwrdd yn cwblhau hunanasesiad o'u heffeithiolrwydd. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn asesu ei hun o'i gymharu â'r egwyddorion arferion da a ddisgrifir yn Audit Committee Handbook Trysorlys EF. Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Adnoddau Dynol wedi addasu'r asesiad hwnnw er mwyn sicrhau ei fod yn berthnasol ac yn gymesur â'i sefyllfa. Mae'r Bwrdd yn fodlon â chadernid yr asesiadau a'r cynnwys nad oes unrhyw faterion sy'n peri pryder.

127 Mae gan y Bwrdd broses ar waith ar gyfer cynnal arfarniadau perfformiad aelodau sy'n gweithredu ar gylch 12 i 18 mis. Fe'u cwblhawyd ddiwethaf ym mis Hydref 2023.

128 Mae gan y Bwrdd gynllun dysgu a datblygu sy'n cael ei ddiweddaru'n flynyddol. Mae'r cynllun yn nodi'r trefniadau ar gyfer hyfforddiant cynefino ac ar gyfer diwallu anghenion dysgu a datblygu parhaus a nodwyd yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys y rhai a nodwyd trwy'r prosesau hunanasesu ac arfarnu perfformiad.

## Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

129 Cyflwynodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ei adroddiad blynyddol i'r Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu ym mis Mehefin 2024, gan grynhoi ei gasgliadau o'r gwaith a wnaed ganddo yn ystod 2023-24.

130 Rhoddodd y Pwyllgor sicrwydd ynghylch y canlynol:

- a mae'r adroddiadau ariannol yn gyson â gofynion Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth a pharatoir adroddiadau yn unol â pholisïau cyfrifyddu priodol.
- b ymddengys fod y trefniadau asesu a rheoli risgiau'n gadarn ac yn gweithredu'n effeithiol mewn fframwaith rheoli mewnol clir.
- c mae'r trefniadau ar gyfer nodi ac adrodd camweddau megis twyll, llwgrwobrwyo, llygredd a gwyngalchu arian yn gadarn ac yn unol ag arferion da.
- d mae cynllun gweithredu manwl ar waith i gefnogi datblygiad seiberddiogelwch.

131 Roedd y Pwyllgor yn gwerthfawrogi'r cymorth a'r ymgysylltiad agored a gonest a gafodd gan y rheolwyr a chan yr archwilwyr mewnol ac allanol yn ystod y cyfnod adrodd.

132 Mae'r Pwyllgor yn fodlon nad yw'r adolygiad hunanasesu o'i effeithiolrwydd a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2024 wedi datgelu unrhyw feysydd pryder sylweddol.

## Adroddiad y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Adnoddau Dynol

133 Craffodd y Pwyllgor ar amrywiaeth eang o faterion yn 2023-24 yn unol â'i gylch gorchwyl. Roedd y rhain yn cynnwys:

- a adolygu a monitro prosesau, polisïau a chanllawiau rheoli perfformiad.
- b ystyried ac argymell taliad costau byw a strategaeth gyflog er mwyn cysoni graddfeydd cyflog Swyddfa Archwilio Cymru â chyfraddau y farchnad.
- c adolygu'r broses o gyflawni'r strategaethau Datblygu Sefydliadol a Phobl a Llesiant.
- d adolygu datblygiad Cynllun Gweithlu a chefnogi cynlluniau rheoli talent a chynllunio olyniaeth.
- e ystyried cynigion am ragor o hyblygrwydd yn y trefniadau gweithio drwy ddatblygu cynllun peilot oriau gwaith cywasgedig.

134 Roedd y Pwyllgor yn gwerthfawrogi bod y rheolwyr wedi ymgysylltu'n agored â'r Pwyllgor ac wedi ymateb yn gadarnhaol i sylwadau ac awgrymiadau y Pwyllgor.

135 Yn gyffredinol, adroddodd y Pwyllgor ei fod yn fodlon ar y cyfan fod trefniadau cydnabyddiaeth ariannol ac Adnoddau Dynol Swyddfa Archwilio Cymru:

a yn cefnogi nodau strategol y Bwrdd;

b yn galluogi'r busnes i gael ei gynnal yn effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus, gan gynnwys recriwtio, ysgogi a chadw staff; ac

c yn cydymffurfio â gofynion rheoliadol, gan gynnwys sicrhau bod y datgeliadau yn yr Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol blynyddol yn unol â gofynion cyfreithiol.

136 Mae'r Pwyllgor yn fodlon nad yw'r adolygiad hunanasesu o'i effeithiolrwydd a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2024 wedi datgelu unrhyw feysydd pryder sylweddol.

**Adroddiad yr Archwilydd Mewnol**

137 Yn dilyn ymarfer tendro a gynhaliwyd o dan gytundeb Archwilio Gwasanaethau Masnachol y Goron a Gwasanaethau Sicrwydd, penodwyd TIAA yn archwilwyr mewnol Swyddfa Archwilio Cymru am y cyfnod tair blynedd rhwng 2022-23 a 2024-25.

138 Paratôdd y Pennaeth Archwilio Mewnol strategaeth a chynllun archwilio mewnol ar gyfer 2023-24 a ystyriwyd gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn ei gyfarfod ar 22 Chwefror 2023.

139 Cyhoeddwyd saith adroddiad archwilio mewnol yn ystod y cyfnod adrodd. Roedd y Pennaeth Archwilio Mewnol yn cynnal olrheiniwr er mwyn dilyn argymhellion archwilio a chamau gweithredu y cytunwyd arnynt.

140 Yn y datganiad sicrwydd blynyddol ar gyfer 2023-24, nododd y Pennaeth Archwilio Mewnol:

'Fod TIAA yn fodlon bod gan Archwilio Cymru brosesau rheoli a llywodraethu risg rhesymol ac effeithiol ar waith ar gyfer y meysydd a adolygwyd yn ystod y flwyddyn. Dim ond ar y materion a ddaeth i sylw TIAA yn ystod yr adolygiadau archwilio mewnol a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn y mae'r farn hon yn seiliedig ac nid yw'n farn ar bob elfen o'r prosesau rheoli a llywodraethu risg na'r ymarferoldeb ariannol parhaus na'ch gallu i fodloni rhwymedigaethau ariannol y mae'n rhaid i Archwilio Cymru eu cael o'i ffynonellau sicrwydd amrywiol.'

**Tabl sy’n rhestru’r adolygiadau archwilio mewnol a gynhaliwyd yn 2023-24 ac sy’n darparu’r asesiad cyffredinol a chrynodeb o ganfyddiadau allweddol**

| Adolygiad archwilio mewnol | Dyddiad cyhoeddi | Asesiad cyffredinol | Canfyddiadau allweddol |
|---|---|---|---|
| Recriwtio hyfforddeion | Awst 2023 | Sicrwydd sylweddol | Mae gweithdrefn recriwtio sydd wedi ei diffinio’n glir ar waith sydd wedi ei chymhwyso i’r ymarfer recriwtio hyfforddeion graddedig.<br><br>Cadarnhaodd profion archwilio fod y weithdrefn wedi ei chymhwyso’n gyson yn ymarferol a bod llwybr archwilio clir yn cefnogi pob cam o’r broses. |
| Seiberddiogelwch | Awst 2023 | Sicrwydd rhesymol | Mae’r sefydliad wedi gweithredu ateb diogelwch rheoledig ar gyfer cyfrifiaduron defnyddwyr terfynol ac mae’n elwa o fonitro ac ymateb byw i fygythiadau seiber. |
| Rheolaeth ariannol allweddol | Tachwedd 2023 | Sicrwydd sylweddol | Diffinnir trefniadau ar gyfer Rheoli Ariannol mewn Llawlyfr Rheoli Ariannol. Mae canllawiau manwl i ddefnyddwyr ar waith i hwyluso’r defnydd o system Prynu i Dalu (P2P).<br><br>Mae trefniadau ar waith i sicrhau bod dyletswyddau yn cael eu gwahanu’n briodol drwy’r llifoedd gwaith sy’n rhan o P2P. |
| Cynllunio’r gweithlu | Ionawr 2024 | Sicrwydd rhesymol | Ar hyn o bryd, cynhelir gwaith gan ran Gwasanaethau Archwilio o’r busnes ar ddatblygu Strategaeth Gweithlu ffurfiol. Bydd angen cwblhau elfen Gwasanaethau Corfforaethol hefyd a’u hymgorffori gyda phwyslais allweddol ar gynllunio olyniaeth. |
| Prosiect gweithleoedd y dyfodol | Chwefror 2024 | Sicrwydd sylweddol | Roedd gan Archwilio Cymru brosesau priodol ar waith i reoli ei phrosiect gweithleoedd y dyfodol.<br><br>Yn rhan o’r broses o symud pob swyddfa, mae Archwilio Cymru wedi cynnwys sawl maes arferion da er mwyn cyflawni’r canlyniadau gorau. |

| Adolygiad archwilio mewnol | Dyddiad cyhoeddi | Asesiad cyffredinol | Canfyddiadau allweddol |
|---|---|---|---|
| Diogelu data | Chwefror 2024 | Sicrwydd rhesymol | Anfonir adroddiadau y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data i'r Bwrdd bob blwyddyn, ac i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg bob chwe mis.<br><br>Mae taenlen mapio data ar waith ar gyfer pob maes busnes, ond gellid gwella hyn drwy eu cydgrynhoi fel cofrestr asedau gwybodaeth sengl. |
| Cynaliadwyedd ariannol | Chwefror 2024 | Sicrwydd sylweddol | Sefydlwyd Grŵp Llywio Adolygu Strategaeth Ariannol i oruchwylio'r broses o gyflawni arbedion yn ystod y flwyddyn ac yn y tymor canolig i dymor hwy.<br><br>Cafodd ffrydiau gwaith bach y dasg o nodi arbedion ac effeithlonrwydd mewn meysydd allweddol; cyflawnwyd y targed arbedion, a chafodd arbedion arian parod eu bancio o fewn chwe mis. |

## Rheoli risgiau

141 Wrth gynnal ein busnes, rydym wedi ymrwymo i gymhwyso'r egwyddorion a nodir yn Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru a Llyfr Oren Llywodraeth y DU ar gyfer rheoli risgiau.

### Parodrwydd i dderbyn risg

142 Nodir meysydd allweddol lle gall risgiau godi a bygwth ein gallu i gyflawni ein gwaith yn llwyddiannus yn ein Cynllun Blynyddol. Darperir crynodeb lefel uchel o'n parodrwydd i dderbyn risg ym mhob un o'r meysydd hyn yn Atodiad 2, sy'n darparu'r pwynt cyfeirio yr ydym yn meincnodi gweithgarwch rheoli a lliniaru risg yn y sefydliad o'i gymharu ag ef.

### Fframwaith rheoli risg

143 Mae'r Bwrdd yn goruchwylio'r broses o reoli risgiau yn Archwilio Cymru. Cefnogir y Bwrdd gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg y mae ei gyfrifoldebau'n cynnwys adolygu a chynghori'r Bwrdd ar:

a strategaeth risgiau, gan gynnwys y dull o bennu'r parodrwydd i dderbyn risg

b y prosesau asesu risg cyffredinol sy'n llywio gwaith gwneud penderfyniadau y gweithredwyr

c ymatebolrwydd y rheolwyr i asesiadau risg

144 Yn rhinwedd fy swydd o fod y Swyddog Cyfrifyddu, rwyf yn cynghori'r Bwrdd a'i bwyllgorau ar y system rheolaeth fewnol ac rwyf yn cael cymorth i wneud hynny gan y Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol.

145 Mae'r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol yn gyfrifol am gynnal polisïau a systemau rheoli risgiau a rheolaeth mewnol cadarn, ac am reoli risgiau strategol o ddydd i ddydd sy'n ymwneud â swyddogaethau yr Archwilydd Cyffredinol a/neu Swyddfa Archwilio Cymru.

**Asesiad risg**

146 Ym mhob un o'i gyfarfodydd yn ystod y cyfnod adrodd, ystyriodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg grynodeb y Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol o'r risgiau strategol allweddol y mae'r sefydliad yn eu hwynebu, ochr yn ochr ag adroddiad cofrestr risgiau manylach.

147 Amrywiodd nifer o risgiau strategol allweddol yn ystod y cyfnod adrodd ac roeddent yn ymwneud yn enwedig yn ystod amser y Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Roedd y rhain yn cynnwys y risgiau a'r mesurau lliniaru cysylltiedig a nodir yn y tabl isod.

| Risg | Mesurau lliniaru cysylltiedig |
|---|---|
| Methu sicrhau cyllid digonol i sicrhau cynaliadwyedd ariannol tymor canolig | Datblygwyd strategaeth ariannol pum mlynedd tymor canolig, a gyflwynwyd gerbron Pwyllgor Cyllid y Senedd yn rhan o adolygiad blynyddol y Cynllun Amcangyfrif a Ffioedd.<br><br>Cynhaliwyd adolygiad cynaliadwyedd ariannol i sefydlu dull mwy cynlluniedig a rheoledig o sicrhau y cyflawnir targedau arbedion yn y dyfodol ac o sicrhau y gall y sefydliad ymateb yn gyflym i heriau ariannol yn y dyfodol. |
| Anallu i ddarparu adnodd llawn ar gyfer rhaglen waith archwilio sy'n datblygu ac sy'n mynd i'r afael â'r ôl-groniad presennol. | Buddsoddwyd ymhellach yn ein cynlluniau hyfforddeion a phrentisiaid, a chynhaliwyd ymgyrch recriwtio llwyddiannus yn 2023 er mwyn darparu llif talent cyson yn y dyfodol.<br><br>Gwnaethom recriwtio capasiti dros ben ar gyfer rhai swyddogaethau er mwyn datblygu parodrwydd ar gyfer pob achlysur pan fo cyfraddau cystadleuaeth a throsiant y farchnad yn uchel.<br><br>Estynnwyd contractau archwilwyr rhyddhad presennol a hysbysebwyd er mwyn cynyddu'r garfan bresennol i ddarparu capasiti ychwanegol, yn enwedig mewn meysydd lle mae ôl-groniad.<br><br>Gwnaethom ymgysylltu'n rhagweithiol ag asiantaethau recriwtio er mwyn nodi ymgeiswyr addas fel y gallwn ddod â staff asiantaeth i mewn ar fyr rybudd yn ôl yr angen.<br><br>Treialwyd rhaglen goramser â thâl a sicrhawyd adnoddau ychwanegol gan ein tîm cyllid mewnol. |

| Risg | Mesurau lliniaru cysylltiedig |
|---|---|
| Methu darparu incwm digonol o ffioedd oherwydd pwysau darparu adnoddau. | Gweithredwyd systemau TG gwell a threfniadau ar gyfer cynhyrchu amcanestyniadau incwm, monitro amser taladwy ac amser nad yw'n daladwy a nodi pryd y mae angen camau gweithredu adferol i flaenoriaethu gwaith taladwy.<br><br>Darparwyd canllawiau diweddaredig i'r staff sy'n ennill ffioedd ar ddyrannu adnoddau a chofnodi amser gweithgareddau taladwy a gweithgareddau nad ydynt yn daladwy.<br><br>Cryfhawyd y trefniadau ar gyfer cau a bilio archwiliadau a phrosesu gostyngiadau, drwy weithredu dull mwy masnachol o ymdrin â chostau sy'n uwch na'r disgwyl. |
| Methu gweithredu'r newidiadau angenrheidiol i'n trefniadau ansawdd archwilio sy'n ofynnol gan safonau proffesiynol newydd a diwygiedig. | Sicrhawyd cyllid ychwanegol a gymeradwywyd gan y Senedd drwy'r broses Amcangyfrif i fuddsoddi mewn mentrau ansawdd archwilio.<br><br>Cynyddwyd nifer yr aelodau annibynnol ar ein Pwyllgor Ansawdd Archwilio, er mwyn darparu gwaith craffu cadarn a goruchwylio risgiau sy'n deillio o'r system rheoli ansawdd. |

148 Rwyf yn fodlon bod y risgiau hyn wedi eu monitro a'u rheoli'n effeithiol yn ystod y flwyddyn.

149 Cafodd nifer o risgiau eu rheoli'n llwyddiannus a'u dileu oddi ar y gofrestr risgiau strategol yn ystod y cyfnod adrodd. Roedd y risgiau naill ai wedi eu cau'n llwyr neu wedi eu hailffurfio a'u rhoi ar y gofrestr risgiau gweithredol er mwyn eu rheoli'n barhaus gan yr arweinydd risgiau perthnasol.

150 Rydym hefyd yn wynebu nifer o risgiau sydd newydd eu nodi a risgiau parhaus yn 2024-25, ac fe'u cynhwysir yn ein cofrestr risgiau strategol. Mae'r rhain yn cynnwys risgiau sy'n gysylltiedig ag:

a Sicrhau bod gennym gynllun gweithlu cadarn i ddenu, cadw a datblygu staff ar draws y sefydliad cyfan.

b Sicrhau ein bod yn cynnal seilwaith TG effeithiol, trefniadau llywodraethu gwybodaeth ac amddiffynfeydd seiberddiogelwch.

c Rheoli pwysau llwyth gwaith ac absenoldeb oherwydd salwch yn effeithiol.

d Sicrhau bod effeithiolrwydd ac enw da y Bwrdd yn cael eu cynnal drwy gyfnod o newid sylweddol mewn aelodaeth anweithredol.

151 Byddaf yn parhau i sicrhau bod risgiau'n cael eu rheoli'n dda ar y cyfan, bod rheolaethau mewnol yn cael eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn effeithiol, a lle bo gwendidau, bod camau priodol ar waith i fynd i'r afael â nhw.

## Llywodraethu gwybodaeth

152 Gan fy mod yn Archwilydd Cyffredinol, mae gennyf fynediad eang at wybodaeth fel y gallaf gyflawni fy swyddogaethau archwilio. Ochr yn ochr â'r hawliau mynediad statudol hyn, mae gennyf gyfrifoldeb i sicrhau bod yr wybodaeth a geir yn cael ei diogelu'n briodol.

153 Yn fy swyddogaeth o fod yn Brif Weithredwr, rwyf yn atebol i'r Bwrdd am lywodraethu gwybodaeth y sefydliad, yn ogystal â bod yn rheolwr data fy hun yn rhinwedd fy swydd o fod yr Archwilydd Cyffredinol. Rwyf wedi dirprwyo'r ddwy swyddogaeth i Gyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol.

154 Er mwyn helpu i sicrhau ein bod yn bodloni gofynion diogelu data a chyfrifoldebau diogelu gwybodaeth eraill, mae gan Swyddfa Archwilio Cymru Bolisi Llywodraethu Gwybodaeth a Pholisi Diogelwch Gwybodaeth. Mae'r polisïau hyn yn nodi cyfrifoldebau'r staff, gofynion prosesu, trefniadau monitro ac adrodd, a gwybodaeth am sut y gall staff gael gafael ar ganllawiau ychwanegol.

155 Daeth adroddiad blynyddol 2023-24 yr Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth i'r casgliad bod ein trefniadau llywodraethu gwybodaeth cyffredinol yn effeithiol. Fodd bynnag, gwnaed rhai argymhellion ar gyfer gwella ymhellach ein dull mewn cysylltiad â chadw gwybodaeth, defnyddio deallusrwydd artiffisial a chyfrifoldebau perchnogion asedau gwybodaeth.

## Diogelu data

156 Yn ystod 2023-24, mae'r sefydliad wedi parhau i wneud gwaith i hybu cydymffurfiaeth â deddfwriaeth diogelu data – Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data a Deddf Diogelu Data 2018. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys:

a darparu hyfforddiant a chanllawiau diogelu data i staff ar draws y sefydliad.

b sicrhau bod cofnodion priodol yn cael eu cadw am yr wybodaeth bersonol a brosesir gan Swyddfa Archwilio Cymru, dibenion a sail gyfreithiol dros brosesu, y manylion cadw data yn ogystal â manylion y mesurau diogelwch technegol a sefydliadol.

c mynd i'r afael â materion cydymffurfio a nodir gan raglen fonitro y Swyddog Diogelu Data.

d cynnal asesiadau effaith diogelu data.

157 Rydym wedi cadw cofnodion o ddigwyddiadau diogelwch gwybodaeth, megis colli gwybodaeth yn ddamweiniol. Risg isel oedd pob digwyddiad yn ystod y flwyddyn, felly nid adroddwyd yr un ohonynt i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

158 Rydym yn parhau i annog staff i adrodd cyn gynted ag y byddant yn dod yn ymwybodol o doriad ac rydym wedi ymrwymo i wella ein prosesau mewnol a'n diogelwch technegol.

## Bod yn agored ac yn dryloyw

159 Rydym wedi ymrwymo i fod yn agored ac yn dryloyw o ran y ffordd yr ydym yn gweithredu fel busnes. Trwy ein Cynllun Cyhoeddiadau, rydym yn darparu gwybodaeth benodol, megis cofnodion y Bwrdd, i'r cyhoedd fel mater o drefn.

160 Cawsom 46 cais am wybodaeth yn ystod blwyddyn ariannol 2023-24. O'r ceisiadau a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn, neu sydd eisoes wrth law, a oedd yn ymwneud â'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, gwnaethom fodloni'r dyddiad cau statudol o 20 diwrnod gwaith mewn 39 o achosion, tynnwyd dau gais yn ôl, ac roedd pedwar yn parhau i fod heb eglurhad gan y ceisiwr. Roedd tri chais yn amodol ar amser ychwanegol mewn cysylltiad â chymhwyso prawf er budd y cyhoedd. Cafodd dau gais eu gohirio y tu hwnt i'r amserlen statudol oherwydd anawsterau wrth gasglu deunydd perthnasol.

161 Nid oeddem yn ddarostyngedig i unrhyw adolygiadau gan y Comisiynydd Gwybodaeth yn 2023-24 o ran ein ffordd o ymdrin â cheisiadau.

## Chwythu'r Chwiban

162 Mae'r Bwrdd o'r farn bod nodi camweddau'n fewnol yn gyfraniad pwysig at reoli risgiau corfforaethol a sicrhau llywodraethu da. Anogir holl staff Swyddfa Archwilio Cymru i godi materion sy'n peri pryder am gamweddau sy'n dod i'w sylw pan fyddant yn y gwaith.

163 Mae ein Polisi Chwythu'r Chwiban yn adlewyrchu darpariaethau Deddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998 a gofynion y Safon Foesegol ar gyfer Archwilwyr. Mae'r Polisi yn nodi'r dull o godi pryderon am foeseg a pholisi, yn ogystal â phryderon am gamweddau yn y gwaith.

164 Ni chawsom unrhyw ddatgeliadau o faterion a oedd yn peri pryder yn ystod y cyfnod adrodd.

165 Er mwyn asesu effeithiolrwydd ein trefniadau chwythu'r chwiban, rydym yn ystyried yr hyn a ddysgwyd gennym o ddatgeliadau blaenorol ac yn arolygu'r staff bob blwyddyn ynghylch eu hymwybyddiaeth o'r trefniadau, a'u hyder yn y trefniadau.

# Adroddiad cydnabyddiaeth ariannol a staff

## Adroddiad cydnabyddiaeth ariannol

### Archwilydd Cyffredinol Cymru

166 Y Senedd sy'n penderfynu ar daliad cydnabyddiaeth yr Archwilydd Cyffredinol ac, yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, fe'i telir yn uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru yn hytrach na chan Swyddfa Archwilio Cymru. Er tryloywder, datgelir cydnabyddiaeth ariannol yr Archwilydd Cyffredinol yn yr adroddiad cydnabyddiaeth ariannol hwn. Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn Brif Weithredwr ac yn Swyddog Cyfrifyddu Swyddfa Archwilio Cymru.

167 Penodwyd yr Archwilydd Cyffredinol presennol, Adrian Crompton, gan y ddiweddar Frenhines ac ymgymerodd â'r swydd ar 21 Gorffennaf 2018 am gyfnod anadnewyddadwy o wyth mlynedd.

### Costau cyflog a phensiwn yr Archwilydd Cyffredinol

| | 2023-24 | | 2022-23 | |
|---|---|---|---|---|
| | Cyflog gros | Cyfraniadau pensiwn y cyflogwr | Cyflog gros | Cyfraniadau pensiwn y cyflogwr |
| | £ | £ | £ | £ |
| Adrian Crompton | 151,393 | 45,872 | 150,000 | 45,450 |

**Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru**

168 Mae Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnwys pum aelod anweithredol a benodir gan y Senedd, dau aelod etholedig sy’n gyflogai, Archwilydd Cyffredinol Cymru, a’i gyflogai a ddewiswyd.

169 Nid yw cydnabyddiaeth ariannol aelodau anweithredol Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru yn bensiynadwy ac fe’i pennir gan y Senedd. Yn achos y Cadeirydd, mae’r gost yn cael ei thalu yn uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru, yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013. Er tryloywder gwell, datgelir cydnabyddiaeth ariannol y Cadeirydd yn yr adroddiad hwn.

170 Mae’r ddau aelod etholedig sy’n gyflogai yn cael eu penodi gan aelodau anweithredol y Bwrdd, yn dilyn pleidlais staff. Mae’r lwfans y maent yn ei gael am eu dyletswyddau sy’n gysylltiedig â’r Bwrdd yn cael ei bennu gan aelodau anweithredol y Bwrdd, nid yw’n bensiynadwy ac fe’i datgelir yn yr adroddiad hwn.

171 Mae’r aelod penodedig o’r Bwrdd yn cael lwfans yn unol â’r hyn a dderbynnir gan yr aelod etholedig sy’n gyflogai.

172 Ni dderbyniodd yr Archwilydd Cyffredinol na Chyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol[21] lwfansau ychwanegol ar gyfer eu dyletswyddau sy’n gysylltiedig â’r Bwrdd.

**Mae’r wybodaeth ar dudalennau 72 i 80 yn yr Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol a Staff yn ddarostyngedig i archwiliad.**

21 Fe’i penodwyd yn aelod o’r Bwrdd tan 31 Rhagfyr 2022.

## Ffigur cyfanswm unigol y gydnabyddiaeth ariannol i aelodau Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru

| | Cydnabyddiaeth Ariannol/Lwfansau | | Costau, gan gynnwys treth[22] | | Ffigur cyfanswm unigol y gydnabyddiaeth ariannol | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2023-24 | 2022-23 | 2023-24 | 2022-23 | 2023-24 | 2022-23 |
| | £ | £ | £ | £ | £ | £ |
| Aelodau'r Bwrdd ar 31 Mawrth 2024 | | | | | | |
| Kathryn Chamberlain (Cadeirydd)[23] | 25,000 | 1,075 | 5,806 | - | 30,806 | 1,075 |
| David Francis | 12,500 | 12,500 | 126 | - | 12,626 | 12,500 |
| Alison Gerrard | 12,500 | 12,500 | 892 | 200 | 13,392 | 12,700 |
| Elinor Gwynn | 12,500 | 12,500 | 2,136 | 662 | 14,636 | 13,162 |
| Ian Rees | 12,500 | 12,500 | 3,087 | 1,420 | 15,587 | 13,920 |
| Anne Beegan[24] | 4,167 | 4,167 | - | - | 4,167 | 4,167 |
| Chris Bolton[25] | 1,893 | - | - | | 1,893 | |
| Darren Griffiths[26] | 4,167 | 1,042 | - | - | 4,167 | 1,042 |
| Aelodau blaenorol o'r Bwrdd | | | | | | |
| Adam Marshall[27] | 1,736 | 4,167 | - | - | 1,736 | 4,167 |
| Lindsay Foyster[28] | - | 23,925 | - | 57 | - | 23,982 |
| Cyfanswm | 86,963 | 84,376 | 12,047 | 2,339 | 99,010 | 86,715 |

22 Gall aelodau'r Bwrdd ac aelodau anweithredol o'r pwyllgor hawlio costau teithio a threuliau ar gyfer busnes sy'n gysylltiedig ag Archwilio Cymru. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn talu atebolrwydd treth personol y treuliau hyn.

23 Penodwyd Kathryn Chamberlain yn Gadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru ar 16 Mawrth 2023. Daeth ei phenodiad i ben ym mis Ebrill 2024. Talwyd ei chydnabyddiaeth ariannol yn uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru.

24 Mae Anne Beegan yn aelod etholedig o'r Bwrdd sy'n gyflogai. Dim ond â'r dyletswyddau aelod Bwrdd y mae'r lwfansau a ddatgelir uchod yn berthnasol.

25 Cymerodd Chris Bolton le Adam Marshall fel aelod etholedig o'r Bwrdd sy'n gyflogai ar 18 Hydref 2023. Dim ond â'r dyletswyddau aelod Bwrdd y mae'r lwfansau a ddatgelir uchod yn berthnasol.

26 Darren Griffiths oedd yr aelod o'r Bwrdd a benodwyd o 1 Ionawr 2023. Dim ond â'r dyletswyddau aelod Bwrdd y mae'r lwfans a ddatgelir uchod yn berthnasol.

27 Roedd Adam Marshall yn aelod etholedig o'r Bwrdd sy'n gyflogai tan 31 Awst 2023. Dim ond â'r dyletswyddau aelod Bwrdd y mae'r lwfansau a ddatgelir uchod yn berthnasol.

28 Roedd Lindsay Foyster yn Gadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru o 17 Hydref 2020 hyd 15 Mawrth 2023. Talwyd ei thaliad cydnabyddiaeth yn uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru.

### Aelodau anweithredol o'r pwyllgor

173 Penododd Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru aelod annibynnol o'i Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

### Ffigur cyfanswm unigol y gydnabyddiaeth ariannol ar gyfer aelodau o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

| | Cydnabyddiaeth Ariannol/Lwfansau | | Costau, gan gynnwys treth | | Ffigur cyfanswm unigol y gydnabyddiaeth ariannol | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2023-24 | 2022-23 | 2023-24 | 2022-23 | 2023-24 | 2022-23 |
| | £ | £ | £ | £ | £ | £ |
| Andrew Clark[29] | 5,000 | 5,000 | - | - | 5,000 | 5,000 |
| Cyfanswm | 5,000 | 5,000 | - | - | 5,000 | 5,000 |

### Staff Swyddfa Archwilio Cymru

174 Mae polisi cyflog Swyddfa Archwilio Cymru a manylion ystodau cyflog ar gyfer yr holl staff ar gael ar ein gwefan.

175 Cyflogir pob aelod o staff gan Swyddfa Archwilio Cymru ar delerau ac amodau a benderfynir gan y Bwrdd. Mae cydnabyddiaeth ariannol pob aelod o staff yn ddarostyngedig i adolygiad cyfnodol o dan strategaethau a bennir gan y Bwrdd ac mewn ymgynghoriad ag undebau llafur o dan gytundeb ar y cyd. Mae cydnabyddiaeth ariannol yn bensiynadwy o dan Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil.

176 Mae staff Swyddfa Archwilio Cymru yn dal penodiadau penagored fel arfer, oni bai eu bod ar gontractau tymor penodol. Oni bai bod achos o gamymddwyn, byddai terfyniad cynnar yn arwain at yr unigolyn yn cael iawndal fel y nodir yng Nghynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil.

177 Nid yw Swyddfa Archwilio Cymru yn talu taliadau bonws sy'n gysylltiedig â pherfformiad i unrhyw aelodau o staff, ond mae ganddi drefniadau arfarnu perfformiad sy'n atal codiadau cyflog os yw'r perfformiad yn llai na boddhaol nes iddynt gyrraedd brig eu band cyflog.

178 Yn ystod 2023-24, ni wnaed unrhyw daliadau i gyn-aelodau o staff y byddai eu cydnabyddiaeth ariannol wedi bod yn rhai y gellid eu datgelu (2022-23: Dim).

29 Penodwyd Andrew Clark yn aelod annibynnol o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ar 1 Gorffennaf 2021.

## Ffigur cyfanswm unigol y gydnabyddiaeth ariannol ar gyfer uwch-reolwyr

179 Darperir manylion cydnabyddiaeth ariannol a buddion pensiwn y Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol yn y tabl canlynol.

| | Y Flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2024 | | |
|---|---|---|---|
| | **Cyflog** | **Buddion Pensiwn** | **Ffigur cyfanswm unigol y gydnabyddiaeth ariannol** |
| | **Bandiau o £5,000** | **I'r £1,000 agosaf** | **Bandiau o £5,000** |
| Kevin Thomas | 130–135 | 98 | 225-230 |
| Ann-Marie Harkin | 120–125 | 65 | 185-90 |
| Anne-Louise Clark | 115–120 | 46 | 160-165 |

| | Y Flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2023 | | |
|---|---|---|---|
| | **Cyflog** | **Buddion Pensiwn**[30] | **Ffigur cyfanswm unigol y gydnabyddiaeth ariannol** |
| | **Bandiau o £5,000** | **I'r £1,000 agosaf** | **Bandiau o £5,000** |
| Kevin Thomas | 125–130 | (33) | 90–95 |
| Ann-Marie Harkin | 110–115 | 24 | 135-140 |
| Anne-Louise Clark | 105–110 | 34 | 140-145 |

180 Cyhoeddir gwybodaeth am dreuliau aelodau y Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol ar ein gwefan.

## Hawliau pensiwn i aelodau'r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol

181 Fel yr holl staff, mae gan aelodau'r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol fynediad at Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Mae manylion y cynllun hwn ar gael yn www.civilservicepensionscheme.org.uk.

30 Cyfrifir gwerth buddion pensiwn a gronnwyd yn ystod y flwyddyn fel y cynnydd real mewn pensiwn wedi'i luosi ag 20. Nid yw'r cynnydd real yn cynnwys codiadau oherwydd chwyddiant nac unrhyw godiadau na gostyngiadau o ganlyniad i drosglwyddo hawliau pensiwn.

| | Pensiwn cronedig erbyn oedran pensiwn yn ôl y sefyllfa ar 31 Mawrth 2024 | Cynnydd real i bensiwn erbyn oedran pensiwn | CETV ar 31 Mawrth 2024 | CETV ar 31 Mawrth 2023 | Cynnydd real i CETV |
|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Kevin Thomas | 80-85 | 5-7.5 | 1,696 | 1,474 | 87 |
| Ann-Marie Harkin | 50-55 ynghyd â chyfandaliad o 135-140 | 2.5-5 ynghyd â chyfandaliad o 0-2.5 | 1,260 | 1,121 | 57 |
| Anne-Louise Clark | 5-10 | 2.5-5 | 137 | 83 | 36 |

### Gwerth Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian Parod (CETV)

182 Mae Gwerth Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian Parod (CETV) yn golygu gwerth cyfalafog y buddion yn y cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol yn ôl asesiad actiwaraidd. Y buddion a gaiff eu prisio yw'r buddion a gronnwyd gan yr aelod ac unrhyw bensiwn i briod dibynnol sy'n daladwy o'r cynllun. Taliad a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn i sicrhau buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fo'r aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion a gronnwyd yn ei gynllun blaenorol yw CETV. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r buddion y mae'r unigolyn wedi'u cronni o ganlyniad i gyfanswm ei aelodaeth o'r cynllun pensiwn, nid ei wasanaeth mewn swydd uwch y mae datgeliad yn berthnasol iddo yn unig.

183 Mae'r ffigurau yn cynnwys gwerth unrhyw fudd pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r aelod wedi'i drosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fudd pensiwn ychwanegol sydd wedi cronni i'r aelod o ganlyniad i brynu buddion pensiwn ychwanegol ar ei draul ei hun. Cyfrifir gwerthoedd trosglwyddo sy'n cyfateb i arian parod yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygio) 2008 ac nid ydynt yn ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol neu bosibl i fuddion sy'n deillio o Dreth Lwfans Oes a allai fod yn ddyledus pan gymerir buddion pensiwn.

## Cynnydd real i CETV

184 Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd i CETV a ariennir gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd i bensiwn cronedig o ganlyniad i chwyddiant, cyfraniadau a dalwyd gan y cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio cyffredin y farchnad ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

## Datgelu cyflog teg

185 Mae'n ofynnol i ni ddatgelu'r berthynas rhwng y Cyfarwyddwr sy'n cael y cyflog uchaf yn Archwilio Cymru a chydnabyddiaeth ariannol gyfartalog ein gweithlu.

186 Mae cyfanswm cydnabyddiaeth ariannol yn cynnwys cyflog a lwfans teithio31. Nid yw'n cynnwys cyfraniadau pensiwn cyflogwr, taliadau diswyddo na CETV pensiynau. Roedd y cyflog cyfartalog ar gyfer 2022-23 yn cynnwys cyfandaliad untro a wnaed i gyflogeion i'w digolledu am golli hawl i lwfans teithio yn y dyfodol. Roedd y cyflog cyfartalog ar gyfer 2023-24 yn cynnwys taliad 'costau byw' untro i fwyafrif ein staff.

| | **2023-24** | **2022-23** | **% y newid** |
|---|---|---|---|
| Canolbwynt cyfanswm cydnabyddiaeth ariannol y cyfarwyddwr sy'n cael y cyflog uchaf (£'000) | £121,722 | £117,040 | 4.0 |
| Cyfanswm cydnabyddiaeth ariannol ar gyfartaledd yn seiliedig ar staff cyfwerth ag amser llawn | £52,755 | £50,979 | 3.532 |

187 Mae'r tabl canlynol yn nodi'r berthynas rhwng cydnabyddiaeth ariannol y cyfarwyddwr sy'n cael y cyflog uchaf a chydnabyddiaeth ariannol ein gweithlu sy'n cyfateb i'r canolrif, y 25ain ganradd a'r 75ain ganradd.

| **Blwyddyn** | **Cymhareb gyflog y 25ain ganradd** | **Cymhareb gyflog y canolrif** | **Cymhareb gyflog y 75ain ganradd** |
|---|---|---|---|
| 2023-24 | 3.66 | 2.58 | 2.03 |

31 Derbyniodd fwyafrif ein staff symudol gyfandaliad ym mis Ebrill 2022 fel iawndal am ddiddymu lwfans teithio. Dewisodd nifer lai o staff barhau i dderbyn y lwfans tan fis Mawrth 2024.

32 Roedd y cyflog cyfartalog ar gyfer 2022-23 yn cynnwys cyfandaliad untro i gyflogeion a ddosbarthwyd yn flaenorol fel 'symudol', fel iawndal am golli'r hawl i lwfans teithio yn y dyfodol. Yn 2023-24, roedd yn cynnwys taliad 'costau byw' untro o £1,500 i fwyafrif y staff ac eithrio ELT.

| Blwyddyn | Cymhareb gyflog y 25ain ganradd | Cymhareb gyflog y canolrif | Cymhareb gyflog y 75ain ganradd |
|---|---|---|---|
| 2022-23 | 3.99 | 2.55 | 1.90 |

188 Mae'r cynnydd i gymarebau cyflog rhwng 2022-23 a 2023-24 yn cynnwys cyfandaliad a wnaed i gyflogeion yn 2022-23 i'w digolledu am golli hawl i lwfans teithio yn y dyfodol, ynghyd â thaliad costau byw untro o £1,500 yn 2023-24.

189 Yn 2023-24, ni chafodd unrhyw gyflogeion gydnabyddiaeth ariannol a oedd yn fwy na'r cyfarwyddwr a oedd yn cael y cyflog uchaf (2022-23: dim).

190 At ddibenion tryloywder, roedd cyfanswm cydnabyddiaeth ariannol yr Archwilydd Cyffredinol o £151,393 (heb gynnwys cyfraniadau pensiwn) 2.99 gwaith yn fwy na'r canolrif o ran cyfanswm cydnabyddiaeth ariannol ar gyfer Archwilio Cymru (2022-23: £150,000 cymhareb: 3.02).

### Ymrwymiadau oddi ar y gyflogres

191 Nid oedd gennym unrhyw gontractau yn ystod 2023-24 a oedd yn cyd-fynd â diffiniad Trysorlys EF o ymrwymiadau oddi ar y gyflogres (2022-23: dim)[33].

### Colli swyddi, ymddeoliadau cynnar a diswyddiadau

192 Caiff trefniadau diswyddo (gan gynnwys ymadawiadau gwirfoddol) eu gweithredu yn unol â Chynllun Digolledu'r Gwasanaeth Sifil a'r gofynion o ran cynllunio'r gweithlu.

193 £31,643, (2022-23: £152,403) oedd cost taliadau diswyddo yn 2023-24.

194 Yn ystod 2023-24, derbyniodd 1 cyflogai (2022-23: 3) daliadau diswyddo fel y nodir isod.

195 Nid oedd unrhyw achosion o golli swydd yn wirfoddol yn 2023-24 (2022-23: dim).

33 Nid yw'n destun archwilio.

| Nifer y pecynnau ymadael yn ôl band costau | | |
|---|---|---|
| | 2023-24 | 2022-23 |
| £20,000-£25,000 | - | 1 |
| £25,001-£50,000 | 1 | 1 |
| £50,001-£100,000 | - | 1 |
| Cyfanswm | 1 | 3 |

## Adroddiad ar staff

### Uwch-arweinyddiaeth

196 Mae'r tabl canlynol yn nodi nifer yr uwch aelodau o staff yn ôl band cyflog ar 31 Mawrth 2024.

| | 31 Mawrth 2024 | 31 Mawrth 2023 |
|---|---|---|
| Band A (£106,546-£131,838) | 3 | 3 |
| Band C (£81,595-£101,432) | 8 | 7 |
| Cyfanswm | 11 | 10 |

### Niferoedd y staff

197 Bu gostyngiad o 7 i nifer gyfartalog y staff a gyflogwyd yn ystod y flwyddyn, sy'n adlewyrchu cynnydd sylweddol i drosiant staff o'i gymharu â 2022-23.

198 Bu cynnydd i nifer y staff parhaol oherwydd i lawer o'n hyfforddeion a gymhwysodd yn ddiweddar lwyddo i gael swyddi parhaol. Mae'r gostyngiad i nifer y staff ar gontractau cyfnod penodol yn adlewyrchu'r cynnydd dilynol i swyddi hyfforddeion gwag yr ydym wrthi'n recriwtio iddynt ar hyn o bryd.

| | 2023-24 | 2022-23 |
|---|---|---|
| Nifer cyfartalog y staff parhaol, wedi'u lleoli yn y DU, cyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd yn ystod y flwyddyn | 215 | 207 |
| Nifer cyfartalog y staff parhaol, wedi'u lleoli yn y DU, ar gontractau cyfnod penodol a gyflogwyd yn ystod y flwyddyn | 53 | 66 |
| Contractwyr archwilio ac arolygu (nifer cyfartalog y rhai cyfwerth ag amser llawn yn y flwyddyn) | 1 | 3 |
| Cyfanswm | 269 | 276 |

### Costau staff a chysylltiedig

| | 2023-24 | 2022-23 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Cyflogau staff | 13,864 | 12,766 |
| Staff a secondiwyd i mewn | 24 | 21 |
| Staff ar gontractau byrdymor | 198 | 308 |
| Cydnabyddiaeth ariannol aelodau anweithredol o bwyllgorau | 67 | 64 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 1,568 | 1,499 |
| Costau pensiwn (PCSPS) | 3,630 | 3,520 |
| Costau pensiwn (pensiynau rhanddeiliaid) | 31 | 34 |
| | 19,382 | 18,212 |
| Lwfans teithio[34] | 115 | 110 |
| Tanysgrifiadau[35] | 127 | 102 |
| | 19,624 | 18,424 |
| Contractwyr archwilio ac arolygu | 16 | 27 |
| | 19,640 | 18,451 |
| Costau colli swyddi, ymddeol yn gynnar a diswyddiadau | 33 | 193 |
| Namyn arian a gafwyd o ran secondiadau allan | (63) | (92) |
| | 19,610 | 18,552 |

### Gwasanaethau a brynwyd i mewn[36]

| | 2023-24 | 2022-23 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Costau ymchwil ac ymgynghoriaeth arall | 222 | 268 |
| | 22 | 268 |

34 O ran staff a ddewisodd barhau i gael y lwfans tan fis Mawrth 2024.

35 Ffioedd ar gyfer aelodaeth o gyrff proffesiynol (£54,366), yswiriant bywyd (£23,198) a sgrinio iechyd (£37,300).

36 Heb gynnwys TAW.

199 Mae'r costau hyn yn ymwneud â gwasanaethau sy'n uniongyrchol gysylltiedig â swyddogaethau archwilio, arolygu, cynghori neu ymchwil. Yn 2022-23, maent hefyd yn cynnwys costau bob dwy flynedd sy'n gysylltiedig â'r Fenter Twyll Genedlaethol.[37]

200 Mae costau ymgynghoriaeth ar gyfer 2023-24 yn cynnwys[38]:

- £72,450 ar gyfer Sicrhau Ansawdd
- Taliadau o £43,371 i Swyddfa'r Cabinet ar gyfer y Fenter Twyll Genedlaethol
- £40,000 ar gyfer paru data y Fenter Twyll Genedlaethol
- £32,225 ar gyfer gwasanaethau arbenigol o ran ein gwaith archwilio cyfrifon
- £18,300 ar gyfer adolygiad o dâl a gwobrwyo.

201 Ni wnaed unrhyw daliadau i'n harchwilwyr allanol am wasanaethau ychwanegol yn 2023-24 (2022-23: £DIM).

**Nid yw'r wybodaeth ganlynol ar dudalennau 80 i 82 yn yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol a Staff yn cael ei harchwilio.**

**Polisïau staff, cydraddoldeb ac amrywiaeth**

202 Mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru ddilyn y fframwaith ar gyfer amddiffyn rhag gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth, a dyletswyddau cydraddoldeb y sector cyhoeddus yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

37 Nid yw'r wybodaeth hon yn cael ei harchwilio.

38 Nid yw'r wybodaeth hon yn cael ei harchwilio.

203 Mae gennym hefyd gyfrifoldeb i gynnal y confensiynau a nodir yn Neddf Hawliau Dynol 1998. Rydym yn ymrwymedig i ddarparu amgylchedd gwaith sy'n gwerthfawrogi amrywiaeth yr holl bobl, ein staff ni ein hunain a'r rhai yr ydym yn dod i gysylltiad â hwy yn ystod ein gwaith, ac rydym yn llwyr gefnogi hawliau pobl i gael eu trin ag urddas a pharch.

204 Mae ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn amlinellu ein hymrwymiad parhaus i gydraddoldeb a'n hamcanion cysylltiedig. Mae ein Hadroddiad Cydraddoldeb ar gyfer 2022-23 yn darparu gwybodaeth am faterion cyflogaeth fel materion amrywiaeth a thriniaeth gyfartal ym maes cyflogaeth. Bydd ein hadroddiad ar gyfer 2023-24 yn cael ei gyhoeddi'n ddiweddarach yn 2024 a bydd hwn yn cynnwys manylion y bwlch cyflog rhwng y rhywiau ar gyfer y flwyddyn.

205 Mae ein Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn amlinellu ein hymrwymiad i sicrhau triniaeth deg a chyfartal i'r holl staff â nodweddion gwarchodedig (gan gynnwys nam) ym mhob agwedd ar gyflogaeth. Mae'r polisi'n darparu ar gyfer cydraddoldeb wrth ddethol ar gyfer cyflogaeth, recriwtio, dyrchafiad, dysgu a datblygu a/neu unrhyw fudd arall, yn seiliedig dim ond ar gymhwyster ac addasrwydd yn unol â'n dyletswyddau dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a deddfwriaeth gysylltiedig.

**Cyfansoddiad staff (nifer y bobl a oedd yn cael eu cyflogi ar 31 Mawrth 2024)**

| | Dynion | Menywod | Gwell gen i beidio â dweud | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Uwch-arweinyddiaeth | 9 | 2 | - | 11 |
| Cyflogeion eraill | 108 | 152 | 7 | 267 |
| Cyfanswm | 117 | 154 | 7 | 278 |

**Absenoldeb oherwydd salwch**

| | 2023-24 | 2022-23 |
|---|---|---|
| | **Diwrnodau** | **Diwrnodau** |
| Diwrnodau gwaith a gollwyd ar gyfartaledd fesul aelod o staff | 7.1 | 6.6 |
| • Oherwydd absenoldeb byrdymor | 3.1 | 3.0 |
| • Oherwydd absenoldeb hirdymor (cyfnodau > 21 diwrnod) | 4.0 | 3.6 |

206 Cynyddodd lefelau salwch staff yn 2023-24 hanner diwrnod o'u cymharu â 2022-23 gan ragori ar ein targed o chwe diwrnod. Cynyddodd absenoldeb oherwydd salwch 0.1 diwrnod fesul Cyfwerth ag Amser Llawn ac absenoldeb hirdymor 0.4 fesul Cyfwerth ag Amser Llawn.

207 I helpu ein cyflogeion i reoli eu hiechyd, mae gennym drefniadau Sgrinio Iechyd, brechiadau blynyddol rhag y ffliw, Rhaglen Cynorthwyo Cyflogeion, Hyrwyddwyr Iechyd Meddwl, a rhaglen o ddigwyddiadau llesiant gyda 18 o hyrwyddwyr Llesiant ar draws y sefydliad yn rhoi cymorth i gyflogeion o ddydd i ddydd.

**Ein gweithlu**

| | **2023-24** | **2022-23** |
|---|---|---|
| | **%** | **%** |
| Patrymau gweithio | | |
| Cyflogeion rhan-amser fel canran o'r cyfanswm yn ôl rhywedd | 16.6 | 17.2 |
| • ar gyfer dynion | 8.6 | 8.6 |
| • ar gyfer menywod | 23.4 | 25.7 |
| • ar gyfer y rhai y mae'n well ganddynt beidio dweud | - | - |
| Math o gontract cyflogaeth | | |
| Canran y staff ar gontractau parhaol | 80.2 | 74.0 |
| Trosiant | | |
| Canran cyfradd trosiant staff yn flynyddol | 17.53 | 10.56 |

Mae'r graff canlynol yn dangos cyfrannau perthnasol y cyflogeion rhan-amser a llawn-amser yn ôl rhywedd ar draws y gweithlu cyfan.

208 Mae cyfran y cyflogeion rhan-amser wedi gostwng rhyw fymryn o'i chymharu â 2022-23 a chafwyd mân ostyngiad i gyfran y menywod sy'n dewis contractau rhan-amser.

209 Cynyddodd canran y staff ar gontractau cyflogaeth parhaol yn 2023-24 oherwydd i nifer o'n hyfforddeion blwyddyn olaf lwyddo i ennill contractau parhaol. Mae cyfran y staff â chontractau nad ydynt yn rhai parhaol yn bennaf yn cynnwys hyfforddeion graddedig a phrentisiaid ar gontractau hyfforddiant cyfnod penodol a'n staff archwilio tymhorol.

210 Cynyddodd ein cyfradd trosiant staff flynyddol yn 2023-24 yn sylweddol i 17.53% gan adlewyrchu'r farchnad anodd i weithwyr archwilio proffesiynol.

# Alldro adnoddau ac adroddiad yr archwilydd

## Crynodeb o alldro adnoddau 2023-24

**Mae'r wybodaeth ar dudalennau 83 i 87 yn cael ei harchwilio.**

211 Mae'r datganiad hwn yn darparu cymhariaeth rhwng yr Amcangyfrif[39] ar gyfer 2023-24, fel y pleidleisiwyd arno gan y Senedd, ag incwm a gwariant gwirioneddol ar gyfer y flwyddyn.

## Crynodeb o alldro adnoddau 2023-24

| | | Amcangyfrif 2023-24 | | | Alldro 2023-24 | | | | Alldro 2022-23 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Nodyn** | | **Gwariant Gros** | **Incwm** | **Cyfanswm Ne** | **Gwariant Gros** | **Incwm** | **Cyfanswm Net** | **Alldro net o'i gymharu â'r Amcangyfrif** | **Cyfanswm Net** |
| | | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | | **£'000** |
| SORO1 a 2 | Cyfanswm Adnoddau | 24,679 | (16,133) | 8,546 | 23,038 | (14,818) | 8,220 | (326) | 10,375 |
| SORO3 | Gofyniad arian parod net | 8,642 | - | 8,642 | 8,348 | - | 8,348 | (294) | 8,850 |

212 Yn codi o weithrediadau Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer blwyddyn ariannol 2023-24:

- roedd y cyfanswm alldro net ar adnoddau refeniw £269,000 yn llai na'r adnoddau net cymeradwy o £8,142,000,
- roedd yr alldro ar wariant cyfalaf £57,000 yn llai na'r gyllideb gyfalaf gymeradwy o £404,000.
- dangosir bod gweddill yr arian parod a ddelir gan Swyddfa Archwilio Cymru (£294,000) yn ddyledus i Gronfa Gyfunol Cymru a bydd yn cael ei ddychwelyd drwy addasiad gweinyddol yn 2024-25.

213 Darperir esboniad o gost-effeithlonrwydd yn Swyddfa Archwilio Cymru yn y crynodeb o reolaeth ariannol ar **dudalen 42**.

214 Llywodraethir incwm o ffioedd archwilio gan y Cynllun Ffioedd a gymeradwywyd gan y Senedd. Mae dadansoddiad o'r incwm hwn wedi'i gynnwys yn Nodyn 1 i'r Datganiadau Ariannol.

## Nodiadau i'r crynodeb o alldro adnoddau

39 Gan gynnwys Amcangyfrif Atodol 2023-24.

## Nodyn SORO1: dadansoddiad o alldro adnoddau net 2023-24

| Alldro 2022-23 | | Amcangyfrif 2023-24 | Alldro 2023-24 | Amrywiant | Rheswm dros amrywiannau sylweddol yn erbyn yr Amcangyfrif |
|---|---|---|---|---|---|
| £’000 | | £’000 | £’000 | £’000 | |
| | **Treuliau** | | | | |
| 18,252 | Costau staff | 20,054 | 18,961 | (1,093) | Mwy o drosiant staff yn ystod y flwyddyn |

| Alldro 2022-23 | | Amcangyfrif 2023-24 | Alldro 2023-24 | Amrywiant | Rheswm dros amrywiannau sylweddol yn erbyn yr Amcangyfrif |
|---|---|---|---|---|---|
| **£'000** | | **£'000** | **£'000** | **£'000** | |
| 157 | Teithio a chynhaliaeth | 435 | 378 | (57) | Llai o deithio na'r disgwyl |
| 798 | Llety | 754 | 306 | (448) | Yn cynnwys rhyddhau £402,000 o ddarpariaeth dadfeiliadau |
| 503 | TAW Anadferadwy | 500 | 454 | (46) | Yn adlewyrchu llai o wariant cyffredinol |
| 546 | TGCh | 699 | 572 | (127) | Yn cynnwys ail-negodi rhai contractau meddalwedd ac effaith cyfraddau cyfnewid |
| 300 | Llywodraethu Archwilio Cymru | 320 | 320 | - | |
| 298 | Hyfforddiant allanol | 341 | 352 | 11 | |
| 158 | Costau'r Fenter Twyll | 95 | 80 | (15) | |
| 1,146 | Cyflenwadau a gwasanaethau eraill | 1,077 | 1,268 | 191 | Roedd yr amcangyfrif yn cynnwys targed arbedion o £500,000 y'i cyflawnwyd yn rhannol o feysydd eraill yn y gyllideb |
| **22,158** | **Cyfanswm y Treuliau** | **24,275** | **22,691** | **(1,584)** | |
| | **Incwm** | | | | |
| (13,204) | Ffioedd archwilio | (15,205) | (13,895) | 1,310 | Effaith trosiant staff uwch |
| (1,047) | Ffioedd ardystio grantiau | (928) | (847) | 81 | Effaith trosiant staff uwch |
| (3) | Incwm arall | - | (76) | (76) | Yn cynnwys costau teithio a adferwyd gan gleientiaid |
| **(14,254)** | **Cyfanswm incwm** | **(16,133)** | **(14,818)** | **1,315** | |
| **7,904** | **Adnoddau refeniw net** | **8,142** | **7,873** | **(269)** | |
| **2,471** | **Adnoddau cyfalaf** | **404** | **347** | **(57)** | |

### Nodyn SORO 2 – Amcangyfrif Atodol 2023-24

Cymeradwyodd y Senedd Amcangyfrif Atodol ar gyfer Archwilio Cymru yn 2023-24. Darparodd hwn £94,000 o gyllid adnoddau nad ydynt yn arian parod ar gyfer y goblygiadau IFRS16 yn gysylltiedig â symud ein swyddfa Gogledd Cymru.

### Nodyn SORO3: cysoni'r alldro adnoddau net â'r gofyniad arian parod net

| | Alldro 2023-24 | | | Alldro 2022-23 |
|---|---|---|---|---|
| | Amcangyfrif | | Amrywiant | |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Adnoddau refeniw | 8,142 | 7,873 | (269) | 7,904 |
| Adnoddau cyfalaf | 404 | 347 | (57) | 2,471 |
| **Addasiadau** | | | | |
| Eitemau nad ydynt yn arian parod (dibrisiant a thaliadau llog) | (360) | (286) | 74 | (420) |
| Eitemau nad ydynt yn arian parod (rhwymedigaethau prydlesi) | (280) | (243) | 37 | 80 |
| Taliadau rhent prydlesi | 280 | 37 | (243) | - |
| Cyfalafu ased ROU | (94) | (93) | 1 | (1,916) |
| Symudiadau mewn cyfalaf gweithio heblaw arian parod: | | | | |
| • Cynnydd/(gostyngiad) i symiau derbyniadwy a gwaith ar y gweill | - | 2,142 | 2,142 | (203) |
| • (Cynnydd)/gostyngiad mewn symiau taladwy ac incwm gohiriedig | 50 | (2,201) | (2,251) | 69 |
| • Cynnydd/(gostyngiad) i ddarpariaethau | 500 | 772 | 272 | 865 |
| **Cyfanswm gofyniad arian parod net** | **8,642** | **8,348** | **(294)** | **8,850** |

215 Mae'r Senedd yn pleidleisio'n flynyddol ar wariant ac incwm Swyddfa Archwilio Cymru a gyllidebwyd ar gyfer y dyfodol.

216 Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol yn ymwybodol o unrhyw rwymedigaethau digwyddiadol â thebygolrwydd bychan a fydd yn effeithio ar gynlluniau gwariant hirdymor.

217 Datgelir unrhyw daliadau arbennig a cholledion y mae'n rhaid eu datgelu yn 2023-24 yn Nodyn 14 i'r Datganiadau Ariannol.

# Adroddiad yr archwilwyr annibynnol i'r Senedd

**Barn ar y datganiadau ariannol**

218 Rydym yn ardystio ein bod wedi archwilio datganiadau ariannol Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024 dan Atodlen 1 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013. Mae'r datganiadau ariannol hyn yn cynnwys y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, y Datganiad o Lifoedd Arian Parod, y Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr, a nodiadau cysylltiedig gan gynnwys polisïau cyfrifyddu arwyddocaol. Rydym hefyd wedi archwilio'r Crynodeb o Alldro Adnoddau a nodiadau cysylltiedig a'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol a Staff a ddisgrifir yn yr adroddiad fel gwybodaeth a archwiliwyd.

219 Cyfarwyddiadau Trysorlys EF a gyhoeddwyd dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 yw'r fframwaith adrodd ariannol a weithredwyd wrth eu paratoi.

220 Yn ein barn ni, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa Swyddfa Archwilio Cymru ar 31 Mawrth 2024 ac o'i chost weithredu net ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar y dyddiad hwnnw; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EF a gyhoeddwyd dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

**Barn rheoleidd-dra ar y datganiadau ariannol**

221 Rydym wedi gwneud gwaith, fel sy'n ofynnol o dan Atodlen 1 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, i gael sicrwydd rhesymol bod gwariant y mae'r datganiad yn ymwneud ag ef wedi cael ei gyflawni'n gyfreithlon ac yn unol â'r awdurdod sy'n ei lywodraethu ac nad yw arian y mae'r datganiad yn ymwneud ag ef, a dderbyniwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru at ddiben penodol neu at ddibenion penodol, wedi cael ei wario ac eithrio at y diben hwnnw neu'r dibenion hynny.

222 Yn ein barn ni, ym mhob ffordd berthnasol:

- gwnaed y gwariant y mae'r datganiad yn ymwneud ag ef yn gyfreithlon ac yn unol â'r awdurdod sy'n ei lywodraethu; ac
- nad yw'r arian y mae'r datganiad yn ymwneud ag ef, a dderbyniwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru at ddiben penodol neu at ddibenion penodol, wedi cael ei wario ac eithrio at y diben hwnnw neu'r dibenion hynny.

**Sail y farn ar y datganiadau ariannol**

223 Cynhaliwyd ein harchwiliad yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (yn y DU) (ISAs (UK)) a'r gyfraith berthnasol. Disgrifir ein cyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yn yr adran o'n hadroddiad sy'n nodi cyfrifoldebau'r Archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol. Rydym yn annibynnol ar Swyddfa Archwilio Cymru yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn.

224 Credwn fod y dystiolaeth archwilio yr ydym wedi ei chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'n barn.

**Sail y farn rheoleidd-dra ar y datganiadau ariannol**

225 Mae'n ofynnol i ni gael tystiolaeth ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant y mae'r datganiad yn ymwneud ag ef wedi cael ei gyflawni'n gyfreithlon ac yn unol â'r awdurdod sy'n ei lywodraethu ac nad yw'r arian hwnnw y mae'r datganiad yn ymwneud ag ef, a dderbyniwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru at ddiben penodol neu at ddibenion penodol, wedi cael ei wario ac eithrio at y diben hwnnw neu'r dibenion hynny. Rydym wedi cyflawni ein gwaith yn unol â'r Datganiad o Arfer a Argymhellir, Nodyn Ymarfer 10 archwilio datganiadau ariannol cyrff y sector cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig yn hyn o beth.

**Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol**

226 Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rydym wedi dod i'r casgliad bod defnydd Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru o sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

227 Yn seiliedig ar y gwaith a wnaed gennym, nid ydym wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol sy'n ymwneud â digwyddiadau nac amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu Swyddfa Archwilio Cymru i barhau fel busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r adeg pan awdurdodir cyhoeddiad y datganiadau ariannol.

228 Disgrifir ein cyfrifoldebau ni a chyfrifoldebau Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru o ran busnes gweithredol yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

**Gwybodaeth arall**

229 Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth yn yr adroddiad blynyddol, heblaw am y datganiadau ariannol a'n hadroddiad ni fel archwilwyr ar y rhain. Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall yn yr adroddiad ar berfformiad a'r adroddiad atebolrwydd. Nid yw ein barn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall a, heblaw i'r graddau a nodir yn benodol fel arall yn ein hadroddiad, nid ydym yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar yr wybodaeth arall honno.

230 Ein cyfrifoldeb ni yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn berthnasol anghyson â'r datganiadau ariannol neu wybodaeth a gafwyd gennym wrth gyflawni'r archwiliad, neu'n ymddangos fel arall fel pe bai wedi cael ei cham-ddatgan yn berthnasol. Os ydym yn canfod anghysonderau perthnasol o'r fath neu wybodaeth berthnasol o'r fath sy'n ymddangos fel pe bai wedi cael ei chamddatgan, mae'n ofynnol i ni benderfynu a yw hyn yn achosi camddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Yn seiliedig ar y gwaith yr ydym wedi'i wneud, os ydym yn dod i'r casgliad bod yr wybodaeth arall hon wedi'i chamddatgan yn berthnasol, mae'n ofynnol i ni nodi'r ffaith honno.

231 Nid oes unrhyw beth gennym i'w nodi yn hyn o beth.

**Barn ar faterion eraill**

232 Yn ein barn ni:

- mae'r Crynodeb o Alldro Adnoddau a'r rhan o'r Adroddiad Atebolrwydd sydd i'w harchwilio wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EF a gyhoeddwyd dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013; ac
- mae'r wybodaeth yn yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol.

## Cyfrifoldebau Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru

233 Fel yr esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu ar dudalen 51, Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fod wedi'u hargyhoeddi eu bod yn rhoi darlun cywir a theg, ac am ba bynnag reolaeth fewnol sy'n angenrheidiol ym marn Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru i allu paratoi datganiadau ariannol heb unrhyw gamddatganiadau perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall.

234 Wrth baratoi'r datganiad cyfrifon, mae Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru'n gyfrifol am asesu gallu Swyddfa Archwilio Cymru i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel y bo'n gymwys, faterion sy'n ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni bai bod y Senedd yn bwriadu diddymu Swyddfa Archwilio Cymru heb barhau â'i gweithrediadau neu nad oes ganddi unrhyw ddewis realistig ond gwneud hynny.

235 Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol hefyd am sicrhau bod y gwariant y mae'r datganiad yn ymwneud ag ef wedi cael ei gyflawni'n gyfreithlon ac yn unol â'r awdurdod sy'n ei lywodraethu ac nad yw'r arian hwnnw y mae'r datganiad yn ymwneud ag ef, a dderbyniwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru at ddiben penodol neu at ddibenion penodol, wedi cael ei wario ac eithrio at y diben hwnnw neu'r dibenion hynny.

## Cyfrifoldebau'r Archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

236 Ein hamcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhai heb unrhyw gamddatganiad perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys ein barn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n sicrhau y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISAs (UK)) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fo'n bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac ystyrir eu bod yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, gellid disgwyl yn rhesymol iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

### I ba raddau yr ystyriwyd fod yr archwiliad yn gallu canfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll

237 Achosion o ddiffyg cydymffurfiad â deddfau a rheoliadau yw afreoleidd-dra. Amcanion ein harchwiliad yw cael digon o dystiolaeth archwilio briodol ynghylch chydymffurfio â deddfau a rheoliadau sy'n cael effaith uniongyrchol ar bennu symiau a datgeliadau perthnasol yn y datganiadau ariannol, i gyflawni gweithdrefnau archwilio i helpu i ganfod achosion o ddiffyg cydymffurfiad â deddfau a rheoliadau eraill a allai gael effaith berthnasol ar y datganiadau ariannol, ac ymateb yn briodol i achosion a ganfuwyd neu achosion tybiedig o ddiffyg cydymffurfiad â deddfau a rheoliadau a nodwyd yn ystod yr archwiliad.

238 O ran twyll, amcanion ein harchwiliad yw nodi ac asesu'r risg bod y datganiadau ariannol wedi'u cam-ddatgan yn berthnasol oherwydd twyll, cael digon o dystiolaeth archwilio briodol ynghylch y risgiau o gamddatganiad perthnasol oherwydd twyll ar sail yr asesiadau trwy ddylunio a gweithredu ymatebion priodol ac ymateb yn briodol i dwyll gwirioneddol neu dwyll tybiedig a ganfuwyd yn ystod yr archwiliad.

239 Fodd bynnag, y rheolwyr, gyda goruchwyliaeth y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, sy'n bennaf gyfrifol am sicrhau bod gweithrediadau'r endid yn cael eu cyflawni yn unol â darpariaethau deddfau a rheoliadau ac am atal a chanfod twyll.

240 Wrth nodi ac asesu risgiau o gamddatganiad perthnasol o ran afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, fe wnaeth y tîm ymgysylltu ag archwiliadau:

- gael dealltwriaeth o swyddogaeth Swyddfa Archwilio Cymru, gan gynnwys y fframwaith cyfreithiol a rheoleiddio y mae Swyddfa Archwilio Cymru yn gweithredu yn unol ag ef a sut y mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cydymffurfio â'r fframwaith cyfreithiol a rheoleiddio;
- holi'r rheolwyr, a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, am eu gwaith eu hunain o nodi ac asesu'r risgiau o afreoleidd-dra, gan gynnwys unrhyw achosion gwirioneddol, tybiedig neu honedig hysbys o dwyll; a
- thrafod materion ynglŷn â diffyg cydymffurfiad â deddfau a rheoliadau a sut y gallai twyll ddigwydd gan gynnwys asesiad o sut a ble y gallai'r datganiadau ariannol fod yn agored i dwyll.

241 O ganlyniad i'r gweithdrefnau hyn, rydym o'r farn mai'r deddfau a'r rheoliadau mwyaf arwyddocaol sy'n cael effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol yw cyfarwyddiadau Trysorlys EF a gyhoeddwyd dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 ac sy'n cwmpasu Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth (FReM 23-24) sy'n gweithredu Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol a fabwysiadwyd yn y DU. Cyflawnwyd

gweithdrefnau archwilio gennym i ganfod achosion o ddiffyg cydymffurfiad a allai gael effaith berthnasol ar y datganiadau ariannol a oedd yn cynnwys adolygu datgeliadau yn y datganiadau ariannol.

242 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a Deddf Diogelu Data 2018 yw'r deddfau a'r rheoliadau mwyaf arwyddocaol sy'n cael effaith anuniongyrchol ar y datganiadau ariannol. Cyflawnwyd gweithdrefnau archwilio gennym i holi'r rheolwyr a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a yw Swyddfa Archwilio Cymru yn cydymffurfio â'r deddfau a'r rheoliadau hyn, archwiliwyd cofnodion pwyllgorau ac adolygwyd datgeliadau yn y datganiadau ariannol i chwilio am unrhyw achosion posibl o'u torri.

243 Nododd y tîm ymgysylltu ag archwiliadau mai'r risg o wrthwneud rheolaethau gan reolwyr a chydnabod refeniw oedd y meysydd lle'r oedd y datganiadau ariannol yn fwyaf agored i gamddatganiadau perthnasol oherwydd twyll. Roedd y gweithdrefnau archwilio a gyflawnwyd yn cynnwys, ymhlith eraill, profi cofnodion dyddlyfr a wnaed â llaw ac addasiadau eraill a gwerthuso'r rhesymeg fusnes o ran unrhyw drafodion arwyddocaol, anarferol a thrafodion a gofnodwyd y tu allan i gwrs arferol busnes, cytuno bod refeniw wedi'i gydnabod yn unol ag IFRS15 ac IAS37, asesu a herio'r amcangyfrifon a wnaed gan reolwyr o ran eu hasesiad a digonolrwydd darpariaethau ar gyfer symiau anadferadwy, sy'n cynnwys adolygu a yw digwyddiadau hyd at ddyddiad adroddiad yr archwilwyr yn ategu'r meini prawf cydnabod diwedd blwyddyn ac yn profi cywirdeb a dibynadwyedd data y mae'r rheolwyr wedi dibynnu arnynt.

244 Ceir disgrifiad pellach o'n cyfrifoldebau am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn: http://www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'n hadroddiad archwilio.

### Cyfrifoldebau'r Archwilwyr am farn rheoleidd-dra ar y datganiadau ariannol

245 Rydym hefyd yn gyfrifol am roi barn sicrwydd rhesymol bod gwariant y mae'r datganiad yn ymwneud ag ef wedi cael ei gyflawni'n gyfreithlon ac yn unol â'r awdurdod sy'n ei lywodraethu ac nad yw'r arian hwnnw y mae'r datganiad yn ymwneud ag ef, a dderbyniwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru at ddiben penodol neu at ddibenion penodol, wedi cael ei wario ac eithrio at y diben hwnnw neu at y dibenion hynny.

## Defnyddio ein hadroddiad

246 Caiff yr adroddiad hwn ei lunio ar gyfer Senedd Cymru yn unig, y'i cyfeirir ati yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 ac nid at unrhyw ddiben arall. Cyflawnwyd ein gwaith archwilio fel y gallwn ddatgan i'r Senedd y materion hynny y mae'n ofynnol i ni eu datgan iddi mewn adroddiad archwilydd ac nid at unrhyw ddiben arall. I'r graddau llawnaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb i unrhyw un ac eithrio Swyddfa Archwilio Cymru neu'r Senedd am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn, nac am y barnau yr ydym wedi'u ffurfio.

Mae RSM UK Audit LLP wedi ardystio'r cyfrifon hyn ac adrodd arnynt yn eu ffurf wreiddiol. Cyfieithiad o'r fersiwn Saesneg wreiddiol yw'r fersiwn hon. Swyddfa Archwilio Cymru, ac nid RSM UK Audit LLP, sy'n gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad hwn.

RSM UK Audit LLP

I'w gadarnhau

Statutory Auditors

2nd Floor

1 The Square

Temple Key

Bristol

BS1 6DG

# Datganiadau Ariannol

Y datganiadau ariannol ar gyfer Swyddfa Archwilio Cymru, ynghyd â nodiadau ategol ac eglurhaol.

03

## Datganiad o wariant net cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024

| | | 2023-24 | 2022-23 |
|---|---|---|---|
| | **Nodyn** | **£'000** | **£'000** |
| **Gwariant** | | | |
| Staff a chostau cysylltiedig | Adroddiad ar staff[40] | 19,610 | 18,552 |
| Gwasanaethau a brynwyd i mewn | Adroddiad ar staff | 222 | 268 |
| Costau gweithredu eraill | 3 | 2,791 | 3,332 |
| | | **22,623** | **22,152** |
| **Incwm** | | | |
| Incwm o ffioedd archwilio | 1 | (14,742) | (14,251) |
| Incwm gweithredu arall | 2 | (76) | (3) |
| | | **(14,818)** | **(14,254)** |
| Llog taladwy | | **68** | **6** |
| **Cyfanswm gwariant net cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn** | | **7,873** | **7,904** |

**Mae'r nodiadau sy'n dilyn ar dudalennau 96 i 121 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn**

247 Nid oedd unrhyw weithrediadau, caffaeliadau na gwarediadau wedi'u terfynu yn ystod y cyfnod nac unrhyw enillion na cholledion nas cydnabyddir.

40 Nodyn ar gostau staff ar dudalen 79 yr adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol a Staff.

## Datganiad o'r sefyllfa ariannol ar 31 Mawrth 2024

| | Nodyn | 31 Mawrth 2024 £'000 | 31 Mawrth 2023 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Asedau anghyfredol** | | | |
| Eiddo, offer a chyfarpar | 4 | 2,402 | 2,560 |
| Asedau anniriaethol | 5 | 301 | 257 |
| | | **2,703** | **2,817** |
| **Asedau cyfredol** | | | |
| Symiau masnach derbyniadwy a gwaith ar y gweill | 6 | 5,902 | 4,059 |
| Symiau derbyniadwy eraill | 7 | 687 | 388 |
| Arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod | 8 | 294 | 509 |
| | | **6,883** | **4,956** |
| **Cyfanswm asedau** | | **9,586** | **7,773** |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | |
| Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill | 9 | (1,296) | (1,495) |
| Incwm gohiriedig | 10 | (6,490) | (4,090) |
| Darpariaethau | 11 | (46) | (818) |
| Rhwymedigaethau prydlesi | 12 | (43) | (50) |
| Cronfa Gyfunol Cymru | SORO | (294) | (509) |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol** | | **(8,169)** | **(6,962)** |
| **Cyfanswm asedau namyn rhwymedigaethau cyfredol** | | **1,417** | **811** |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol** | | | |
| Darpariaethau | 11 | (281) | (257) |
| Rhwymedigaethau prydlesi | 12 | (1,838) | (1,731) |

| | Nodyn | 31 Mawrth 2024 £'000 | 31 Mawrth 2023 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Cyfanswm rhwymedigaethau anghyfredol** | | **(2,119)** | **(1,988)** |
| **Cyfanswm asedau namyn rhwymedigaethau** | | **(702)** | **(1,177)** |
| **Ecwiti trethdalwyr** | | | |
| Y gronfa gyffredinol | | (702) | (1,177) |
| **Cyfanswm ecwiti trethdalwyr** | | **(702)** | **(1,177)** |

**Mae'r nodiadau sy'n dilyn ar dudalennau 98 i 121 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn**

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol ar dudalennau 95 i 121 gan Swyddfa Archwilio Cymru ac fe'u hawdurdodwyd i'w cyhoeddi ar 31 Gorffennaf 2024 ac fe'u llofnodwyd ar ei rhan gan:



Adrian Crompton

Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r Swyddog Cyfrifyddu

5 Awst 2024

## Datganiad o lifoedd arian parod ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024

| | Nodyn | 31 Mawrth 2024 £'000 | 31 Mawrth 2023 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Llifoedd arian parod o weithgareddau gweithredu** | | | |
| Gwariant net cynhwysfawr | | (7,873) | (7,904) |
| Addasiadau ar gyfer trafodion nad oeddent mewn arian parod: dibrisiant, amorteiddiad, llog a cholled wrth waredu asedau | 3 | 529 | 420 |
| Gostyngiad i ddarpariaethau | 11 | (772) | (865) |
| **Newidiadau i gyfalaf gweithio** | | | |
| (Cynnydd)/gostyngiad i symiau masnach derbyniadwy, gwaith ar y gweill a symiau derbyniadwy eraill | 6,7 | (2,142) | 203 |
| Gostyngiad i symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill | 9 | (199) | (524) |
| Cynnydd i incwm gohiriedig | 10 | 2,400 | 455 |
| **All-lif arian parod net o weithgareddau gweithredu** | | **(8,057)** | **(8,215)** |
| **Llifoedd arian parod o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Prynu eiddo, offer a chyfarpar | 4 | (146) | (487) |
| Prynu asedau anniriaethol | 5 | (108) | (68) |
| **All-lif arian parod net o weithgareddau buddsoddi** | | **(254)** | **(555)** |

| | Nodyn | 31 Mawrth 2024 £'000 | 31 Mawrth 2023 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Llifoedd arian parod o weithgareddau cyllido** | | | |
| Cronfa Gyfunol Cymru | | 8,642 | 9,359 |
| Ad-dalu i Gronfa Gyfunol Cymru | | (509) | (76) |
| Elfen gyfalaf ar daliadau rhwymedigaeth prydlesi | | (36) | (74) |
| Elfen llog ar daliadau rhwymedigaeth prydlesi | | (1) | (6) |
| **Cyllido net** | | **8,096** | **9,203** |
| **Symudiadau i arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod** | | **(215)** | **433** |

**Mae'r nodiadau sy'n dilyn ar dudalennau 101 i 121 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn**

## Datganiad o newidiadau i ecwiti trethdalwyr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024

| | £'000 |
|---|---|
| **Balans ar 31 Mawrth 2022** | **(2,123)** |
| Newidiadau i ecwiti trethdalwyr 2022-23 | |
| - Cyfanswm gwariant net cynhwysfawr | (7,904) |
| - Cyllid Cronfa Gyfunol Cymru | 9,359 |
| | (668) |
| Yn ddyledus i Gronfa Gyfunol Cymru | (509) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2023** | **(1,177)** |
| Newidiadau i ecwiti trethdalwyr 2023-24 | |
| Cyfanswm gwariant net cynhwysfawr | (7,873) |
| Cyllid Cronfa Gyfunol Cymru | 8,642 |
| | (408) |
| Yn ddyledus i Gronfa Gyfunol Cymru | (294) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2024** | **(702)** |

**Mae'r nodiadau sy'n dilyn ar dudalennau 101 i 121 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn**

## Nodiadau i'r datganiadau ariannol

248 Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â Llawlyfr Adrodd Ariannol (FreM) 2023-24, a gyhoeddwyd gan yr awdurdodau perthnasol.

### Sail y paratoi

249 Mae'r polisïau cyfrifyddu sydd wedi'u cynnwys yn y Llawlyfr Adrodd Ariannol yn gweithredu Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol a fabwysiadwyd gan y DU fel y'u haddaswyd neu y'u dehonglwyd ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus.

250 Caiff datganiadau ariannol eu paratoi dan y confensiwn cost hanesyddol. Cyflwynir ffigurau mewn punnoedd sterling, sef arian swyddogaethol Swyddfa Archwilio Cymru ac fe'u talgrynnir i'r £1,000 agosaf.

251 Caiff y datganiadau ariannol eu paratoi ar sail busnes gweithredol fel y nodir isod:

- mae Swyddfa Archwilio Cymru'n gweithio yn unol â threfniadau cyllid blynyddol yn ôl statud. Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 yn ei gwneud yn mynnu bod yn **rhaid** i Swyddfa Archwilio Cymru ddarparu adnoddau ar gyfer arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol fel sy'n ofynnol gan yr Archwilydd Cyffredinol. Bydd y Senedd yn trefnu bod yr adnoddau hyn ar gael (cyllid y pleidleisir arno).
- mae'r ddeddfwriaeth yn datgan hefyd bod yn rhaid i'r Senedd ystyried Amcangyfrif Swyddfa Archwilio Cymru yn flynyddol a bod yn rhaid iddi ystyried unrhyw sylwadau y mae Swyddfa Archwilio Cymru yn eu gwneud os yw'n dymuno newid yr Amcangyfrif hwn.
- bydd unrhyw newidiadau heb eu cynllunio i incwm a gwariant yn ystod blwyddyn ariannol yn cael sylw trwy Amcangyfrif Atodol y mae'n rhaid iddo gael ei ystyried gan y Senedd.
- er mai dim ond am naw mis ar ôl dyddiad llofnodi'r datganiadau hyn y mae cyllid y pleidleisir arno wedi cael ei gymeradwyo, bydd Amcangyfrif ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol yn cael ei gyflwyno i Bwyllgor Cyllid y Senedd yn hydref y flwyddyn gyfredol. Disgwylir felly y bydd gan Swyddfa Archwilio Cymru ddigon o arian i barhau i fod yn weithredol hyd y gellir rhagweld.

252 Ni dderbyniodd Swyddfa Archwilio Cymru unrhyw incwm a fyddai wedi bod yn agored i dreth gorfforaethol yn 2023-24.

## Amcangyfrifon cyfrifyddu a meysydd dyfarnu hollbwysig

### Amcangyfrif rheoli

Mae **cydnabod refeniw** yn seiliedig ar amser a briodolir i brosiectau hyd at y gyllideb y cytunwyd arni ar gyfer pob prosiect. Cynhelir asesiad ar ddiwedd y flwyddyn i ystyried rhesymoldeb incwm a gydnabuwyd gan ystyried cost cwblhau prosiectau archwilio.

Cydnabyddir incwm yn gynyddol wrth i'r rhwymedigaethau perfformiad sy'n gysylltiedig ag ymrwymiadau archwilio gael eu bodloni dros amser.

### Maes dyfarnu

Mae cyfrifo cost cwblhau prosiectau archwilio'n cynnwys amcangyfrif a dyfarniad.

Mae'r polisi cyfrifyddu hwn yn effeithio'n uniongyrchol ar brisio incwm o ffioedd archwilio (**Nodyn 1**) gwaith ar y gweill (**Nodyn 6**) ac incwm gohiriedig (**Nodyn 10**) yn y datganiadau ariannol hyn.

### Amcangyfrif rheoli

Gwneir **darpariaethau** lle mae'n fwy tebygol nag annhebygol, ym marn y Swyddog Cyfrifyddu, bod rhwymedigaeth ariannol yn bodoli na ellir ei amcangyfrif yn gywir ar hyn o bryd.

Mae darpariaethau wedi cael eu sefydlu ar gyfer:

- dadfeiliadau lle mae'r ddarpariaeth yn cynrychioli amcangyfrif o'r costau y gallai Swyddfa Archwilio Cymru eu hysgwyddo i atgyweirio'r eiddo a brydleswyd ganddi ar ddiwedd y prydlesi. Cyfrifwyd y ddarpariaeth hon yn seiliedig ar amcangyfrif o gost y gwaith.

Gweler **Nodyn 11** am ragor o wybodaeth

## Safonau cyfrifyddu newydd

253 Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn datgelu safonau cyfrifyddu na weithredwyd eto ac yn asesu'r effaith bosibl y byddai'r gweithrediad cychwynnol hwnnw yn ei chael ar y datganiadau ariannol. Nid oedd unrhyw safonau a oedd yn bodloni'r meini prawf hyn ar gyfer 2023-24.

## Nodyn 1 (a): Segmentau gweithredu

254 Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn adrodd ar gostau ac incwm ar draws ei thri segment gweithredu yn seiliedig ar wariant uniongyrchol heb ddosrannu gorbenion o gwbl. Ariennir y gost net sy'n deillio o hynny yn uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru.

255 Oherwydd natur integredig gweithgareddau Swyddfa Archwilio Cymru, nid yw'n bosibl gwahaniaethu mewn ffordd ystyrlon rhwng asedau a rhwymedigaethau y gellir eu priodoli i segmentau gweithredu gwahanol ac felly nid yw'r Tîm Gweithredu yn cael gwybodaeth am asedau a rhwymedigaethau yn ôl segment gweithredu. Am y rheswm hwn, yn unol ag IFRS 8 (Segmentau Gweithredu), ni chyflwynir unrhyw ddadansoddiad o'r fath yma.

256 Mae'r Gwasanaethau Archwilio yn cynnwys y costau uniongyrchol sy'n gysylltiedig â'r is-adrannau Archwilio Ariannol ac Archwilio Perfformiad blaenorol ynghyd â swyddogaethau cymorth uniongyrchol fel Datblygu a Chanllawiau Archwilio.

257 Mae'r Gwasanaethau Corfforaethol yn cynnwys ein timau Gwasanaethau Busnes, y Gyfraith a Moeseg, Adnoddau Dynol, Cyllid a TGCh. Mae hefyd yn cynnwys costau swyddfeydd a darpariaeth TGCh.

258 Mae Cyfathrebu a Newid yn cynnwys y timau Cyfathrebu a'r Gyfnewidfa Arfer Da, Cynllunio ac Adrodd a Newid.

**2023-24**

| | Gwasanaethau Archwilio | Gwasanaethau Corfforaethol | Cyfathrebu a Newid | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Ffioedd archwilio[41] | (14,742) | - | - | (14,742) |
| Incwm arall | - | (76) | - | (76) |
| Cyfanswm incwm | (14,742) | (76) | - | (14,818) |
| Costau staff | 15,659 | 2,382 | 1,569 | 19,610 |
| Costau nad ydynt yn gostau staff | 780 | 2,035 | 266 | 3,081 |
| Cyfanswm Gwariant | 16,439 | 4,417 | 1,835 | 22,691 |
| Gwariant Net | 1,697 | 4,341 | 1,835 | 7,873 |

41 Gweler nodyn 1(b). Caiff yr holl refeniw ei gynhyrchu yn y DU.

**2022-23**

| | Gwasanaethau Archwilio | Gwasanaethau Corfforaethol | Cyfathrebu a Newid | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Ffioedd archwilio | (14,251) | - | - | (14,251) |
| Incwm arall | - | (3) | - | (3) |
| Cyfanswm incwm | (14,251) | (3) | - | (14,254) |
| Costau staff | 14,669 | 2,481 | 1,402 | 18,552 |
| Costau nad ydynt yn gostau staff | 615 | 2,760 | 231 | 3,606 |
| Cyfanswm Gwariant | 15,284 | 5,241 | 1,633 | 22,158 |
| Gwariant Net | 1,033 | 5,238 | 1,633 | 7,904 |

**Nodyn 1 (b): Dadansoddi incwm o ffioedd archwilio**

| | 2023-24 | | | 2022-23 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Archwilio Ariannol | Archwilio Perfformiad | Cyfanswm | Archwilio Ariannol | Archwilio Perfformiad | Cyfanswm |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Archwilio Llywodraeth Leol | (6,172) | (1,927) | (8,099) | (5,186) | (2,209) | (7,395) |
| Ardystio Grantiau Llywodraeth Leol | (847) | - | (847) | (1,047) | - | (1,047) |
| Archwilio'r GIG | (2,176) | (1,386) | (3,562) | (2,204) | (1,663) | (3,867) |
| Archwilio Llywodraeth Ganolog | (2,234) | - | (2,234) | (1,942) | - | (1,942) |
| | (11,429) | (3,313) | (14,742) | (10,379) | (3,872) | (14,251) |

259 Caiff ffioedd a godir am waith archwilio'u pennu yn unol â Chynllun Ffioedd y cytunwyd arni gan Bwyllgor Cyllid y Senedd.

260 Caiff incwm gros o ffioedd ac incwm gweithredu arall eu cydnabod ar werth gwaith y gellir codi tâl amdano heb gynnwys TAW. Caiff y gwerth hwn ei asesu gan gyfeirio at daliadau am amser a faint o'r gwaith ar brosiectau sydd wedi'i gwblhau.

261 Caiff incwm gweithredu ei gredydu i'r flwyddyn gyfrifon pan wneir y gwaith. Caiff anfonebau a godir cyn bod y gwaith wedi cael ei wneud eu dosbarthu fel incwm gohiriedig (gweler Nodyn 10). Caiff gwaith a wneir cyn cael yr incwm ei ddosbarthu fel gwaith ar y gweill (gweler **Nodyn 6**).

262 Caiff yr holl refeniw ei gynhyrchu yn y DU.

263 Nid yw cyllid o Gronfa Gyfunol Cymru yn grant uniongyrchol gan y llywodraeth ac fe'i credydir yn uniongyrchol i ecwiti trethdalwyr.

264 Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi cymhwyso gofynion IFRS 15 i incwm a enillwyd o archwiliadau y telir ffioedd amdanynt a gwasanaethau eraill.

265 Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi penderfynu bod un rhwymedigaeth cyflawni ar gyfer pob ymrwymiad a nodir fel amcan yr aseiniadau hyn mewn Llythyr Ymrwymo. Yn achos archwiliadau, caiff allbynnau eraill, fel adroddiadau interim ac adroddiadau i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu yn y corff a archwilir, eu cynhyrchu yn ystod aseiniadau archwilio, ond mae'r allbynnau eraill hyn yn rhan annatod o'r farn archwilio: mae cydgysylltiad agos iawn rhyngddynt a darparu'r dystysgrif neu adroddiad archwilio, felly nid ydynt yn gymwys fel rhwymedigaethau cyflawni ar wahân.

266 Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi penderfynu bod y rhwymedigaethau cyflawni a ddisgrifir uchod yn cael eu bodloni dros amser yn hytrach nag ar adeg benodol. Y rheswm dros hyn yw nad yw cyflawni'r ymrwymiad yn creu ased â defnydd arall i Swyddfa Archwilio Cymru a bod gan Swyddfa Archwilio Cymru hawl orfodadwy i daliad am yr hyn a gyflawnwyd hyd yma. Mae mwyafrif yr archwiliadau ar gylch blynyddol. Cytunir ar y ffi (sy'n seiliedig ar gostau a amcangyfrifwyd) a'r drefn anfonebu rhwng timau'r aseiniadau unigol a'r cleient. Mae gan Swyddfa Archwilio Cymru hawl i adfer costau o ran gwaith a gwblhawyd hyd yma ar unrhyw gam yn ystod yr archwiliad.

267 Cydnabyddir refeniw o ran y ganran a gwblhawyd yn erbyn costau a gyllidebwyd. Cydnabyddir incwm wrth i'r gwasanaethau gael eu darparu, a bennir trwy gyfeirio at gyfran y costau a gyllidebwyd sydd wedi cael eu gwario hyd yma ar gyfer pob ymrwymiad, namyn darpariaeth ar gyfer unrhyw symiau anadferadwy. Mae hyn yn darparu darlun cywir o'r trosglwyddiad o wasanaethau, gan mai natur y gwaith yw bod costau amser staff yn cynrychioli cynnydd tuag at fodloni'r rhwymedigaeth gyflawni. Ceir perthynas uniongyrchol rhwng y mewnbynnau hyn a throsglwyddo gwasanaethau i'r cleient archwilio.

## Nodyn 2: Incwm gweithredu arall

| | 2023-24 | 2022-23 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Incwm gweithredu arall[42] | (76) | (3) |
| | (76) | (3) |

## Nodyn 3: Costau gweithredu eraill

| | 2023-24 | 2022-23 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Swyddfeydd | | |
| Costau prydlesi rhent | (344)[43] | 406 |
| Costau eraill swyddfeydd | 406 | 392 |
| Cyflenwadau a gwasanaethau | 1,477 | 1,537 |
| Recriwtio | 40 | 34 |
| Dibrisiant ac amorteiddiad | 461 | 398 |
| Ffioedd proffesiynol | | |
| • Gwasanaethau archwilio mewnol | 41 | 13 |
| • Gwasanaethau archwilio allanol | 58 | 58 |
| • Ffioedd proffesiynol eraill | 37 | 39 |
| • Teithio a chynhaliaeth staff | 263 | 157 |
| Dysgu a datblygu staff | 352 | 298 |
| | 2,791 | 3,332 |

268 Mae costau a ddatgelir uchod yn ymwneud â nwyddau a gwasanaethau a dderbyniwyd yn ystod 2023-24. Datgelir costau heb gynnwys TAW, y mae ei chost wedi'i chynnwys fel rhan o gyflenwadau a gwasanaethau eraill.

42 Ailgodi taliadau teithio a chynhaliaeth ar gyfer staff wedi'u secondio yn bennaf
43 Yn cynnwys rhyddhau £402,000 o ddarpariaeth dadfeiliadau gweler Nodyn 11

## Nodyn 4: Eiddo, offer a chyfarpar

| | Dodrefn a ffitiadau | Asedau Hawl Defnydd | Technoleg gwybodaeth | Offer swyddfa | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **2023-24** | | | | | |
| **Cost** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2023 | 1,017 | 2,420 | 601 | 15 | 4,053 |
| Ychwanegiadau | 42 | 93 | 95 | 9 | 239 |
| Gwarediadau | (531) | (225) | (199) | (3) | (958) |
| Ar 31 Mawrth 2024 | 528 | 2,288 | 497 | 21 | 3,334 |
| **Dibrisiant** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2023 | 641 | 435 | 411 | 6 | 1,493 |
| Tâl wedi'i godi yn y cyfnod | 54 | 244 | 96 | 3 | 397 |
| Gwarediadau | (531) | (225) | (199) | (3) | (958) |
| Ar 31 Mawrth 2024 | 164 | 454 | 308 | 6 | 932 |
| **Gwerth llyfr net** | | | | | |
| Ar 31 Mawrth 2024 | 364 | 1,834 | 189 | 15 | 2,402 |
| Ar 1 Ebrill 2023 | 376 | 1,985 | 190 | 9 | 2,560 |
| **Cyllido asedau** | | | | | |
| Eiddo | 364 | - | 189 | 14 | 568 |
| Wedi'u prydlesu | - | 1,834 | - | - | 1,834 |

| | Dodrefn a ffitiadau | Asedau Hawl Defnydd | Technoleg gwybodaeth | Offer swyddfa | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **2022-23** | | | | | |
| **Cost** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2022 | 1,364 | 504 | 781 | 131 | 2,780 |
| Ychwanegiadau | 336 | 1,916 | 146 | 5 | 2,403 |
| Gwarediadau | (683) | - | (326) | (121) | (1,130) |
| Ar 31 Mawrth 2023 | 1,017 | 2,420 | 601 | 15 | 4,053 |
| **Dibrisiant** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2022 | 1,202 | 355 | 630 | 92 | 2,279 |
| Tâl wedi'i godi yn y cyfnod | 114 | 80 | 107 | 19 | 320 |
| Gwarediadau | (675) | - | (326) | (105) | (1,106) |
| Ar 31 Mawrth 2023 | 641 | 435 | 411 | 6 | 1,493 |
| **Gwerth llyfr net** | | | | | |
| Ar 31 Mawrth 2023 | 376 | 1,985 | 190 | 9 | 2,560 |
| Ar 1 Ebrill 2022 | 162 | 149 | 151 | 39 | 501 |
| **Cyllido asedau** | | | | | |
| Eiddo | 376 | - | 190 | 9 | 575 |
| Wedi'u prydlesu | - | 1,985 | - | - | 1,985 |

### Cysoni â'r datganiad o lifoedd arian parod

| | 2023-24 | 2022-23 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Ychwanegiadau diriaethol (Nodyn 4) | 239 | 2,403 |
| Ychwanegiadau Asedau Hawl Defnyddio cyfalafog | (93) | (1,916) |
| Taliadau i gaffael asedau cyfalaf | 146 | 487 |

269 Yn unol ag IFRS16, o fis Ebrill 2022, mae Eiddo, Offer a Chyfarpar yn cynnwys asedau Hawl Defnyddio o £1.834 miliwn sy’n gysylltiedig ag unedau eiddo ar brydles nad ydynt yn cyd-fynd â’r diffiniad o eiddo buddsoddi. Os hoffech ragor o wybodaeth, gweler Nodyn 12 – Prydlesi.

270 Mae gwariant o fwy na £5,000 ar offer a meddalwedd cyfrifiadurol, adnewyddu swyddfeydd ac offer arall wedi’i gyfalafu. Mae gwariant dilynol ar asedau sy’n bodloni’r meini prawf hyn wedi’i gyfalafu ymhellach. Caiff gwariant ar eitemau nad ydynt yn bodloni’r meini prawf hyn ei drin fel gwariant refeniw yn ystod y flwyddyn.

271 Caiff Eiddo, Offer a Chyfarpar eu datgan yn ôl cost hanesyddol namyn dibrisiant ac amhariad cronedig ac nid yw’n cynnwys TAW.

272 Darperir dibrisiant ar bob ased cyfalaf o’r dyddiad y mae’r ased yn cychwyn ei oes ddefnyddiol. Cyfrifir hyn i ddileu’r gost mewn rhandaliadau blynyddol cyfartal dros ei oes economaidd ar gyfer pob ased fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Dodrefn, ffitiadau a seilwaith TG | Deng mlynedd (neu’r byrraf rhwng oes yr ased a hyd y brydles ar gyfer ffitiadau mewn adeiladau a brydlesir) |
| Asedau hawl defnyddio | Hyd y brydles |
| Offer cyfrifiadurol | Tair blynedd |
| Offer swyddfa | Pum mlynedd |

273 Ym marn y Swyddog Cyfrifyddu, nid oes gwahaniaeth perthnasol rhwng gwerth llyfr net asedau yn ôl gwerthoedd cyfredol ac yn ôl eu cost ddibrisiedig. Cynhelir asesiad blynyddol o amhariad i gadarnhau bod hyn yn dal i fod yn wir.

274 Caiff Asedau Eiddo, Offer a Chyfarpar eu hadolygu ar gyfer amhariad pryd bynnag fo digwyddiadau neu newidiadau i amgylchiadau yn dynodi efallai na fydd y swm cario’n adferadwy. Cydnabyddir colled amhariad yn ôl faint y mae swm cario’r ased yn fwy na’i swm adferadwy. Y swm adferadwy yw’r uchaf rhwng gwerth teg ased namyn costau gwaredu a’i werth-mewn-defnydd.

## Nodyn 5: Asedau anniriaethol[44]

| | £'000 |
|---|---|
| **2023-24** | |
| **Cost** | |
| Ar 1 Ebrill 2023 | 775 |
| Ychwanegiadau | 108 |
| Gwarediadau | (19) |
| Ar 31 Mawrth 2024 | 864 |
| **Amorteiddiad** | |
| Ar 1 Ebrill 2023 | 518 |
| Tâl wedi'i godi yn y cyfnod | 64 |
| Gwarediadau | (19) |
| Ar 31 Mawrth 2024 | 563 |
| **Gwerth llyfr net** | |
| Ar 31 Mawrth 2024 | 301 |
| Ar 1 Ebrill 2023 | 257 |
| **Cyllido asedau** | |
| Eiddo | 301 |

44 Meddalwedd gyfrifiadurol yn bennaf.

| | £'000 |
|---|---|
| **2022-23** | |
| **Cost** | |
| Ar 1 Ebrill 2022 | 756 |
| Ychwanegiadau | 68 |
| Gwarediadau | (49) |
| Ar 31 Mawrth 2023 | 775 |
| **Amorteiddiad** | |
| Ar 1 Ebrill 2022 | 488 |
| Tâl wedi'i godi yn y cyfnod | 79 |
| Gwarediadau | (49) |
| Ar 31 Mawrth 2023 | 518 |
| **Gwerth llyfr net** | |
| Ar 31 Mawrth 2023 | 257 |
| Ar 1 Ebrill 2022 | 268 |
| **Cyllido asedau** | |
| Eiddo | 257 |

275 Caiff asedau anniriaethol eu datgan yn ôl cost hanesyddol amorteiddiedig heb gynnwys TAW. Caiff yr asedau eu hamorteiddio ar sail llinell syth dros y byrraf rhwng cyfnod y drwydded a phum mlynedd a bywyd defnyddiol disgwyliedig yr ased (hyd at ddeng mlynedd). Cyfrifir amorteiddiad o'r dyddiad y mae'r ased yn cychwyn ei oes ddefnyddiol.

276 Ym marn y Swyddog Cyfrifyddu, nid oes gwahaniaeth perthnasol rhwng gwerth llyfr net asedau yn ôl gwerthoedd cyfredol ac yn ôl eu cost ddibrisiedig. Cynhelir asesiad blynyddol o amhariad i gadarnhau bod hynny'n dal i fod yn wir.

277 Caiff asedau anniriaethol eu hadolygu ar gyfer amhariad pryd bynnag fo digwyddiadau neu newidiadau i amgylchiadau'n dynodi efallai na fydd y swm cario'n adferadwy. Cydnabyddir colled amhariad yn ôl faint y mae swm cario'r ased yn fwy na'i swm adferadwy. Y swm adferadwy yw'r uchaf rhwng gwerth teg ased namyn costau gwaredu a'i werth-mewn-defnydd.

## Nodyn 6: Symiau masnach derbyniadwy a gwaith ar y gweill

| | 31 Mawrth 2024 | 31 Mawrth 2023 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Symiau masnach derbyniadwy | | |
| • Llywodraeth Ganolog | 336 | 335 |
| • Llywodraeth Leol | 1,934 | 548 |
| • Y GIG | 597 | 117 |
| • Y tu allan i'r llywodraeth | 44 | 78 |
| Gwaith ar y gweill | | |
| • Llywodraeth Ganolog | 1,069 | 1,243 |
| • Llywodraeth Leol | 1,526 | 1,490 |
| • Y GIG | 396 | 248 |
| | 5,902 | 4,059 |

**Symiau masnach derbyniadwy**

278 Caiff symiau derbyniadwy eu prisio yn ôl eu gwerth teg pan gânt eu cydnabod i ddechrau a'u mesur wedyn yn ôl cost amorteiddiedig gan ddefnyddio'r dull llog effeithiol, namyn unrhyw lwfans ar gyfer colledion credyd disgwyliedig. Ar gyfer 2023-24 mae'r ffigurau'n rhai net ar ôl didynnu colledion credyd disgwyliedig o £143,000 (2022-23: £77,000). Mae colledion credyd disgwyliedig yn ymwneud â dyledion sy'n hŷn na 12 mis ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

279 Mae cleientiaid Swyddfa Archwilio Cymru bron i gyd yn adrannau llywodraeth neu'n gyrff cyhoeddus eraill a ariennir yn bennaf gan y Senedd – ffynhonnell ariannu ddibynadwy heb unrhyw hanes o ddiffygdalu ffioedd archwilio. Felly nid yw Swyddfa Archwilio Cymru yn agored i risgiau credyd arwyddocaol.

280 Nid oes unrhyw symiau perthnasol sy'n dod yn ddyledus ar ôl un flwyddyn wedi'u cynnwys yn y ffigurau uchod.

### Gwaith ar y gweill

281 Mae gwaith ar y gweill yn ymwneud â gwaith a gwblhawyd cyn cyflwyno'r anfoneb. Caiff hwn ei ddatgan yn ôl cost lawn namyn darpariaeth ar gyfer colledion rhagweladwy a symiau y biliwyd amdanynt ar gyfrif.

### Nodyn 7: Symiau derbyniadwy eraill

| | 31 Mawrth 2024 | 31 Mawrth 2023 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Rhagdaliadau ac incwm cronedig[45] | 678 | 377 |
| Benthyciadau i gyflogeion[46] | 9 | 11 |
| | 687 | 388 |

282 Nid oes unrhyw symiau sy'n dod yn ddyledus ar ôl un flwyddyn wedi'u cynnwys yn y ffigurau uchod.

### Nodyn 8: Arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod

| | 31 Mawrth 2024 | 31 Mawrth 2023 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Balans ar 1 Ebrill | 509 | 76 |
| Newid net i arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod | (215) | 433 |
| Balans ar 31 Mawrth | 294 | 509 |

| | 31 Mawrth 2024 | 31 Mawrth 2023 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Cyfrif cyfredol (Gwasanaeth bancio'r llywodraeth) | 294 | 509 |
| | 294 | 509 |

283 Mae arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod yn cynnwys yr holl arian a ddelir mewn cyfrifon y mae gan Swyddfa Archwilio Cymru fynediad ar unwaith atynt.

284 Dangosir balansau arian parod ar ddiwedd y flwyddyn fel symiau sy'n ddyledus i Gronfa Gyfunol Cymru.

45 Taliadau ymlaen llaw ar gyfer costau meddalwedd gyfrifiadurol a chostau sy'n gysylltiedig ag eiddo yn bennaf.

46 Cynllun beicio i'r gwaith.

## Nodyn 9: Symiau masnach taladwy a rhwymedigaethau cyfredol eraill

| | 31 Mawrth 2024 | 31 Mawrth 2023 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Symiau masnach taladwy (yn ddyledus o fewn un flwyddyn) | 100 | 237 |
| TAW | 77 | 61 |
| Costau trethiant a nawdd cymdeithasol | 2 | 194 |
| Croniad ar gyfer hawl i wyliau nas cymerwyd eto | 661 | 601 |
| Croniadau eraill[47] | 456 | 402 |
| | 1,296 | 1,495 |

285 Mae'r symiau hyn yn cynrychioli rhwymedigaethau ar gyfer nwyddau a gwasanaethau a ddarperir cyn diwedd y flwyddyn ariannol ac sydd heb eu talu. Oherwydd eu natur fyrdymor, cânt eu mesur yn ôl cost amorteiddiedig ac nid ydynt yn cael eu disgowntio. Mae'r symiau yn ansicredig.

## Nodyn 10: Incwm gohiriedig

| | 31 Mawrth 2024 | 31 Mawrth 2023 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Incwm gohiriedig | 6,490 | 4,090 |
| | 6,490 | 4,090 |

286 Caiff incwm o ffioedd a gydnabyddir yn ein cyfrifon ei asesu gan gyfeirio at amser y codwyd tâl amdano ac adolygiad o waith a gwblhawyd. Anfonebir am lawer o'n gwaith ar sail rhandaliadau drwy'r flwyddyn. Mae incwm gohiriedig yn cynrychioli incwm y biliwyd amdano ond nad yw wedi cael ei gydnabod eto.

47 Mae'n cynnwys £311,000 o ran anfonebau a dalwyd ar ôl diwedd y flwyddyn, a £145,000 ar gyfer ardrethi busnes sy'n ddyledus yn 2024-25.

## Nodyn 11: Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

| | Dadfeiliad[48] | Lwfans Teithio | Ymadawiadau Staff | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Yn ôl y sefyllfa ar 31 Mawrth 2023 | 864 | 41 | 170 | 1,075 |
| Wedi'u darparu yn ystod y flwyddyn | 70 | 4 | - | 74 |
| Wedi'u defnyddio yn ystod y flwyddyn | (205) | (45) | (170) | (420) |
| Wedi'u rhyddhau yn ystod y flwyddyn | (402) | - | - | (402) |
| Yn ôl y sefyllfa ar 31 Mawrth 2024 | 327 | - | - | 327 |

Dadansoddiad o amseriad disgwyliedig

| | Dadfeiliadau | Lwfans Teithio | Ymadawiadau Staff | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Yn ddim hwyrach nag un flwyddyn | 46 | - | - | 46 |
| Yn hwyrach na 5 mlynedd | 281 | - | - | 281 |
| | 327 | - | - | 327 |

48 Fe wnaethom ddefnyddio cyfradd disgownt Trysorlys EF fel y nodir yn PES(2023)10 ar gyfer balansau rhwng dim a phum mlynedd o 4.26% ac ar gyfer balansau hyd at 10 mlynedd o 4.03% i gyfrifo'r balans hwn.

### Cysoni â'r datganiad llifoedd arian parod

| | 2023-24 | 2022-23 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Wedi'u darparu yn ystod y flwyddyn | 74 | 390 |
| Wedi'u defnyddio/rhyddhau yn ystod y flwyddyn | (822) | (1,045) |
| Wedi'u cyfalafu fel Asedau Hawl Defnyddio | (24) | (210) |
| Symudiad | (772) | (865) |

287 Caiff darpariaethau eu mesur yn ôl yr amcangyfrif gorau o'r symiau sy'n ofynnol i setlo rhwymedigaeth (gyfreithiol neu adeiladol) bresennol o ganlyniad i ddigwyddiad yn y gorffennol.

288 Pan fo effaith gwerth amser arian yn berthnasol, mae'r ddarpariaeth yn seiliedig ar werth presennol y symiau hynny, wedi'i ddisgowntio yn ôl y gyfradd disgownt cyn treth sy'n adlewyrchu'r risgiau sy'n benodol i'r rhwymedigaeth. Caiff dadweindio'r disgownt hwn ei gydnabod yn y traul perthnasol.

### Dadfeiliadau

289 Mae'r ddarpariaeth dadfeiliadau yn cynrychioli amcangyfrif o'r costau y gallwn eu hysgwyddo am atgyweirio'r eiddo a brydleswyd ar ddiwedd y prydlesi.

290 Rhoddir cyfrif am rwymedigaethau dadfeiliadau sy'n gysylltiedig â chost adfer addasiadau a wnaed i adeiladau a brydleswyd trwy ddarpariaeth a neilltuir yn y flwyddyn y nodwyd y gost.

291 Mae dadfeiliadau strwythurol ar gyfer y swyddfa yng Nghaerdydd a'r swyddfa newydd yng Nghyffordd Llandudno wedi cael eu cyfalafu fel rhan o'r gost ased-hawl-defnyddio yn unol ag IFRS 16 para 24(d).

292 Hefyd, caiff taliad dadfeiliadau blynyddol, yn seiliedig ar ganran gwerth amcangyfrifedig dadfeiliadau strwythurol, ei neilltuo i ddarparu ar gyfer traul gyffredinol ar eiddo a brydleswyd.

### Lwfans teithio

293 Cymeradwyodd y Senedd Amcangyfrif Atodol o £1.48 miliwn yn 2021-22 i ariannu taliad ymlaen llaw i staff cymwys i'w digolledu am ddileu eu hawl gytundebol i Lwfans Teithio.

294 Roedd staff yn gallu dewis rhwng taliad ymlaen llaw neu barhau i dderbyn Lwfans Teithio tan fis Mawrth 2024 Roedd yr Amcangyfrif Atodol yn gwneud darpariaeth i'r holl staff dderbyn y taliad hwn ymlaen llaw heb gyfraniad o unrhyw danwariant gan Archwilio Cymru. Fel y digwyddodd hi, dewisodd 67% o'r staff daliad ymlaen llaw am gost o £1.086 miliwn.

295 Gwnaed taliadau a oedd yn cynrychioli trwch y ddarpariaeth hon i staff ym mis Ebrill 2022. Cadwyd gweddill y ddarpariaeth (£41,000) tra'n disgwyl newidiadau i delerau cyflogaeth staff. Erbyn hyn, mae hon naill ai wedi cael ei defnyddio neu ei rhyddhau gan nad oes unrhyw daliadau pellach yn ddyledus.

### Ymadawiadau staff

296 Mae'r ddarpariaeth hon yn cynrychioli'r rhwymedigaeth yn y dyfodol o ran aelodau staff sydd ag ymrwymiad cytundebol i adael dan gynlluniau colli swydd, ymddeoliad cynnar neu ddiswyddo. Ni fu angen unrhyw ddarpariaeth ar gyfer 2023-24.

## Nodyn 12: Prydlesi

### Asedau hawl defnyddio

297 Mae asedau hawl defnyddio yn ymwneud ag unedau eiddo a brydleswyd nad ydynt yn cyd-fynd â'r diffiniad o eiddo buddsoddi ac fe'u cyflwynir yn Nodyn 4 – Eiddo, Offer a Chyfarpar.

298 Mae gan Archwilio Cymru brydlesi ar gyfer tair swyddfa weithredol yng Nghaerdydd, Abertawe a Chyffordd Llandudno. Mae'r prydlesi hyn yn destun adolygiadau rhent cyfnodol.

299 Ym mis Rhagfyr 2023, terfynodd Swyddfa Archwilio Cymru ei phrydles ar ei swyddfa Gogledd Cymru yn Abergele a dechreuodd brydles 10 mlynedd newydd yn swyddfeydd Llywodraeth Cymru yng Nghyffordd Llandudno. Bydd y brydles ar ei swyddfa ym Mhenllergaer, Abertawe yn dod i ben ym mis Ebrill 2025. Mae'r brydles ar y swyddfa yng Nghaerdydd yn ymestyn hyd at fis Mawrth 2033 – gyda chymal terfynu ym mis Mawrth 2028.

300 Mae Asedau Hawl Defnyddio wedi cael eu mesur ar werth presennol y rhwymedigaeth prydlesi, wedi'i ddisgowntio ar y gyfradd fenthyca gynyddrannol a hyrwyddir ym Mhapurau System Gwariant Cyhoeddus y Trysorlys. Bydd y model cost yn cael ei ddefnyddio fel dirprwy ar gyfer y gwerth presennol mewn defnydd presennol yn y blynyddoedd nesaf.

| | 2023-24 | 2022-23 |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| Balans ar 1 Ebrill | 1,781 | 149 |
| Ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn | 69 | 1,706 |
| Taliad prydles | (37) | (80) |
| Llog a godwyd | 68 | 6 |
| Balans ar 31 Mawrth | 1,881 | 1,781 |
| | | |
| Rhwymedigaethau prydles cyfredol | 43 | 50 |
| Rhwymedigaethau prydles anghyfredol | 1,838 | 1,731 |
| | 1,881 | 1,781 |

**Dadansoddiad Aeddfedrwydd – llifoedd arian parod heb eu disgowntio cytundebol**

| | 31 Mawrth 2024 £'000 | 31 Mawrth 2023 £'000 |
|---|---|---|
| Llai nag 1 flwyddyn | 43 | 50 |
| 1-5 mlynedd | 1,130 | 905 |
| Dros 5 mlynedd | 1,059 | 1,247 |
| Cyfanswm y rhwymedigaethau heb eu disgowntio | 2,232 | 2,202 |

**Symiau a gydnabyddir yn y datganiad o wariant net cynhwysfawr**

| | 2023-24 | 2022-23 |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| Llog ar rwymedigaethau prydlesi | 68 | 6 |
| Dibrisiant | 244 | 80 |
| Prydles Fyrdymor | - | 406 |

## Newidiadau mewn rhwymedigaethau sy'n deillio o weithgareddau cyllido

| | Rhwymedigaethau prydles | Cronfa Gyfunol Cymru49 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Balans ar 31 Mawrth 2022 | 149 | 76 |
| **2022-23** | | |
| Arian parod net o/ (defnyddiwyd) mewn gweithgareddau cyllido | (74) | 433 |
| Caffael prydlesi | 1,706 | |
| Balans ar 31 Mawrth 2023 | 1,781 | 509 |
| **2023-24** | | |
| Arian parod net o/ (defnyddiwyd) mewn gweithgareddau cyllido | (37) | (215) |
| Caffael prydlesi | 69 | - |
| Tâl llog yn y cyfnod di-rent50 | 68 | - |
| Balans ar 31 Mawrth 2024 | 1,881 | 294 |

## Nodyn 13: Ymrwymiadau cyfalaf

301 Nid oedd unrhyw ymrwymiadau cyfalaf heb eu talu ar 31 Mawrth 2024. (31 Mawrth 2023: £5,814).

## Nodyn 14: Colledion a thaliadau arbennig

302 Gwnaed taliad arbennig o £21,140 i aelod o staff yn 2023-24 i ddatrys anghydfod cyflogaeth.

303 Ysgwyddwyd colledion o £3,500 a oedd yn gysylltiedig â gweithredu cynllun aberthu cyflog ar gyfer ceir prydles yn 2022-23.

49 Balans arian parod wrth gau a ddychwelwyd i Gronfa Gyfunol Cymru yn y flwyddyn ariannol ddilynol.

50 Llog a godwyd yn ystod y cyfnod di-rent sy'n ymwneud â phrydles Cwr y Ddinas.

## Nodyn 15: Offerynnau ariannol

304 Mae IFRS 7 (Datgeliadau Offerynnau Ariannol) yn ei gwneud yn ofynnol datgelu gwybodaeth am arwyddocâd offerynnau ariannol i endid, a natur a maint y risgiau sy'n deillio o'r offerynnau ariannol hynny, mewn termau ansoddol a meintiol. Oherwydd natur gweithgareddau Swyddfa Archwilio Cymru a'r ffordd y caiff y gweithrediadau eu cyllido, nid yw'r Swyddfa'n agored i lefel sylweddol o risg ariannol ac ni ddelir unrhyw ddeilliadau.

305 Er y gall Swyddfa Archwilio Cymru fenthyg arian at ddibenion cyllido byrdymor, ni fu'n ofynnol i'r Swyddfa wneud hynny yn y flwyddyn ariannol hon.

306 Gall Swyddfa Archwilio Cymru fuddsoddi arian sydd ganddi dros ben hefyd. Gan fod balansau arian parod yn cael eu dal yng Ngwasanaeth Bancio'r Llywodraeth, ni wnaed hyn yn ystod y flwyddyn.

### Risg hylifedd

307 Oherwydd natur ein busnes a'r modd yr ariennir y cyrff yr ydym yn codi ffioedd arnynt, mae ein goddefiant o risg mewn meysydd rheolaeth ariannol yn isel.

308 Yng ngoleuni'r parodrwydd hwn i dderbyn risg, a chefnogaeth Cronfa Gyfunol Cymru, nid yw Swyddfa Archwilio Cymru yn agored i risgiau hylifedd arwyddocaol.

### Risg cyfraddau llog

309 Nid yw asedau a rhwymedigaethau ariannol Swyddfa Archwilio Cymru yn agored i risg cyfraddau llog.

### Risg arian tramor

310 Mae amlygiad Swyddfa Archwilio Cymru i risg arian tramor yn ddibwys gan mai dim ond rhagbryniadau bach iawn mewn perthynas â theithio dramor fel gwestai sy'n cael eu gwneud. Hefyd, mae unrhyw ffioedd a geir o waith neu secondiadau tramor yn cael eu newid pan fyddant yn dod i law. Caiff unrhyw wahaniaethau cyfnewid eu cofnodi yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn.

### Risg credyd

311 Llywodraeth Cymru, y cyrff cyhoeddus a noddir ganddi ac sy'n gysylltiedig â hi, GIG Cymru a chyrff llywodraeth leol yng Nghymru yw cleientiaid Swyddfa Archwilio Cymru yn bennaf. Mae Swyddfa Archwilio Cymru'n codi ffioedd dan ddeddfwriaeth yn unol â Chynllun Ffioedd cymeradwy ac felly nid yw'n agored i unrhyw risgiau credyd perthnasol.

### Gwerthoedd teg

312 Nid oes gwahaniaeth perthnasol rhwng gwerthoedd llyfr a gwerthoedd teg asedau a rhwymedigaethau ariannol Swyddfa Archwilio Cymru o ran y sefyllfa ar 31 Mawrth 2024 (31 Mawrth 2023: dim).

### Nodyn 16: Trafodion partïon cysylltiedig

313 Mae Swyddfa Archwilio Cymru'n gorff corfforedig a sefydlwyd dan statud a chafodd drafodion perthnasol gyda Chronfa Gyfunol Cymru a chyda chyrff a archwilir gan yr Archwilydd Cyffredinol fel y datgelir yn yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

314 Yn ystod y flwyddyn, nid oedd unrhyw aelodau o'r Bwrdd, nac aelodau allweddol o staff na'u partïon cysylltiedig wedi ymgymryd ag unrhyw drafodion perthnasol gyda'r Archwilydd Cyffredinol na Swyddfa Archwilio Cymru. Mae gwybodaeth am bersonél rheoli allweddol wedi'i chynnwys yn yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol (tudalen 67).

### Nodyn 17: TAW

315 Dim ond cyfran fach o TAW ar ei gwariant gros y mae Swyddfa Archwilio Cymru yn gallu ei hadfer, sef y gyfran o incwm o ffioedd anstatudol o'i gymharu â chyfanswm yr incwm ar gyfer y flwyddyn.

# Rhestr Termau

| | |
|---|---|
| Amcangyfrif | Caiff yr Amcangyfrif blynyddol o Incwm a Threuliau ei gymeradwyo mewn sesiwn lawn gan Gynnig y Gyllideb. Mae Pwyllgor Cyllid y Senedd yn darparu adroddiad i ategu hyn. Cyfeirir ato hefyd fel y gyllideb gymeradwy. |
| Amorteiddiad | Dosrannu cost ased sefydlog anniriaethol dros ei oes ddefnyddiol. |
| Ased sefydlog anniriaethol | Ased, fel hawl, nad oes unrhyw sylwedd ffisegol iddo. |
| Ased sefydlog diriaethol | Ased sefydlog (a elwir hefyd yn ased anghyfredol) sydd â bodolaeth ffisegol. Fe'i defnyddir i wahaniaethu rhyngddo ac ased sefydlog anniriaethol. |
| Asedau | Rhywbeth y mae'r sefydliad yn berchen arno neu'n ei ddefnyddio, e.e. offer neu hawliau meddalwedd. |
| Asedau cyfredol | Ased y mae disgwyl iddo gael ei droi'n arian parod o fewn y 12 mis nesaf. |
| Asedau sefydlog | Ased a ddelir gan sefydliad i'w ddefnyddio i gynhyrchu neu gyflenwi nwyddau neu wasanaethau, i'w roi ar osod i eraill, neu at ddibenion gweinyddol ar sail barhaus yng ngweithgareddau'r endid sy'n adrodd. Mae enghreifftiau yn cynnwys offer, cerbydau, tir ac adeiladau. |
| Cronfa Gyfunol Cymru | Y gronfa a ddefnyddir gan y Senedd i ddal symiau y pleidleisir arnynt gan y Senedd sy'n cael eu dyrannu wedyn trwy Gynnig y Gyllideb i Lywodraeth Cymru, Archwilydd Cyffredinol Cymru, Comisiwn y Senedd ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. |
| Cydnabyddiaeth ariannol | Cyflog, neu ddigolllediad arall, a ddarperir am wasanaethau cyflogai. |
| Darpariaeth | Rhwymedigaeth y mae ei hamseriad neu ei swm yn ansicr. |
| Dibrisiant | Dosrannu cost ased sefydlog diriaethol dros ei oes ddefnyddiol. |

| | |
|---|---|
| Ecwiti trethdalwyr | Asedau net y sefydliad. |
| Gwaith ar y gweill | Gwaith a wnaed ac a gydnabyddir fel incwm yn y cyfrifon nad yw cleientiaid wedi cael eu hanfonebu amdano eto. |
| Gwariant cyfalaf | Gwariant ar asedau anghyfredol (sefydlog). |
| Incwm gohiriedig | Yn cynrychioli incwm y biliwyd amdano ond nad yw wedi cael ei gydnabod yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr eto. |
| Prydlesu | Cael defnydd o ased trwy gytundeb rhentu. |
| Rhagdaliadau | Swm a delir ymlaen llaw fel premiymau yswiriant neu rent ymlaen llaw. Fe’i cydnabyddir fel ased i ddechrau, yna fe’i trosglwyddir i’r categori treuliau yn y cyfnod pan geir y budd. |
| Rhwymedigaeth gyfredol | Rhwymedigaeth y mae disgwyl iddi gael ei setlo o fewn y 12 mis nesaf. |
| Sail busnes gweithredol | Caiff datganiadau eu paratoi ar y sail hon gan dybio y bydd y sefydliad yn parhau i weithredu hyd y gellir rhagweld yn y dyfodol. |
| Sail groniadau | Caiff effeithiau trafodion a digwyddiadau eraill eu cydnabod pan fyddant yn digwydd (ac nid wrth i arian parod, neu’r hyn sy’n gyfwerth ag arian parod, ddod i law neu gael ei dalu) ac fe’u cofnodir yn y cofnodion cyfrifyddu a chânt eu hadrodd yn natganiadau ariannol y cyfnodau y maent yn ymwneud â nhw. |
| Symiau masnach derbyniadwy | Symiau sy’n ddyledus gan gleientiaid. |
| Symiau masnach taladwy | Symiau sy’n ddyledus i gael eu talu i gyflenwyr nwyddau a gwasanaethau. |

Mae diffiniadau llawn ar gael yn y Llawlyfr Adrodd Ariannol (FReM).

# Atodiadau

1 Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar Ddatgeliadau Gwybodaeth

2 Parodrwydd i dderbyn risg

# 1 Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar Ddatgeliadau Gwybodaeth

Cysylltodd 25 o unigolion â ni rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024 yn dynodi eu bod yn dymuno gwneud datgeliad chwythu'r chwiban i'r Archwilydd Cyffredinol.

Fodd bynnag, dim ond mewn 17 o achosion yr oedd gan yr Archwilydd Cyffredinol sail resymol i gredu bod y datgeliad yn gymwys ac yn cyd-fynd â'r materion y mae wedi ei ragnodi yn eu cyswllt. Roedd hyn naill ai oherwydd i unigolion fethu â rhoi manylion eu sefyllfa gyflogaeth, neu ei bod yn eglur nad oeddent yn gyflogeion neu'n weithwyr cymwys eraill.

O'r 17 o ddatgeliadau yr oedd yn ymddangos eu bod yn gymwys, mewn wyth o achosion adolygydd y tîm archwilio perthnasol y materion a godwyd, ond ni chanfuwyd eu bod yn gyfystyr â materion pendant y byddai angen i'r Archwilydd Cyffredinol adrodd arnynt neu gymryd camau eraill yn eu cyswllt. O ran y naw achos sy'n weddill, mae'r tîm archwilio yn gwneud neu wedi gwneud ymholiadau lefel uchel neu bydd yn cymryd y materion a godwyd i ystyriaeth yn ystod unrhyw waith archwilio yn y dyfodol.

# 2 Parodrwydd i dderbyn risg

Ein parodrwydd i dderbyn risg (a nodir fel sgôr yng nghornel dde uchaf pob blwch) mewn meysydd allweddol lle gall risgiau godi a bygwth cyflawniad llwyddiannus ein gwaith. Ar gyfer pob un o'r meysydd risg a ddiffinnir yn eang, mae'r parodrwydd i dderbyn risg yn cwmpasu dwy sgôr i adlewyrchu ein dyhead i fod yn fwy arloesol mewn meysydd penodol wrth fynd ar drywydd ein nodau cyffredinol.

### Gwerth am arian — 1-2

Rhedeg y busnes mewn ffordd economaidd, effeithlon ac effeithiol gyda safonau llywodraethu uchel

### Hygyrchedd — 2-3

Sicrhau bod ein hallbynnau archwilio yn glir, yn gryno ac yn bodloni anghenion ystod eang o gynulleidfaoedd

### Capasiti a gallu — 2-3

Denu, cadw a datblygu'r adnoddau staff sydd eu hangen i gyflawni ein rhaglenni gwaith

### Arweinyddiaeth — 2-3

Pennu cyfeiriad strategol clir ar gyfer y sefydliad ac ymgysylltu ac ysgogi staff yn llwyddiannus

### Ansawdd ac amseroldeb — 1-2

Cyflawni gwaith o ansawdd uchel erbyn y terfynau amser gofynnol ac yn unol ag amserlenni sy'n sicrhau'r effaith gorau posibl

### Proffil ac enw da — 2-3

Codi ymwybyddiaeth, dealltwriaeth a hygrededd ymhlith ystod o randdeiliaid allweddol

### Technoleg — 1-2

Sicrhau bod ein systemau TG, gan gynnwys ar gyfer trin data sy'n ymwneud ag archwilio, yn parhau i fod yn ddiogel, yn ddibynadwy ac yn addas i'r diben

Allwedd dyfarniadau parodrwydd i dderbyn risg:

| | | |
|---|---|---|
| 1 | **Amharod** | Mae osgoi risg yn amcan allweddol. Dim ond risg gyfyngedig iawn yr ydym yn barod i'w derbyn. |
| 2 | **Pwyllog** | Ffafrio opsiynau diogel sydd â lefel isel o risg weddillol. Efallai mai dim ond potensial cyfyngedig ar gyfer gwobrwyon y mae'r opsiynau hyn yn ei gynnig. |
| 3 | **Agored** | Yn fodlon ystyried pob opsiwn posibl a dewis un sy'n taro cydbwysedd rhwng risg weddillol a lefel o wobrwyon a ddymunir. |
| 4 | **Awchus** | Yn awyddus i fod yn arloesol a dewis opsiynau sy'n cynnig gwobrwyon uchel er gwaethaf risg gynhenid fwy. |

Archwilio Cymru
Audit Wales

Audit Wales

1 Cwr y Ddinas

Caerdydd

CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffôn testun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu galwadau yn y Saesneg neu'r Gymraeg.

E-bost post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru